RHIF:
WG49708
DYDDIAD CYHOEDDI:
23/04/2024

# Dadansoddiad o’r Ymgynghoriad ar gyfer y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-83577-970-5

**Dadansoddiad o'r Ymgynghoriad ar gyfer y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru**

Crynodeb o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Roi Terfyn ar Ddigartrefedd yng Nghymru

Awdur(on): Kerry KilBride, Jessica Mann, Sean Heron, Katie Lloyd (Miller Research UK Ltd)

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Deddfwriaeth Atal Digartrefedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: DiwygioDeddfwriaethDigartrefedd@llyw.cymru

**Cynnwys**


Rhagair y Gweinidog Crynodeb o'r ymatebion ........ 11

1. Cefndir yr ymgynghoriad ........ 15

2. Dull a throsolwg o'r ymatebion ........ 18

3. Canfyddiadau – Dadansoddiad Llawn o'r Ymatebion ........ 22

Pennod 1 ........ 22

Cwestiwn 1 - Ydych chi'n cytuno y bydd y cynigion hyn yn arwain at fwy o atal a lliniaru digartrefedd? ........ 22

Cwestiwn 2 – Beth yw eich rhesymau dros hyn? ........ 23

Cwestiwn 3 – A oes cynigion deddfwriaethol ychwanegol y dylem eu hystyried yn eich barn chi i wella'r gwaith o atal a lliniaru digartrefedd? ........ 30

Cwestiwn 4 - Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu'r prawf angen blaenoriaethol?... 31

Cwestiwn 5 - Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu'r prawf bwriad? ........ 35

Cwestiwn 6 - Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gadw'r prawf cysylltiad lleol ond ychwanegu grwpiau ychwanegol o bobl at y rhestr o eithriadau i ganiatáu ar gyfer cysylltiadau y tu allan i'r teulu â chymunedau ac i ystyried yn well y rhesymau pam nad yw rhywun yn gallu dychwelyd i'w awdurdod cartref ........ 39

Cwestiwn 7 – Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein hystyriaeth gynnar o gostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a buddion nad ydym wedi rhoi cyfrif amdanynt? ........ 45

Pennod 2

Cwestiwn 8 - Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i gymhwyso dyletswydd i nodi, atgyfeirio a chydweithredu ar set o gyrff perthnasol er mwyn atal digartrefedd? ........ 46

Cwestiwn 8a – rhesymau i gefnogi eich ymateb ........ 46

Cwestiwn 9 - Ydych chi'n cytuno â'r cyrff perthnasol arfaethedig, y byddai'r dyletswyddau i nodi, atgyfeirio a chydweithredu yn berthnasol iddynt? A fyddech chi'n ychwanegu neu'n tynnu unrhyw wasanaethau o'r rhestr? ........ 50

Cwestiwn 10 – Yn eich barn chi, a ydym wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng gofynion deddfwriaethol ac arferion gweithredol, yn enwedig o ran iechyd? ........ 56

Cwestiwn 11 – Pa fesurau ymarferol fydd angen eu rhoi ar waith er mwyn i’r dyletswyddau arfaethedig i nodi, atgyfeirio a chydweithredu weithio’n effeithiol? Ystyriwch anghenion dysgu a datblygu, adnoddau, staffio, lleoliad a diwylliant. ....60

Cwestiwn 12 – Yn ogystal â’r dyletswyddau eang i nodi, atgyfeirio a chydweithredu, mae’r bennod hon yn cynnwys cynigion i wella’r gwaith o gydlynu achosion ar gyfer y rheini sydd ag anghenion lluosog a chymhleth. I ba raddau y bydd y cynigion yn helpu i atal digartrefedd ymhlith y grŵp hwn? ....65

Cwestiwn 13 – Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein hystyriaeth gynnar o gostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a buddion nad ydym wedi rhoi cyfrif amdanynt? ....66

Pennod 3

Cwestiwn 14 – A oes grwpiau eraill o bobl, nad ydynt wedi’u cynnwys yn yr adran hon, y credwch y mae digartrefedd yn effeithio’n anghymesur arnynt ac sydd angen gweithgarwch ychwanegol wedi’i dargedu i atal a lliniaru’r digartrefedd hwn (rhowch dystiolaeth i gefnogi eich safbwyntiau)? ....69

Cwestiwn 15 - Pa gamau deddfwriaethol neu bolisi ychwanegol y gellid eu cymryd i atal neu liniaru digartrefedd ar gyfer y grwpiau a nodir yn y Papur Gwyn hwn? ....72

Cwestiwn 16 – Mae ein cynigion sy’n ymwneud â phlant, pobl ifanc a phrofiad o ofal yn ceisio gwella ac egluro’r cysylltiadau rhwng deddfwriaeth digartrefedd a’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae angen datblygiad polisi sylweddol i asesu ymarferoldeb hyn. Beth, yn eich barn chi, yw manteision a heriau ein dull gweithredu a pha ganlyniadau anfwriadol y dylem eu paratoi i’w lliniaru? ....74

Cwestiwn 17 - A yw ein cynigion yn mynd yn ddigon pell i sicrhau bod pobl ifanc 16 ac 17 oed sy’n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn cael cymorth ar y cyd gan y gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol? Beth arall y gellid ei wneud i gryfhau ymarfer a chyflawni’r cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ehangach? ....77

Cwestiwn 18 - Ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno y dylid diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 er mwyn caniatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed allu dal contractau meddiannaeth? ....80

Sylwadau a oedd yn cytuno ....81

Sylwadau sy’n cytuno mewn egwyddor ond gyda chafeatau ....81

Sylwadau a oedd yn anghytuno ....81

Cwestiwn 19 – Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein hystyriaeth gynnar o gostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a buddion nad ydym wedi rhoi cyfrif amdanynt? ........ 83

Pennod 4

Cwestiwn 20 - I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r cynigion tymor byr i gynyddu addasrwydd llety? Ydych chi’n credu y dylid cymryd camau ychwanegol ar unwaith at y diben hwn? ........ 86

Cwestiwn 21 - I ba raddau yr ydych yn cytuno neu’n anghytuno â’r cynigion ynghylch dyrannu tai cymdeithasol a rheoli rhestrau aros tai? Yn eich barn chi, beth fydd canlyniadau’r cynigion hyn? ........ 100

Cwestiwn 22 - I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r cynnig am opsiynau tai ychwanegol i gyflawni’r brif ddyletswydd digartrefedd? Beth ydych chi’n ei ragweld fydd canlyniadau posibl (bwriadol neu anfwriadol) y cynnig hwn? ........ 113

Sylwadau a oedd yn cytuno ........ 113

Pryderon a heriau ........ 114

23. Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein hystyriaeth gynnar o gostau a manteision y cynigion hyn mewn perthynas â mynediad at dai. A oes unrhyw gostau a buddion nad ydym wedi rhoi cyfrif amdanynt? ........ 114

Cwestiwn 24 - I ba raddau ydych chi’n meddwl y bydd y cynigion a amlinellir uchod yn cefnogi’r gwaith o weithredu a gorfodi’r diwygiadau arfaethedig? ........ 116

Cwestiwn 25 – Pa liferi/swyddogaethau/mecanweithiau eraill y gellid eu defnyddio i ddal awdurdodau tai lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn atebol am eu rôl o ran atal digartrefedd? ........ 124

Cwestiwn 26 – Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein hystyriaeth gynnar o gostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a buddion nad ydym wedi rhoi cyfrif amdanynt? ........ 128

Pennod 6

Cwestiwn 27 - Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y diwygiadau arfaethedig yn y Papur Gwyn hwn ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. ........ 131

Cwestiwn 27a - Ydych chi’n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? ........ 132

Cwestiwn 27b - Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol? ....132

Cwestiwn 28. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod amdanynt. ....132

4. Digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ....135

5. Crynodeb o'r Ymateb Ansafonol ....144

6. Ymateb Pobl Ifanc ....148

7. Y camau nesaf ....151

**Rhestr o dablau**


Mathau o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd ...... 18
Mathau o ymatebion yn ôl grŵp rhanddeiliaid ...... 19
Tabl 2.1: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gwestiwn 1 ...... 22
Tabl 2.2: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gwestiwn 4 ...... 31
Tabl 2.3 Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gwestiwn 5 ...... 35
Tabl 2.3: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i Gwestiwn 6 ...... 39
Tabl 2.1: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gwestiwn 8 ...... 46
Tabl 2.3 Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gwestiwn 9 ...... 50
Tabl 3.1: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gwestiwn 14 ...... 69
Tabl 3.3: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gwestiwn 17 ...... 77
Tabl 3.4: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gwestiwn 18 ...... 80
Tabl 4.1: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 1 ...... 87
Tabl 4.2: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 2 (Gwahardd mannau cysgu sy'n cael eu rhannu) ...... 88
Tabl 4.3: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 3 ...... 90
Tabl 4.4: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 4 ...... 91
Tabl 4.5: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 5 ...... 92
Tabl 4.6: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 6 ...... 93
Tabl 4.7: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 7 ...... 95
Tabl 4.8: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 8 ...... 96
Tabl 4.9: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 9 ...... 97
Tabl 4.8: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 10 ...... 98
Tabl 4.11: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 11 ...... 98
Tabl 4.12: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 12 ...... 99
Tabl 4.13: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 13 ...... 100
Tabl 4.16: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 2 ...... 103
Tabl 4.17: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 3 ...... 105
Tabl 4.18: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 4 ...... 107
Tabl 4.19: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 5 ...... 108
Tabl 4.20: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 6 ...... 110
Tabl 4.21: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 7 ...... 111

Tabl 4.22: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 8 ....................................112
Tabl 2.1: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i Adran 1. ......................................148
Tabl 3.1: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i Adran 2. ......................................149
Tabl 4.1: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i Adran 3 .......................................150
Tabl 5.1: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i Adran 4 .......................................150
Tabl 6.1: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i Adran 5 .......................................151

## Geirfa

| Acronym/Gair Allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Dyraniadau | Y system a ddefnyddir i ddarparu tai cymdeithasol i'r rheini sydd wedi gwneud cais amdanynt. |
| Ceisydd | Y sawl sy'n gwneud cais i awdurdod tai lleol am gymorth oherwydd eu bod yn cael eu bygwth â digartrefedd neu eu bod yn ddigartref. |
| Cyn-aelodau o'r lluoedd arfog/cyn-filwyr | Unrhyw un sydd wedi gwasanaethu am o leiaf un diwrnod yn Lluoedd Arfog Ei Fawrhydi (Rheolaidd neu Wrth Gefn) neu Forwyr Masnachol sydd wedi gwasanaethu ar weithrediadau milwrol sydd wedi'u diffinio'n gyfreithiol.[1] |
| Wedi cael profiad o ofal | Person sydd wedi cael llety gan adran gwasanaethau cymdeithasol am gyfnod o 24 awr neu fwy, cyn eu pen-blwydd yn 18 oed. |
| Person sy'n gadael gofal | Mae person ifanc sy'n gadael gofal yn cynnwys person ifanc sy'n perthyn i un o'r categorïau a bennir yn adran 106(2) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac y mae ganddo hawl i gael cymorth o dan adrannau 105 i 115 y Ddeddf honno.[2] |

[1] Taflen Ffeithiau Cyn-filwyr 2020
[2] Am ddiffiniadau pellach gweler paragraff 397 - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Cod Ymarfer Rhan 6
(Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya)

| | |
|---|---|
| Y Cod Canllawiau | Mae'n cyfeirio at y Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd[3]; y ddogfen ganllaw ategol ar gyfer Deddf Tai 2014. |
| Anabledd | Nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith negyddol 'sylweddol' a 'hirdymor' ar allu person i wneud gweithgareddau dyddiol arferol. Mae 'sylweddol' yn fwy na mân neu ddibwys, e.e. mae'n cymryd llawer mwy o amser nag arfer i gwblhau tasg ddyddiol fel gwisgo. Mae 'hirdymor' yn golygu 12 mis neu fwy, e.e. cyflwr anadlu sy'n datblygu o ganlyniad i haint ar yr ysgyfaint. |
| Arbenigwyr drwy brofiad | Pobl sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd ac sydd wedi rhannu'r profiadau hynny er mwyn cyfrannu at waith y Panel Adolygu Arbenigol a datblygiad y Papur Gwyn hwn. |
| HWA 2014 | Deddf Tai (Cymru) 2014 |
| Awdurdod Tai Lleol | Yn cyfeirio at y cyngor ar gyfer sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru ac at ddibenion y ddogfen hon; swyddogaeth benodol yr awdurdod lleol sy'n darparu'r gwasanaeth digartrefedd statudol. |
| Prif ddyletswydd | Adran 75 Deddf Tai (Cymru) 2014 – y ddyletswydd i sicrhau llety i geisydd mewn angen blaenoriaethol pan ddaw'r ddyletswydd yn adran 73 (dyletswydd i helpu i sicrhau llety i geiswyr digartref) i ben. |
| MAPPA | Mae Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd ar waith i sicrhau bod troseddwyr treisgar a rhywiol yn cael eu rheoli'n llwyddiannus. |
| Problemau iechyd meddwl | Cyflyrau iechyd sy'n cynnwys newidiadau mewn emosiwn, meddwl neu ymddygiad (neu gyfuniad o'r rhain). Gall salwch meddwl fod yn gysylltiedig â thrallod |

[3] allocation-of-accommodation-and-homelessness-guidance-for-local-authorities.pdf (gov.wales)

| | |
|---|---|
| | a/neu broblemau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, gwaith neu deuluol. |
| Dim Hawl i Gyllid Cyhoeddus<br><br>(NRPF) | Ni fydd gan unigolyn Hawl i Gyllid Cyhoeddus pan eu bod ‘yn amodol ar reolaeth fewnfudo’, fel y’i diffinnir gan adran 115 Deddf Mewnfudo a Lloches 1999.<br>Ni chaiff person sy’n amodol ar reolaeth fewnfudo hawlio arian cyhoeddus oni bai fod eithriad yn berthnasol. |
| Enwebiadau | Enwebiad yw pan fydd awdurdod lleol yn cyflwyno person o’r rhestr aros i gael ei ystyried ar gyfer eiddo. |
| Dyletswydd atal | Adran 66 HWA 2014 – y ddyletswydd i helpu i atal ceisydd rhag dod yn ddigartref. |
| Nodweddion gwarchodedig | Nodweddion sy’n cael eu gwarchod gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. |
| Ailgartrefu Cyflym | Nod Ailgartrefu Cyflym yw lleihau’r defnydd o lety dros dro i’r lefel isaf posibl a gwella mynediad at dai sefydlog cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn helpu i osgoi effeithiau ansefydlogi ac ymyleiddio o ganlyniad i ddigartrefedd am gyfnod hir neu aros am gyfnodau hir mewn lleoliadau brys neu dros dro tra’n aros yn ddigartref. |
| Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Chymdeithasau Tai | Mae’n golygu landlord cymdeithasol sydd wedi’i gofrestru o dan Ran 1 Deddf Tai 1996. Mudiadau annibynnol, nid-er-elw sy’n ymdrechu i ddarparu tai fforddiadwy i ateb y galw tra’n buddsoddi mewn cymunedau. |

| | |
|---|---|
| Rhentu Doeth Cymru | Mae Rhentu Doeth Cymru yn helpu'r rheini sy'n gosod neu'n rheoli eiddo rhent yng Nghymru i gydymffurfio â dyletswyddau Deddf Tai (Cymru) 2014 ac yn rhoi cyngor ar rentu'n ddiogel a chartrefi iach. Maent hefyd yn prosesu cofrestriadau landlordiaid, rhoi trwyddedau a darparu hyfforddiant i'r rheini sy'n ymwneud â'r farchnad rhentu ledled Cymru. |
| Yr ystâd ddiogeledd | Mae'r ystâd ddiogeledd yn cynnwys carchardai, safleoedd cymeradwy, llety mechnïaeth a llety cadw ieuenctid. |
| Syrffio soffas | Aros dros dro mewn cyfres o gartrefi pobl eraill, fel arfer drwy gysgu ar eu soffa. |
| Deddf SSWB | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
| Ddigartref ac ar y stryd | Person nad oes llety ar gael i'w letya yn y Deyrnas Unedig neu yn rhywle arall, y mae gan y person<br>a) hawl i'w feddiannu yn rhinwedd buddiant ynddo neu yn rhinwedd gorchymyn llys,<br>b) trwydded ddatganedig neu ymhlyg i feddiannu, neu<br>c) yn ei feddiannu fel preswylfa yn rhinwedd deddfiad neu reolaeth y gyfraith sy'n rhoi'r hawl i'r person barhau i feddiannu neu gyfyngu ar hawl person arall i adennill meddiant. |
| Trais yn erbyn menywod a genethod (VAWG) | Term cyffredinol sy'n cael ei ddefnyddio'n rhyngwladol ar gyfer ystod eang o gam-drin, fel lladdiad domestig, cam-drin domestig, ymosodiad rhywiol, cam-drin a brofir fel plentyn, anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM), priodas dan orfod ac aflonyddu yn y gwaith a bywyd cyhoeddus. Er bod dynion a bechgyn hefyd yn dioddef llawer o'r mathau hyn o gam-drin, maen nhw'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a genethod ac yn digwydd oherwydd eu bod yn fenywod. Mae VAWG yn |

| | |
|---|---|
| | derm a fabwysiadwyd o ddatganiad 1993 y Cenhedloedd Unedig sy'n cynnwys "Unrhyw weithred o drais ar sail rhywedd sy'n arwain at, neu sy'n debygol o arwain at, niwed corfforol, rhywiol neu seicolegol i fenywod, gan gynnwys bygythiadau o weithredoedd o'r fath, gorfodaeth neu amddifadu rhyddid yn fympwyol, boed hynny mewn bywyd cyhoeddus neu breifat". |

**Crynodeb o'r ymatebion**

Cafwyd cyfanswm o 140 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o awdurdodau lleol, gwasanaethau cyhoeddus, sefydliadau trydydd sector a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn croesawu uchelgais y Papur Gwyn ac yn cytuno bod y cynigion yn darparu mesurau priodol i gefnogi'r gwaith o atal a lliniaru digartrefedd yng Nghymru. Roedd yr ymatebion yn adlewyrchu ymrwymiad eang, cyffredin i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynigion ymhellach a sicrhau dull gweithredu cyfannol, amlasiantaeth i fynd i'r afael ag achosion cymhleth ac effeithiau digartrefedd.

Fodd bynnag, mae'r teimlad hwn wedi'i danategu gan geisiadau i fod yn bwyllog, yn enwedig gan ymatebwyr o awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yr ymatebion a oedd yn mynegi cefnogaeth i'r cynigion yn cynnwys cafeatau sylweddol oherwydd maint yr adnoddau yn ogystal â newid diwylliannol eang, a oedd yn angenrheidiol ym marn rhanddeiliaid er mwyn cyflawni gweledigaeth gyffredin y Papur Gwyn.

Mae'r pryderon a nodwyd yn deillio'n bennaf o'r cynnydd cychwynnol canfyddedig yn y galw am gymorth ar draws gwasanaethau, y gallai'r newidiadau arfaethedig ei sbarduno drwy well ymwybyddiaeth o risgiau ac arwyddion o ddigartrefedd (gan arwain at fwy o atgyfeiriadau) .

Cafwyd cytundeb mwyafrifol mewn perthynas â chwestiynau ymgynghorol ar:

- y cynigion a'u gallu (gyda'i gilydd) i gynyddu'r gwaith o atal a lliniaru digartrefedd
- y cynnig i ddiddymu'r profion (angen blaenoriaethol a bwriad)
- y diwygiadau arfaethedig i'r prawf cysylltiad lleol
- y ddyletswydd arfaethedig i nodi, cyfeirio a chydweithredu (a gymhwysir i set berthnasol o gyrff) i atal digartrefedd
- y cynigion sydd wedi'u targedu at gefnogi pobl ifanc 16 ac 17 oed sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu sydd yn ddigartref

Yn gyffredinol, mae’r ymatebion yn dangos bod y cynigion craidd yn cynrychioli dull tecach, mwy cyson a chynhwysol o liniaru ac atal, sy’n atgyfnerthu’r ddealltwriaeth bod digartrefedd yn gydgyfrifoldeb ar y cyd ymysg partneriaid gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, awdurdodau lleol a fynegodd y pryder mwyaf ynghylch y ‘profion’ a’r bwlch canfyddedig rhwng uchelgais system gymorth gynhwysol, a realiti’r argyfwng tai. Pwysleisiwyd y bydd gan y cynigion ganlyniadau gwahanol ar draws gwahanol ardaloedd, oherwydd ffactorau ymarferol fel maint ac anghenion y boblogaeth, ac argaeledd cyflenwad tai lleol.

Rhannwyd cyfoeth o dystiolaeth ystyriol o ansawdd uchel mewn ymateb i’r ymgynghoriad, gan ddarparu’r rhesymeg ategol ar gyfer sylwadau oedd yn ymwneud â phryder a phwyllo. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y dystiolaeth hon yn tynnu sylw at faint yr angen a welwyd gan wasanaethau sy’n cefnogi’r rheini mewn argyfwng a/neu’r rheini sydd mewn perygl, maint yr adnoddau sydd eu hangen ar wasanaethau er mwyn diwallu’r anghenion hyn, a thystiolaeth ychwanegol sy’n tynnu sylw at brofiadau’r rheini y mae digartrefedd yn effeithio’n anghymesur arnynt.

Yn benodol, darparodd ymatebwyr y trydydd sector dystiolaeth gref hefyd i gefnogi’r gwaith o ystyried grwpiau ychwanegol (ar draws cynigion y Papur Gwyn) y mae effaith anghymesur arnynt ac y mae angen gweithgareddau atal ychwanegol wedi’u targedu arnynt.

Roedd yr ymatebwyr yn croesawu’r ddyletswydd arfaethedig i nodi, cyfeirio a chydweithredu. Fodd bynnag, roedd llawer yn ystyried bod y set arfaethedig o gyrff (y dylai’r dyletswyddau fod yn berthnasol iddynt) yn safon sylfaenol. Derbyniodd y cynnig hwn alwadau cryf i ehangu’r rhestr ac, wedi hynny, i ehangu’r disgwyliad i ragor o wasanaethau a rhanddeiliaid chwarae rhan bwysig mewn atal digartrefedd. Er enghraifft, ailadroddodd ymatebwyr argymhelliad y Panel Adolygu Arbenigol - y dylai fod gan y sector rhentu preifat ddyletswydd i roi rhybudd cyfreithiol i awdurdodau tai lleol pan fo bwriad i gyflwyno hawliad meddiant.

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn i ymatebwyr ystyried a yw’r cynigion yn mynd yn ddigon pell i sicrhau bod pobl ifanc 16 a 17 oed sy’n ddigartref (neu mewn perygl o fod yn ddigartref) yn cael cymorth ar y cyd gan wasanaethau cymdeithasol

ac awdurdodau tai lleol. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebion i’r cwestiwn hwn yn amhendant, gydag ymatebwyr yn darparu nifer o awgrymiadau i gefnogi cryfhau ymarfer yn y maes hwn.

Er bod y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn cytuno y dylid diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 er mwyn caniatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed allu dal contractau meddiannaeth, roedd ystod eang o sylwadau manwl yn mynegi y dylid pwyllo mewn perthynas â’r cynnig hwn. Tynnodd sefydliadau plant sylw at bryderon penodol ynghylch diogelu a’r mesurau a fyddai’n cael eu cymryd i gefnogi’r broses o roi’r newid hwn ar waith, gan gyfeirio at dystiolaeth bod plant a phobl ifanc hefyd yn rhannu pryderon am y canlyniadau posibl iddyn nhw a’u cyfoedion.

Er mwyn cefnogi’r gwaith o weithredu cynigion y Papur Gwyn, pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd monitro rheolaidd ac asesiadau effaith cywir (o ystyried maint presennol y galw, natur anwadal y cyd-destun economaidd-gymdeithasol a’r farchnad dai) a’r angen am gynnydd diriaethol mewn adnoddau. Cydnabyddir bod mwy o ymdrechion i wella’r cydlynu rhwng asiantaethau yn hanfodol, ond mae hyn yn gysylltiedig â chostau gweinyddol a staffio uwch er mwyn gallu datblygu prosesau, hyfforddiant, mecanweithiau atgyfeirio ac adolygiadau newydd. Nodwyd nifer o gynigion gan ymatebwyr i wella effeithlonrwydd ac ansawdd cymorth digartrefedd a gwasanaethau tai wrth gyflwyno cynigion, megis cynllun gweithredu llawn, llwyfan TG cyffredin a rhaglen hyfforddi integredig.

O ganlyniad i swmp y dystiolaeth, ceisiadau am eglurhad a chynigion (argymhellion) a rannwyd gan ymatebwyr i gefnogi eu hatebion, mae dadansoddiad helaeth wedi cael ei rannu â thîm polisi Llywodraeth Cymru (ynghyd â’r adroddiad cryno hwn) i gefnogi’r gwaith o ddatblygu’r Papur Gwyn ymhellach.

## Cefndir yr ymgynghoriad

1.1 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

1.2 Mae'r Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru yn nodi amrywiaeth o gynigion sy'n rhan o strategaeth drawsnewid hirdymor i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithredu.

1.3 Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am adborth ar draws pum prif thema'r Papur Gwyn, sef:

- diwygio'r ddeddfwriaeth digartrefedd graidd bresennol
- rôl gwasanaeth cyhoeddus Cymru o ran atal digartrefedd
- cynigion wedi'u targedu i atal digartrefedd ar gyfer y rheini yr effeithir arnynt yn anghymesur
- mynediad at dai
- gweithredu

1.4 Bwriad cynigion y Papur Gwyn yw cefnogi nod Llywodraeth Cymru bod digartrefedd yn cael ei atal yn y mwyafrif helaeth o achosion a, lle na ellir ei atal, mae'n brin, yn fyr a heb ei ailadrodd.

1.5 Cyhoeddwyd y Papur Gwyn yn dilyn 14 mis o waith datblygu, wedi'i hysbysu'n sylweddol gan argymhellion Panel Adolygu Arbenigol Annibynnol ac ymgysylltu â dros 350 o bobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd a mewnbwn eang gan randdeiliaid ledled Cymru.

1.6 Roedd y cyfnod ymgynghori rhwng 10 Hydref 2023 a 16 Ionawr 2024 ac roedd yn gofyn am adborth drwy'r fformatau canlynol:

- dogfen ymgynghori
- dogfen ymgynghori: dogfen plant a phobl ifanc
- dogfen ymgynghori: fersiwn hawdd ei darllen
- Fideo Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

1.7 Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn darparu'r dogfennau cyfeirio canlynol, a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad ac sy'n cael eu defnyddio fel tystiolaeth ategol gan ymatebwyr:

- dyraniadau: deall mwy, yng nghyd-destun digartrefedd yng Nghymru
- Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft
- Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

1.8 Cafodd partneriaid mewn awdurdodau lleol, sefydliadau trydydd sector, gwasanaethau cyhoeddus a grwpiau perthnasol eraill eu hysbysu am yr ymgynghoriad a'u gwahodd i rannu eu hadborth. Cafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru a rhoddwyd sylw i'w lansiad yn y cyfryngau Cymraeg ehangach.

1.9 Roedd y brif ddogfen ymgynghori yn gofyn cyfanswm o 28 o gwestiynau, a oedd yn rhoi lefel uchel o fanylion mewn perthynas â chynigion penodol a meysydd diwygio a awgrymwyd. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi darparu ymatebion 'cyflawn', gan rannu atebion ystyriol ar draws yr ystod lawn o gwestiynau ymgynghori.

1.10 Oherwydd lefel y dystiolaeth a safon y manylder a ddarparwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad, bwriad y ddogfen hon yw crynhoi'r prif ddadleuon a'r themâu allweddol a fynegwyd gan y rhai a gymerodd ran. Mae dogfen atodol ar wahân wedi cael ei rhannu â Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r adroddiad cryno hwn, sy'n cyfuno'r cyfeiriadau penodol at dystiolaeth, cynigion (awgrymiadau) ac esboniadau a fynegwyd gan ymatebwyr, er mwyn helpu i lywio'r camau datblygu nesaf yn dilyn y Papur Gwyn.

1.11 Mae'r holl ymatebion ysgrifenedig a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ar gael yn llawn. Ewch i'r dudalen ymgynghori.

1.12 Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys pum digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid thematig, yn ogystal â chyfleoedd ymgysylltu a ddarparwyd i grwpiau rhanddeiliaid penodol, a gafodd eu defnyddio i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r ystyriaethau, y cyfleoedd, y pryderon a'r heriau ymarferol sy'n wynebu rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â chynigion y Papur Gwyn. Mae adborth o'r digwyddiadau hyn wedi cael ei grynhoi fel rhan o adran annibynnol o'r adroddiad hwn (pennod 4).

1.13 Yn olaf, cyflwynodd rhai rhanddeiliaid adborth ar gynigion y Papur Gwyn ar ffurf llythyrau neu negeseuon e-bost yn ogystal ag, neu yn hytrach nag ateb cwestiynau safonol yr ymgynghoriad. Mae'r ymatebion 'ansafonol' hyn wedi cael eu dadansoddi a'u crynhoi ar wahân i'r ymatebion ymgynghori ffurfiol, ac maent wedi'u nodi ym mhennod 5.

1.14 At ddibenion llywio, mae'r adroddiad cryno hwn wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- **Pennod 2** – trosolwg o'r ymatebion/ymagwedd mewn perthynas â'r dadansoddiad
- **Pennod 3** – dadansoddiad llawn o'r ymatebion (ar gyfer pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad)
- **Pennod 4** – crynodeb o ganfyddiadau'r digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid
- **Pennod 5** – crynodeb o ymatebion ansafonol

## 2. Dull a throsolwg o'r ymatebion

**Crynodeb o'r ymateb**

2.1 Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r mathau o ymatebion i'r ymgynghoriad:

**Mathau o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd**

| Math o ymateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Ymgynghoriad llawn (ymatebion safonol) | 115 |
| Ymgynghoriad plant a phobl ifanc | 6 |
| Ymatebion ansafonol | 19 |
| Cyfanswm | 140 |

2.2 Derbyniwyd pedwar ymateb yn Gymraeg a derbyniwyd pob ymateb arall yn Saesneg.

2.3 Ar ben hynny, cafodd pum digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid eu hwyluso gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2023 fel rhan o'r ymgynghoriad. Darparwyd cyfleoedd ymgysylltu hefyd i grwpiau rhanddeiliaid penodol, gan gynnwys digwyddiadau pwrpasol yn cael eu cynnal ar gyfer RSLs a chyfarfodydd 1:1 gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru. Cafodd nodiadau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru yn y digwyddiadau hyn eu cynnwys yn y dadansoddiad a'u crynhoi ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn.

2.4 Roedd yr ymgynghoriad llawn hefyd wedi denu amrywiaeth dda o fathau o randdeiliaid. Mae dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl grwpiau rhanddeiliaid i'w weld isod:

**Mathau o ymatebion yn ôl grŵp rhanddeiliaid**

| Grŵp rhanddeiliaid | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Awdurdod Lleol | 20 |
| Trydydd sector | 18 |
| Iechyd | 12 |
| Sector cyhoeddus arall (Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Plismona yng Nghymru) | 3 |
| Sector preifat | 2 |
| Plaid wleidyddol | 2 |
| Landlord Cymdeithasol | 10 |
| Cofrestredig (RSL) | 4 |
| Academaidd | 10 |
| Sefydliadau plant | 34 |
| Unigolyn | 115 |
| Cyfanswm | |

2.5 Cafodd yr holl ymatebion i bob cwestiwn ymgynghori ar wahân (ac is-gwestiynau) eu hadolygu'n unigol gan y tîm dadansoddi, cyn eu cyfuno a'u grwpio'n thematig, er mwyn rhoi cipolwg ar farn gyffredinol yr adborth ar draws yr ymgynghoriad.

**Dadansoddiad Meintiol**

2.6 Cynhaliodd y tîm ymgynghori adolygiad o'r ymgynghoriad i ganfod cwestiynau lle'r oedd dadansoddiad meintiol yn bosibl yn seiliedig ar p'un a oedd yn bosibl nodi cymeradwyaeth neu anghymeradwyaeth glir mewn perthynas â chynigion penodol.

2.7 Nododd yr adolygiad hwn fod y cwestiynau canlynol yn addas ar gyfer dadansoddiad meintiol:

- 1. Ydych chi'n cytuno y bydd y cynigion hyn yn arwain at fwy o atal a lliniaru digartrefedd?
- 4. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu'r prawf angen blaenoriaethol?
- 5. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu'r prawf bwriad?

- 6. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gadw'r prawf cysylltiad lleol ond ychwanegu grwpiau ychwanegol o bobl at y rhestr o eithriadau i ganiatáu ar gyfer cysylltiadau y tu allan i'r teulu â chymunedau ac i ystyried yn well y rhesymau pam nad yw rhywun yn gallu dychwelyd i'w awdurdod cartref.
- 8. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i gymhwyso dyletswydd i nodi, atgyfeirio a chydweithredu ar set o gyrff perthnasol er mwyn atal digartrefedd?
- 9. Ydych chi'n cytuno â'r cyrff perthnasol arfaethedig, y byddai'r dyletswyddau i nodi, atgyfeirio a chydweithredu yn berthnasol iddynt? A fyddech chi'n ychwanegu neu'n tynnu unrhyw wasanaethau o'r rhestr?
- 17. A yw ein cynigion yn mynd yn ddigon pell i sicrhau bod pobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn cael cymorth ar y cyd gan y gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol? Beth arall y gellid ei wneud i gryfhau ymarfer a chyflawni'r cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ehangach?
- 18. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 er mwyn caniatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed allu dal contractau meddiannaeth?
- 20. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion tymor byr i gynyddu addasrwydd llety? Ydych chi'n credu y dylid cymryd camau ychwanegol ar unwaith at y diben hwn?
- 21. I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion ynghylch dyrannu tai cymdeithasol a rheoli rhestrau aros tai? Yn eich barn chi, beth fydd canlyniadau'r cynigion hyn?
- 22. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig am opsiynau tai ychwanegol i gyflawni'r brif ddyletswydd digartrefedd? Beth ydych chi'n ei ragweld fydd canlyniadau posibl (bwriadol neu anfwriadol) y cynnig hwn?

2.8 Adolygwyd pob cwestiwn a oedd yn gwahodd ymateb caeedig, hyd yn oed pan oedd hynny yn rhannol, ar gyfer addasrwydd dadansoddiad meintiol. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, roedd yr ymatebion yn rhy gynnil i'w categoreiddio, ac roeddent naill ai'n cael eu codio fel rhai 'amhendant' – neu'n destun proses ddadansoddi cwbl ansoddol.

**Dadansoddiad ansoddol**

2.9 Dadansoddwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan ddefnyddio dull ansoddol. Cafodd llawer o'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad eu compowndio, h.y.: gan ofyn cwestiwn sylfaenol wedi'i ddilyn gan gwestiwn dilynol, ac mae llawer o'r meysydd deddfwriaethol y cyfeirir atynt yn amlochrog a chymhleth. Ar y sail hon, daethpwyd i'r casgliad mai dadansoddiad ansoddol oedd y dull mwyaf addas ar gyfer deall ymatebion cyffredinol i gynigion.

2.10 Cynhaliwyd sampl 'ddall' cychwynnol o 68 o ymatebion i asesu teimladau cyffredinol ymatebwyr mewn perthynas â'r cynigion, yn ogystal â'r themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg ac yn codi dro ar ôl tro.

2.11 Cafodd y themâu eu grwpio a'u 'canghennu' ar gyfer pob cwestiwn unigol, gan ddefnyddio meddalwedd mapio meddwl rhithiol[4] i gyfuno ymatebion. Roedd delweddu ymatebion fel hyn yn helpu i gynhyrchu 'llun' o deimladau (e.e.: tynnu sylw at yr ystod o bryderon neu esboniadau a godwyd mewn ymateb i gynnig, yn wahanol i'r sylwadau a allai ddangos cefnogaeth).

2.12 Yna, cynhaliwyd dadansoddiad llawn (o'r ymatebion a oedd yn weddill), a oedd yn darparu arlliw ychwanegol i'r sampl, ac a oedd yn cynhyrchu mwy o dystiolaeth i naill ai gadarnhau neu herio'r teimlad cychwynnol a arsylwyd.

2.13 Ar y cam hwn, ystyriwyd yr ymatebion hefyd ar y cyd â'u grwpiau rhanddeiliaid (e.e.: pa fath o brofiad mae'r unigolyn hwn yn siarad ohono?), a oedd yn helpu i greu gwell asesiad o sut mae gwahanol sectorau'n ystyried y cynigion.

2.14 Wrth ymateb i gwestiwn 24[5] ym Mhennod 5, mae'n werth nodi bod rhai ymatebwyr wedi cyfeirio at gynigion penodol mewn penodau eraill (naill ai o blaid y cynigion eraill hyn neu yn eu herbyn). Er mwyn osgoi camliwio'r adborth hwn, fodd bynnag (h.y. drwy ei gyfuno â'r ymatebion i'r cwestiwn/cwestiynau perthnasol mewn penodau eraill y cyfeirir atynt), mae'r adborth hwn ar gynigion mewn penodau eraill wedi'i gynnwys (mewn is-adran ar wahân) yn y crynodeb o ymatebion i gwestiwn 24.

---

[4] Miro – meddalwedd cydweithio rhithwir

[5] I ba raddau ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion a amlinellir uchod yn cefnogi'r gwaith o weithredu a gorfodi'r diwygiadau arfaethedig?

## 3. Canfyddiadau – Dadansoddiad Llawn o'r Ymatebion

### Pennod 1

**Cwestiwn 1 - Ydych chi'n cytuno y bydd y cynigion hyn yn arwain at fwy o atal a lliniaru digartrefedd?**

3.1 Fel y dangosir yn Nhabl 2.1, roedd y teimlad tuag at y cynigion a'r tebygolrwydd y byddai'r cynigion i gynyddu atal a lliniaru digartrefedd yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (64) yn mynegi eu cefnogaeth.

**Tabl 2.1: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gwestiwn 1**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Ydw | 64 |
| Na | 24 |
| Amhendant | 13 |
| Cyfanswm | 101 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.2 Yn y dadansoddiad o deimladau yn ôl math o sefydliad, roedd 8 awdurdod lleol yn cytuno â'r cwestiwn, 4 yn anghytuno y byddai'r cynigion yn cynyddu atal a lliniaru digartrefedd, a 4 yn ansicr. Roedd sefydliadau'r trydydd sector yn cytuno'n unfrydol â'r cwestiwn, ac roedd y sefydliadau hynny a oedd yn cynrychioli buddiannau plant a phobl ifanc yn benodol yn cael eu rhannu rhwng y rheini a oedd yn cytuno a'r rheini a oedd yn ansicr. Roedd y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r cwestiwn ac roedd ymatebion gan y sector cyhoeddus ehangach, gan gynnwys y sector iechyd, yn rhanedig, gyda 5 yn cytuno, 4 yn anghytuno a 3 yn aneglur. Roedd yr unigolion a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi'u rhannu rhwng y rheini a oedd yn cytuno a'r rheini a oedd yn anghytuno.

3.3 Gan fod cwestiwn 2 yn gofyn yn uniongyrchol am y rhesymau dros ateb yr ymatebwyr i gwestiwn 1, ystyriwyd yr holl ymatebion ansoddol fel rhan o'r dadansoddiad o gwestiwn 2.

**Cwestiwn 2 – Beth yw eich rhesymau dros hyn?**

3.4 Roedd y themâu a ddaeth i’r amlwg o’r ymatebion i gwestiwn 2 yn cynnwys rôl cynlluniau tai personol, y cyfnod statudol hirach arfaethedig, pwysigrwydd ffactorau allanol, a’r angen i ddarparu adnoddau digonol ar gyfer y polisi.

*Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.5 Roedd yr ymatebion a oedd yn cytuno â’r cynigion yn canolbwyntio’n benodol ar y cyfnod statudol hirach a’r gofyniad i gwblhau Cynlluniau Tai Personol. Soniodd dros ddwsin o ymatebwyr yn benodol am yr effaith (gadarnhaol) y byddai newid y cyfnod statudol o 56 diwrnod i 6 mis yn ei chael ar gynyddu  atal digartrefedd. Roeddent yn awgrymu y byddai’r cyfnod hwy yn rhoi mwy o amser i awdurdodau lleol weithio gyda chleientiaid a’u galluogi i asesu anghenion tai yn fwy effeithiol a chefnogi cleientiaid i ddod o hyd i opsiynau tai eraill. Awgrymodd un ymatebydd ei bod yn cymryd llawer mwy o amser yn yr hinsawdd bresennol nag yn y gorffennol i ddod o hyd i dai eraill yn y sector tai preifat neu dai cymdeithasol, gan ddweud y byddai’r cyfnod estynedig hwn yn rhoi’r amser sydd ei angen ar awdurdodau lleol i roi cymorth priodol i gleientiaid.

3.6 Roedd eraill a oedd yn cytuno yn cefnogi cysoni llinellau amser â chyfnod rhybudd y contract meddiannaeth preifat o 6 mis. Yn olaf, awgrymodd ymatebwyr y byddai’r cyfnod hirach yn caniatáu dull mwy cyfunol ac ystyrlon o ymdrin â Chynlluniau Tai Personol, a chymorth.

3.7 Y cynigion ynghylch Cynlluniau Tai Personol oedd yr ail reswm mwyaf penodol dros gytuno y bydd y cynigion yn arwain at fwy o atal a lliniaru digartrefedd. Y rhesymau a nodwyd oedd gwell siawns o gael cymorth yn llwyddiannus, mwy o gysondeb ar draws awdurdodau lleol, a’r bwriad i gyflwyno hawl ychwanegol i ofyn am adolygiad. Mae’r pwynt cyntaf yn ymwneud â’r cyfle cynyddol i atal digartrefedd yn llwyddiannus drwy broses o gyd-gynllunio cymorth drwy’r Cynlluniau Tai Personol, rhoi gwir ran i gleientiaid yn eu cefnogaeth a’i gwneud yn fwy tebygol y byddant yn cynnal tenantiaethau, neu’n cymryd camau i ddod o hyd i lety addas. Teimlai ymatebydd arall fod cyflwyno rhywfaint o ddewis i ddyrannu tai yn golygu bod tenantiaethau yn y dyfodol yn fwy tebygol o lwyddo, er enghraifft, yn achos ffoaduriaid sydd newydd gael caniatâd a fyddai’n well ganddynt fyw’n agos at eu

cymunedau a’u mannau addoli. Pwynt olaf ar effeithiolrwydd dull gweithredu’r Cynllun Tai Personol newydd oedd y byddai’n sicrhau bod pobl yn cael y cyngor priodol ac y byddai’n dangos tystiolaeth o’r broses hon ochr yn ochr â’r camau rhesymol y gofynnir iddynt eu cymryd eu hunain yn hytrach na dibynnu’n llwyr ar yr awdurdod lleol.

3.8 Yn ogystal â’r uchod, soniwyd y byddai dyletswydd ar awdurdodau lleol i greu Cynlluniau Tai Personol yn darparu mwy o gysondeb rhwng awdurdodau lleol wrth fabwysiadu dull gweithredu sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac asesiad cyfannol o anghenion yr unigolyn, a fyddai hefyd yn cefnogi’r unigolyn i gael mynediad at wasanaethau eraill. Gyda’r awydd am gysondeb mewn golwg, cafwyd ceisiadau am eglurder ar nifer o bwyntiau, a’r awydd i Lywodraeth Cymru gynhyrchu templedi a chanllawiau arfer gorau i gefnogi awdurdodau lleol. Yn olaf, cyfeiriwyd at y broses adolygu fel arfer da, gydag awgrymiadau y byddai’n gwella cyfathrebu a pherfformiad adrannau tai, ac y byddai’n meithrin ymddiriedaeth rhwng awdurdodau lleol a phobl ag anghenion lluosog neu gymhleth. Mae’n werth nodi bod sawl cynigydd y Cynllun Tai Personol yn awgrymu y byddai angen cynnydd cyfatebol yn yr adnoddau ar gyfer awdurdodau lleol. Mae’r rhesymau eraill a roddodd ymatebwyr dros eu hateb i gwestiwn 1 yn cynnwys y cymorth ychwanegol a ddarparwyd i ymgeiswyr a bod y dull gweithredu arfaethedig yn fwy cydlynol a rhagweithiol. Mewn perthynas â chymorth ychwanegol, soniwyd yn benodol am gymorth iaith, gyda’r ymatebwyr yn pwysleisio’r angen i gyfathrebu fod yn hygyrch ac wedi’i deilwra i anghenion unigol, gan adrodd bod cyfathrebu ysgrifenedig ag ymgeiswyr yn aml mewn iaith gyfreithiol, sy’n gallu bod yn anodd i ymgeiswyr ei ddeall. Ar ben hyn, awgrymwyd y dylid darparu cymorth ychwanegol ar ffurf gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd priodol, er mwyn hwyluso hygyrchedd. Ar ben hynny, roedd ymatebwyr o blaid y cymorth ychwanegol a gynigir ar gyfer grwpiau arbennig o agored i niwed, gan gynnwys pobl ifanc yn gyffredinol, pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, a’r rheini sydd mewn cysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys carcharorion. Roedd ymatebwyr a soniodd am bobl ifanc yn gyffredinol yn teimlo y byddai’r cynigion yn cefnogi pobl ifanc i aros yn eu cymunedau eu hunain. Fodd bynnag, awgrymodd un ymatebydd fod angen gwneud mwy i gefnogi pobl ifanc

sydd â phrofiad o ofal ac y dylid cryfhau rhannau o'r Papur Gwyn drwy ofynion penodol sy'n ymwneud â'r Siarter Rhianta Corfforaethol.

3.9 Awgrymodd rhai y byddai'r cynigion yn darparu amrywiaeth o fanteision hanfodol i'r rheini sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Awgrymodd y rhai a oedd o blaid mai dull gweithredu system gyfan ac aml-asiantaeth fyddai'r dull mwyaf effeithiol, gan ganmol y Papur Gwyn am symud tuag at y dull hwn. Gwnaed nifer o gynigion ychwanegol, gan gynnwys addasu'r paneli adsefydlu a ddefnyddir yn y system cyfiawnder ieuenctid, a sicrhau bod y meini prawf cymorth yn glir ac yn cael eu cyfleu gan awdurdodau lleol. Roedd cyn-filwyr yn grŵp ychwanegol a awgrymwyd i'w cynnwys yn y cynigion oherwydd yr "anfanteision unigryw" maen nhw'n eu hwynebu o ran sicrhau a chynnal llety. Ar gyfer pob grŵp, awgrymodd un ymatebydd fod 12 mis ychwanegol o gefnogaeth ar ôl cael llety yn gynnig cadarnhaol; fodd bynnag, roeddent yn nodi diffyg eglurder yn y cynnig ynghylch a fyddai hyn yn ystyried barn y defnyddiwr gwasanaeth.

*Sylwadau sy'n cytuno mewn egwyddor ond gyda chafeatau*

3.10 Er bod cytundeb cyffredinol y byddai'r cynigion yn y Papur Gwyn yn arwain at fwy o atal a lliniaru digartrefedd, roedd nifer o ymatebwyr wedi cynnwys nifer o gafeatau i'w cytundeb:

- y ffactorau allanol a'r cyd-destun y mae'r sector digartrefedd yn gweithredu ynddo
- yr angen am arweiniad a hyfforddiant
- effaith y cynigion ar adnoddau
- a oedd modd eu cyflawni'n llawn, ac
- a oeddent yn wirioneddol yn cynrychioli ymagwedd ataliol

3.11 Y prif ffactor allanol a nodwyd fel her i gyflawni'r cynigion oedd argaeledd tai fforddiadwy yn y sectorau tai cymdeithasol a rhentu preifat a'r llu o faterion sy'n cyfrannu at hyn; fel cyfraddau morgais cynyddol, rhenti cynyddol, cyfraddau adeiladu tai annigonol ac effeithiau gweddilliol polisïau tai cymdeithasol hanesyddol. Yn gysylltiedig â hyn roedd y lwfans tai lleol wedi'i rewi a'r rôl sydd gan hyn o ran cyfyngu ar opsiynau tai yn y cyd-destun presennol. Er y teimlwyd y byddai cynnig y Papur Gwyn ar gyfer gofyniad statudol am gofrestr dai gyffredin, a'r berthynas â

pholisïau eraill fel Safon Ansawdd Tai Cymru (2023) a'r Papur Gwyrdd ar Sicrhau Llwybr tuag at Dai Digonol – gan gynnwys Rhenti Teg a Fforddiadwyedd (2023) yn lliniaru'r materion hyn, teimlai ymatebwyr y byddai'r Papur Gwyn yn anodd ei weithredu'n effeithiol heb fynd i'r afael â'r ffactorau allanol hyn. Daeth dichonoldeb y cynigion ei hun yn thema gyffredin gydag awgrymiadau y byddai'n fwy cyraeddadwy, er enghraifft, ar sail 10-15 mlynedd yn hytrach nag yn y blynyddoedd nesaf (h.y. dylid gweithio tuag at y cynigion yn y tymor canolig-hir, ond ystyrir ei fod yn uchelgais afrealistig yn y tymor byr). Awgrymodd un neu ddau o ymatebwyr fod perygl i'r Papur Gwyn arwain at swyddogion tai 'yn methu' am y rheswm hwn.

3.12 Yr ail brif reswm pam roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen rhoi cafeat gyda'u cymeradwyaeth oedd pryder ynghylch yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau. Roedd yr ymatebwyr yn credu'n gryf y byddai'r cynigion yn galw am gynnydd mewn adnoddau. Tynnodd yr ymatebwyr hyn sylw at yr angen am gyllid ychwanegol ar gyfer staff yn benodol oherwydd y risg o lethu staff, y pwysau y maent yn ei wynebu, a faint o amser y mae angen ei dreulio ar bob achos, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â Chynlluniau Tai Personol. Roedd ymatebion ysgrifenedig ac ymgysylltu wyneb yn wyneb â thimau tai awdurdodau lleol (gan dîm Llywodraeth Cymru) yn awgrymu bod llwyth achosion ymysg materion tai eisoes yn sylweddol uwch nag y dylent fod, gydag un awdurdod lleol yn adrodd am lwyth achosion cyfartalog o 120 achos fesul swyddog yn y tîm Opsiynau Tai. Awgrymodd ymatebydd arall fod y cynnig i ymestyn y cyfnod statudol o 56 diwrnod i 6 mis yn debygol o gynyddu nifer yr achosion ymhellach.

3.13 Yn ogystal â Thimau Opsiynau Tai awdurdodau lleol, nodwyd bod diffyg adnoddau yn y trydydd sector a'r sector addysg yn effeithio ar effeithiolrwydd tebygol y cynigion. Awgrymodd un ymatebydd, er gwaethaf buddsoddiad sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf, nad yw Llywodraeth Cymru wedi darparu digon o gyllid i gefnogi gwasanaethau, gyda'r "*methiant i gynyddu'r Grant Cymorth Tai*" yn brawf o'r rhwystredigaethau a welwyd ar y pryd ymysg ymgyngoreion mewn ymateb i'r gyllideb ddrafft. Fodd bynnag, mae cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-2025 wedi cael ei chyhoeddi ers y cyfnod ymgynghori byw ac mae wedi

dyrannu cynnydd ar gyfer y Grant Cymorth Tai[6]. Nodwyd hefyd bod gwasanaethau addysg yn elfen hanfodol o atal drwy ymyrryd yn gynnar. Dywedodd ymatebwyr fod toriadau i wasanaethau addysg yn lleihau adnoddau ar gyfer rhaglenni cymorth i bobl ifanc a phlant, a bod ganddynt oblygiadau i lwyddiant y cynigion.

3.14 Mae hyn yn gysylltiedig â phryder gan gwpl o ymatebwyr nad yw'r cynigion yn cynrychioli dull gwirioneddol ataliol gan mai'r nod o atal yw atal pobl rhag bod mewn argyfwng, yn hytrach nag ymestyn y cymorth sydd ar gael iddynt pan fyddant mewn argyfwng. Fel y nodwyd gan awdurdod lleol, pan fydd rhywun yn cyflwyno'i hun i wasanaeth cymorth fel rhywun sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, mae'n anodd iawn cynnal y denantiaeth neu, mewn rhai achosion, sicrhau eu bod yn gallu dychwelyd yn ddiogel i gartref y teulu. Roedd yr ymatebwyr hyn yn ceisio dull ehangach o gefnogi unigolion sy'n cael trafferth ymdopi â "*siociau economaidd-gymdeithasol anrhagweladwy*" ac yn cynnig newid system gyfan yn hytrach na chanolbwyntio'n benodol ar wasanaethau cymorth digartrefedd. Byddai hyn yn cynnwys cefnogaeth sylweddol wedi'i thargedu at bobl ifanc ac addysgu teuluoedd.

3.15 Yn olaf, roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynigion mewn egwyddor yn cynnwys y cafeatau y byddai angen i'r cynigion gael eu hategu gan ganllawiau a hyfforddiant penodol i hwyluso'r broses o'u rhoi ar waith. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar drawma o ymgysylltu ag ymgeiswyr, ar faterion fel niwroamrywiaeth ac iechyd meddwl, a darparu canllawiau clir ar sut dylai staff awdurdodau lleol ddefnyddio'r cymal "*digyswllt cyson*" yn y prawf methiant afresymol i gydweithredu. Tynnwyd sylw'n benodol at hyn oherwydd lefel y cymorth sydd ei angen ar rai pobl sy'n ddigartref er mwyn cadw mewn cysylltiad â'r awdurdod lleol oherwydd nad oes ganddynt gyfeiriad sefydlog na mynediad at ffôn symudol, neu oherwydd bod ganddynt heriau cyfathrebu.

*Sylwadau a oedd yn anghytuno*

3.16 Roedd yr ymatebion a oedd yn anghytuno y byddai'r cynigion yn arwain at gynnydd mewn atal a lliniaru digartrefedd yn canolbwyntio'n benodol ar;

- y cynigion sy'n ymwneud â'r Cynlluniau Tai Personol

---

[6] [Cyllideb Derfynol 2024 i 2025 - LLYW.CYMRU]

- eu dichonoldeb oherwydd ffactorau allanol a’r adnoddau sydd ar gael
- yr angen am gymorth ychwanegol y tu hwnt i’r hyn a gynhwyswyd yn y cynigion.

3.17 Roedd pryderon ymatebwyr ynghylch Cynlluniau Tai Personol yn ymwneud â nifer o agweddau fel yr hawl arfaethedig i ofyn am adolygiad, y cydbwysedd cyfrifoldeb, y gallu i gyflawni’r cynlluniau, a’u diffyg hyblygrwydd.

3.18 Roedd yr adolygiadau’n faes pryder penodol gyda’r hawl i ofyn am adolygiad yn peri pryder penodol i rai ymatebwyr a awgrymodd, er mwyn i’r hawl i ofyn am adolygiad allu gweithio, fod angen arweiniad clir ynghylch ar ba sail y gellir “sbarduno” hawl i adolygiad. Roedd pryderon y gallai ymgeisydd ofyn am adolygiad pe na bai’n hoffi cam penodol, ac felly mae angen arweiniad ynghylch pryd y byddai’n briodol gwneud cais am adolygiad. Mae hyn yn gysylltiedig â’r awgrym y dylai Cynlluniau Tai Personol hefyd ganolbwyntio ar gyflawni a dylent reoli disgwyliadau’r ymgeisydd a’r mewnbwn y gallant ddisgwyl ei gael mewn Cynlluniau Tai Personol. Dywedwyd, heb hyn, oherwydd yr argyfwng tai presennol a’r angen o ganlyniad i hynny i ddefnyddio llety anaddas, y byddai’r baich gwaith a’r pwysau ar adnoddau yn uchel. Awgrymodd un awdurdod lleol ei bod yn debygol iawn y bydd “*yn cael ei foddi gan geisiadau cosbedigol*”. Awgrymodd un ymatebydd ei bod yn “afrealistig darparu unrhyw ddewis sylweddol ar y math o lety” ac y byddai gwneud hynny’n gosod “disgwyliadau annheg ac afrealistig”.

3.19 Tynnwyd sylw hefyd at yr amserlen adolygu 8 wythnos fel maes a oedd yn debygol o gynyddu’r baich ar staff a dywedwyd “nad oedd modd ei gyflawni”. Roedd hyn, fodd bynnag, yn ychwanegol at awgrymiadau y byddai’r adolygiad 8 wythnos yn debygol o fod yn ymarfer ticio blychau ac efallai na fyddai’n angenrheidiol nac yn addas i bob ymgeisydd. Yn hytrach, awgrymodd ymatebwyr y dylid cytuno ar y cyfnod ar gyfer adolygu fel rhan o’r Cynllun Tai Personol, ac y byddai hyn yn caniatáu ar gyfer dull gweithredu sy’n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn ac sy’n addas i anghenion yr achos.

3.20 Yr ail agwedd ar y broses adolygu a amlygwyd fel pryder oedd yr hawl i ofyn am adolygiad y tu hwnt i 21 diwrnod, a’r goblygiadau a oedd gan hyn i “ddiwedd dyletswydd”. Er bod un ymatebydd yn cytuno y dylai aelwyd gael yr hawl i ofyn am

adolygiad ar unrhyw adeg tra oedd mewn llety dros dro, roeddent yn awgrymu cyfyngu ar y gallu pan oedd aelwyd mewn llety sefydlog. Roedd nifer o ymatebwyr yn poeni am y posibilrwydd y gallai aelwyd ofyn am adolygiad o'u hachos fisoedd neu flynyddoedd yn ddiweddarach, pe bai newid mewn amgylchiadau yn newid addasrwydd eu cartref. Awgrymodd ymatebydd arall y gallai cyfnod arall o 56 diwrnod fod yn fwy addas ond pwysleisiodd eto fod angen cael dyddiad terfynol ar gyfer y ddyletswydd.

3.21 Yr ail thema a nodwyd, yn enwedig gan awdurdodau lleol, oedd cydbwysedd y cyfrifoldeb rhwng yr ymgeisydd a'r awdurdod lleol. Awgrymodd yr ymatebwyr hyn fod y cynigion yn newid o gyfrifoldeb deuol i ddibynnu'n llwyr ar yr awdurdod lleol. Roeddent yn cynnig enghreifftiau ynghylch hawl yr ymgeisydd i ofyn am adolygiad pe na bai'r awdurdod yn cwblhau'r camau y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Tai Personol, ac eto nid oedd hawl ddilynol i'r awdurdod gyflawni dyletswydd pe bai'r ymgeisydd yn methu â chwblhau'r camau y cytunwyd arnynt. Un cynnig penodol y tynnwyd sylw ato fel un sy'n peri pryder oedd y methiant mwy cyfyng i gydweithredu. Awgrymodd un ymatebydd fod y cynigion yn mynd yn groes i nodau deddfwriaeth digartrefedd bresennol Cymru (Deddf Tai (Cymru) (2014)) sy'n ceisio grymuso a chefnogi unigolion i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain.

3.22 Pwysleisiwyd y ddibyniaeth gynyddol ymddangosiadol ar awdurdodau lleol, yn enwedig gan ymatebwyr a oedd yn pwysleisio cyfyngiadau'r adnoddau presennol. Roeddent yn nodi na fyddai awdurdodau lleol yn gallu gwneud y newidiadau na chynnig y gwasanaethau a gynigiwyd oherwydd toriadau mewn cyllid a phwysau cynyddol ar adnoddau awdurdodau lleol. Yn yr un modd, awgrymwyd na fyddai'r rheini sy'n cael eu hariannu gan y Grant Cymorth Tai yn gallu darparu'r cymorth hyblyg ac ymyriadau cynnar tebygol a fyddai'n deillio o'r cynigion. Er bod un ymatebydd yn croesawu'r cynigion, roedd yn glir y byddent, heb fuddsoddiadau ychwanegol, yn cael effaith gyfyngedig gan fod llawer o'r gwasanaethau y maent yn dibynnu arnynt "eisoes wedi'u llethu".

3.23 Roedd y ffactorau y tu allan i'r Papur Gwyn yn dal i gael eu crybwyll mewn ymatebion, yn enwedig y diffyg tai fforddiadwy yn y sectorau tai cymdeithasol a rhentu preifat. Tynnodd un ymatebydd sylw at awdurdod lleol sydd eisoes yn helpu

pobl 6 mis allan o ddigartrefedd, ond eto'n ei chael hi'n anodd oherwydd diffyg tai. Awgrymodd ymatebwyr nad oedd digon o newidiadau deddfwriaethol o ran llety tymor hir a bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i gefnogi awdurdodau lleol i ddarparu tai fforddiadwy digonol. Awgrymodd un ymatebydd fod Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel rhwystr i ddatblygu tai yn eu hardal oherwydd gofynion polisi sy'n gwrthdaro.

3.24 Y thema olaf gan y rhai a oedd yn anghytuno y byddai'r cynigion yn arwain at fwy o atal a lliniaru digartrefedd oedd yr awgrym nad oedd y ddeddfwriaeth yn gwneud fawr ddim i newid achosion sylfaenol digartrefedd. Roedd y rhain yn cynnwys meysydd polisi gan gynnwys datblygu economaidd, cynllunio gofodol, polisi tai, gweinyddu lles, addysg, cyflogaeth a gwasanaethau iechyd i gefnogi pobl ag anghenion cymhleth a phroblemau iechyd meddwl. Roedd awgrymiadau pellach yn cynnwys yr angen i ddelio â'r rhai a oedd yn "anodd eu hailgartrefu" oherwydd eu bod yn colli sawl llety oherwydd "eu dewisiadau ffordd o fyw".

**Cwestiwn 3 – A oes cynigion deddfwriaethol ychwanegol y dylem eu hystyried yn eich barn chi i wella'r gwaith o atal a lliniaru digartrefedd?**

3.25 Yn ogystal â'r adroddiad hwn, rhoddodd Miller Research adran dull i Lywodraeth Cymru gydag atodiadau, a oedd yn cynnwys yr holl gynigion, tystiolaeth fanwl a rannwyd gan ymatebwyr a'r holl geisiadau am eglurder yn llawn, i sicrhau na chollid awgrymiadau yn y broses ddadansoddi. Oherwydd natur y cwestiwn hwn, roedd llawer o'r ymatebion yn canolbwyntio ar gynigion sydd wedi'u cynnwys yn y cyflwyniad ar wahân. Gyda hynny mewn golwg, rydym wedi cynnwys crynodeb byr yn yr adroddiad hwn o'r themâu a godwyd yn y cynigion.

3.26 Roedd nifer o gynigion yn awgrymu deddfwriaeth ychwanegol i ddiogelu a chefnogi grwpiau penodol sy'n agored i niwed yn well, fel ffoaduriaid, aelodau o'r gymuned LHDTC+, pobl ifanc, cyn-filwyr, carcharorion, lleiafrifoedd ethnig a goroeswyr cam-drin domestig. Roedd ffocws ar orfodi'r deddfau presennol yn well, yn ogystal â chyflwyno mwy o arweiniad, hyfforddiant a chefnogaeth i wella gweithrediad y deddfau presennol. Roedd deddfwriaeth ychwanegol i reoleiddio'r sector rhentu preifat, yn ogystal â chynigion ar wella'r berthynas rhwng y sector rhentu preifat ac awdurdodau lleol, hefyd yn themâu cyffredin.

3.27 Thema gyffredin ar draws yr ymatebion a’r sectorau oedd pwyslais ar ddatblygu modelau tai amgen, gwella’r cyflenwad tai, a gwella cymorth ariannol i bobl mewn angen gan ganolbwyntio’n benodol ar y lwfans tai lleol, incwm sylfaenol cyffredinol a phecynnau cymorth tai penodol. Yn olaf, tynnwyd sylw at rôl y sector cyhoeddus ehangach gyda chynigion yn ymwneud ag addysg ac iechyd yn fwyaf amlwg, gydag argymhellion ar gyfer dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol i gefnogi’r Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd.

**Cwestiwn 4 - Ydych chi’n cytuno â’n cynnig i ddiddymu’r prawf angen blaenoriaethol?**

3.28 Fel y dangosir yn Nhabl 2.2, roedd y teimlad tuag at y cynnig i ddiddymu’r prawf angen blaenoriaethol yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda bron i ddwy ran o dair (64 o 103) o’r ymatebwyr yn mynegi eu cefnogaeth.

**Tabl 2.2: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gwestiwn 4**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Ydw | 64 |
| Na | 31 |
| Amhendant | 8 |
| Cyfanswm | 103 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o’r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.29 Roedd y dadansoddiad sector mewn perthynas â diddymu’r prawf angen blaenoriaethol yn golygu bod awdurdodau lleol wedi’u rhannu, gyda 7 o blaid a 7 yn erbyn diddymu’r prawf. Roedd y rhan fwyaf o’r trydydd sector yn cefnogi diddymu’r prawf, ac RSLs hefyd. Roedd y sector cyhoeddus ehangach, gan gynnwys gwasanaethau iechyd, hefyd yn cefnogi dileu’r prawf, tra bod sefydliadau a oedd yn cynrychioli pobl ifanc a phlant yn rhanedig. Yn olaf, roedd yr unigolion a ymatebodd i’r ymgynghoriad yn rhanedig ynghylch a ddylid diddymu’r prawf angen blaenoriaethol ai peidio.

3.30 Roedd y themâu a ddaeth i’r amlwg drwy ddadansoddi’r ymatebion i’r ymgynghoriad yn ymwneud â’r canlynol:

- grwpiau agored i niwed
- pwysigrwydd dull gweithredu cyson ledled Cymru
- yr angen am amserlen briodol ar gyfer gweithredu'r polisïau.

*Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.31 Roedd y rhai a oedd o blaid y polisi yn nodi cysondeb a chynhwysiant fel y prif resymau dros ddiddymu'r prawf angen blaenoriaethol. Roeddent yn awgrymu mai anaml iawn y defnyddir y prawf angen blaenoriaethol yn dilyn pandemig Covid-19, ac mai awdurdodau lleol sy'n ei ddehongli yn ôl eu disgresiwn eu hunain. Tynnodd ymatebydd sylw hefyd at y ffaith bod Adolygiad Llywodraeth Cymru o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru yn 2019 yn dangos bod y prawf yn cael ei ddefnyddio'n anghyson ledled Cymru. Pwysleisiodd ymatebwyr eraill y rôl sydd gan y prawf angen blaenoriaethol o ran eithrio pobl rhag cael cymorth, a dywedodd ei fod yn cael ei ddefnyddio i "reoli cymorth". Awgrymodd ymatebwyr fod hyn yn achosi diffyg ymddiriedaeth mewn gwasanaethau digartrefedd, ac anobaith i'r rheini sy'n ddigartref heb unrhyw atebion posibl, yn ogystal â bod y profiad o fod yn "agored i niwed" yn un sy'n peri trawma. Ar ben hynny, roedd tystiolaeth yn cael ei darparu a oedd yn awgrymu bod y prawf yn rhoi grwpiau agored i niwed penodol mewn perygl, fel goroeswyr trais yn erbyn menywod a genethod, a phobl ifanc.[7] Roedd y dystiolaeth yn nodi nad yw VAWG yn cael ei ystyried na'i ddeall yn briodol wrth asesu angen blaenoriaethol (yn enwedig mewn achosion o drais rhywiol a chamfanteisio). Ar y llaw arall, roedd tystiolaeth a ddarparwyd gan sefydliadau plant yn awgrymu bod y system angen blaenoriaethol yn gallu creu cymhelliant gwrthnysig i 'chwarae' y system fel rhan o'r ymdrechion i'w hystyried yn 'angen blaenoriaethol'.

3.32 Yn olaf, awgrymodd ymatebwyr, gyda llai o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer profion, y gallai staff roi mwy o gefnogaeth.

3.33 Roedd nifer o'r ymatebwyr o blaid dileu'r prawf angen blaenoriaethol, ond roeddent yn cynnwys cafeatau ynghylch yr amser arweiniol angenrheidiol, adnoddau, hyfforddiant ac arweiniad, a rhoi ystyriaeth bellach i grwpiau penodol. Roedd y

[7] Os bwriedir cyhoeddi'r atodiad, gallem gynnwys troednodiadau lle cyfeirir ato sy'n cyfeirio'r darllenydd tuag at Atodiad A

rheini a oedd yn canolbwyntio ar yr angen am linell amser briodol yn cymharu â’r Alban lle’r oedd y newid hwn yn cynnwys cyfnod paratoi hir, gydag un ymatebydd yn awgrymu bod angen o leiaf 5 mlynedd. Roeddent hefyd yn tynnu sylw at y pwysau presennol o ran adnoddau a “galw digyffelyb” fel rheswm i ohirio unrhyw newidiadau, yn ogystal â’r angen am fwy o gymorth ariannol ac adnoddau i roi’r newid ar waith. Awgrymwyd gwell hyfforddiant ac arweiniad, yn enwedig canllawiau “i ganfod pwy fydd yn cael cynnig llety gyntaf pan fydd dau ymgeisydd yn gymwys gyda lefelau tebyg o angen”. Ar ben hynny, teimlwyd y gallai fod angen hyfforddiant a chymorth ychwanegol ar wasanaethau iechyd oherwydd y rôl sydd gan y prawf angen blaenoriaethol yn y trefniadau cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion cymhleth. Nodwyd bod materion penodol sy'n ymwneud â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn bryder, a bod angen darparu mwy o gefnogaeth i'r garfan hon, yn ogystal â monitro effeithiau'r newid ar grwpiau agored i niwed yn gyffredinol.

*Sylwadau a oedd yn anghytuno*

3.34 Pwysleisiodd y rhai a oedd yn gwrthwynebu diddymu’r prawf angen blaenoriaethol:

- yr angen i flaenoriaethu rhai grwpiau
- gwrthdaro posibl â pholisïau eraill
- pwysau presennol, ac a allai fod yn y dyfodol, ar awdurdodau lleol
- yr angen am amserlen briodol

3.35 Yr ymadrodd sy’n ymgorffori’r gwrthwynebiad i’r cynnig hwn a ddefnyddir gan un ymatebydd yw “*os yw pawb yn flaenoriaeth, nid oes neb yn flaenoriaeth*”, a theimlai’r ymatebydd y byddai’n arwain at gynnydd yn yr amser a dreulir mewn llety dros dro. Defnyddiwyd sawl amrywiad o’r ymadrodd hwn ar draws yr ymgynghoriad mewn perthynas ag angen blaenoriaethol. Awgrymodd ymatebydd arall fod angen i awdurdodau lleol allu adnabod, diogelu a chefnogi’r unigolion a’r aelwydydd mwyaf agored i niwed a gallai dileu’r prawf arwain at golli’r gallu hwn, yn enwedig oherwydd maint y galw. Roedd un awdurdod lleol yn derbyn bod cynnwys “digartrefedd ar y stryd” yn ehangu grwpiau angen blaenoriaethol i’r graddau eu bod yn gweithredu ar sail “niwtral o ran blaenoriaeth”; fodd bynnag, roeddent yn awgrymu bod cadw’r prawf yn caniatáu ar gyfer cymhwyso adnoddau’n benodol i’r rhai sydd fwyaf mewn angen.

3.36 Pwysleisiwyd y pryder ynghylch y diffyg blaenoriaethu adnoddau mewn perthynas â nifer o grwpiau, gan gynnwys cyn-filwyr, teuluoedd a phlant, pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, pobl ifanc yn gyffredinol, pobl ifanc LHDTC+, pobl ifanc niwrowahanol, goroeswyr cam-drin domestig a throseddwyr. Nodwyd y cyd-destun economaidd-gymdeithasol sy'n gefndir i'r ymgynghoriad, yr argyfwng tai a'r argyfwng costau byw, fel rhesymau pam roedd ymatebwyr a fyddai'n cefnogi diddymu'r prawf angen blaenoriaethol yn mynegi'r pryderon hyn. Pryder cysylltiedig i gwpl o ymatebwyr oedd ei fod yn gwrthdaro â chynigion eraill, sef y cynnig i roi hawliau ychwanegol i "un categori o unigolion i oresgyn meini prawf cysylltiad lleol". Cododd un arall y mater y cynigiwyd mewn man arall yn y Papur Gwyn bod grwpiau penodol, fel rhai sy'n gadael gofal, yn cael statws angen blaenoriaethol.

3.37 Roedd diffyg llety addas, a diffyg adnoddau o fewn awdurdodau lleol i ateb y galw presennol, yn rhesymau cyffredin dros wrthwynebu diddymu'r prawf angen blaenoriaethol. Cyfeiriodd un ymatebydd at yr enghraifft o ddileu'r prawf yn yr Alban, gan ddweud bod hyn wedi sbarduno 'treblu'r galw am lety dros dro'. Cyfeiriodd eraill at yr enghraifft hon er mwyn pwysleisio bod yr Alban wedi cynnwys llinell amser 10 mlynedd i gyd-fynd â newidiadau, gan fyfyrio ar y pwysau presennol ar y system yng Nghymru.

3.38 Yn yr un modd, mynegodd un arall y profiad o gynnwys digartrefedd ar y stryd fel grŵp angen blaenoriaethol a arweiniodd at gynnydd mewn ceisiadau o 37.5 %. Is-thema gysylltiedig arall yw'r canfyddiad bod y Papur Gwyn, yn enwedig y cynnig hwn, yn cynyddu'r ddibyniaeth ar awdurdodau lleol ac na fydd unigolion na chymunedau "*yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb dros geisio dod o hyd i ateb eu hunain*."

3.39 Gan ddangos natur amrywiol yr ymatebion, roedd y rheini a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn adleisio teimladau'r rheini a oedd yn ei gefnogi, o ran yr angen am amserlen briodol. Awgrymodd un ymatebydd y byddai deddfu'r "sefyllfa bresennol" yn gam cyntaf defnyddiol tuag at fonitro effaith hyn.

3.40 At ei gilydd, er bod yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig yn gyffredinol oherwydd ei allu i leihau allgáu a gwella cysondeb, roedd pryderon ynghylch yr adnoddau oedd ar

gael (i awdurdodau lleol yn benodol) i'w weithredu, a'r angen am amserlen glir a hir ar gyfer ei weithredu.

**Cwestiwn 5 - Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu'r prawf bwriad?**

3.41 Cafwyd 102 o ymatebion i gwestiwn 5, a gyflwynir isod:

**Tabl 2.3 Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gwestiwn 5**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Ydw | 62 |
| Na | 35 |
| Amhendant | 5 |
| Cyfanswm | 102 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o ymgynghoriad Miller Research

3.42 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (62) yn cytuno â'r cynnig i ddiddymu'r prawf bwriad. Roedd pob ymatebydd awdurdod lleol heblaw un (lle'r oedd yr ymateb yn amhendant) yn anghytuno â'r cynnig. Roedd y rhan fwyaf o RSLs a phob ymatebydd o'r trydydd sector (nad oedd eu hymateb i'r cwestiwn hwn yn glir) yn cytuno â'r cynnig hwn.

*Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.43 Roedd saith o ymatebion yn defnyddio ystyriaethau diogelu i gefnogi eu hatebion, gan roi manylion effeithiau posibl y prawf bwriad ar fenywod a phlant.

> 'Ni ddylai unrhyw blentyn neu berson ifanc fod yn ddigartref hyd yn oed os canfyddir bod ei riant neu ofalwr wedi gwneud hynny'n 'fwriadol'

(Comisiynydd Plant Cymru)

3.44 Gwelwyd bod hyn hefyd yn berthnasol i oedolion ifanc sy'n ddigartref, a all wynebu gwahaniaethu lle nad yw eu trefniadau tai'n cael eu trin mor ddifrifol ag y byddai aelwyd deuluol yn cael ei thrin fel arfer. Mae hyn yn berthnasol, er enghraifft, i oedolion ifanc sy'n gadael eiddo a rennir oherwydd bod perthynas nad yw'n un ramantus wedi chwalu, a mathau eraill o gam-drin/gelyniaeth a gyflawnir gan aelodau eraill o aelwyd a rennir.

3.45 Disgrifiodd ymatebwyr hefyd enghreifftiau o gamddefnyddio bwriad, yn enwedig yn achos goroeswyr cam-drin domestig. Yn yr achosion hyn, roedd bwriad yn gysylltiedig â chanfyddiadau anghywir o amgylchiadau unigol, a methiant i ddeall trawma. I rai, mae'r prawf bwriad felly'n gysylltiedig â chamddehongli ac anghysondeb.

3.46 Nodwyd bod anghysondeb y cymhwyso, yn ôl disgresiwn awdurdodau lleol, hefyd yn broblem cydraddoldeb, gan fod gwahaniaethau yn y ffordd y cymhwysir y prawf yn creu 'cyfle anghyfartal i deuluoedd ledled Cymru'.

3.47 Awgrymodd pedwar ymateb y byddai diddymu'r prawf yn adlewyrchu barn fwy cyfannol am ddigartrefedd, sy'n cydnabod cymhlethdod ffactorau sy'n cyfrannu sy'n effeithio ar amgylchiadau unigolyn. Cyfeiriodd ymatebwyr at enghreifftiau o amgylchiadau sy'n anoddach eu profi ac y gellid eu hystyried yn fwriadol i'r rhai heb wybodaeth. Mewn achosion o'r fath, mae'r prawf yn mynd yn groes i ddull gweithredu sy'n ystyriol o drawma.

3.48 Mae sylwadau eraill sy'n cefnogi dileu'r prawf yn awgrymu y byddai'r penderfyniad yn 'symudiad sy'n arwain yn y DU', gan ddangos enw da Llywodraeth Cymru fel arweinwyr ym maes atal digartrefedd. Roedd un arall yn cydnabod y byddai'n dileu'r posibilrwydd o gamddefnyddio ar ffurf ataliaeth, gan liniaru'r risg y byddai ymgeiswyr yn peidio â chymryd camau (e.e. symud eu hunain o aelwyd gamdriniol) oherwydd eu bod yn ofni cael eu hystyried yn fwriadol ddigartref.

*Sylwadau a oedd yn anghytuno/ sylwadau amhendant*

3.49 Roedd 4 prif thema ar draws yr ymatebion nad oeddent yn datgan cytundeb pendant â'r cynnig i ddiddymu'r prawf bwriad, gan gynnwys:

- canfyddiad ei fod yn ddull anghynaladwy
- goblygiadau ar gyfer tai cymdeithasol
- yr angen am gyfrifoldeb personol
- yr angen i gymell ymddygiad da

3.50 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno/rhannu sylwadau amhendant yn rhanddeiliaid awdurdodau lleol.

3.51 Roedd yr ymatebion a oedd yn ystyried bod dileu'r prawf yn ddull anghynaladwy yn gysylltiedig â'r risg anfwriadol bosibl o gefnogi 'cylchoedd o ddigartrefedd'. Priodolwyd hyn i ddibyniaeth bellach ar awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus i gefnogi achosion bwriadol ac anfwriadol fel ei gilydd, yng nghanol prinder cyllid ac adnoddau. Roedd eraill yn poeni y gallai hyn gyfrannu at gynnydd difrifol mewn ôl-ddyledion rhent, gan arwain at fwy o ddyledion i adrannau tai ledled Cymru. Mewn senarios gwaethaf, tynnodd sylwadau sylw at y ffaith y gallai hyn greu mwy o alw ar y sector tai cymdeithasol, yn ogystal ag effeithio ar allu adrannau tai i barhau i fenthyca a chyrraedd targedau ar gyfer tai cymdeithasol newydd.

3.52 Roedd sylwadau ar dai cymdeithasol yn fwy cyffredinol yn poeni am y diwygiad yn cael ei gamddefnyddio, gan alluogi pobl i 'neidio dros eraill' ar restrau aros. Dangosodd Cyngor Caerdydd y pryder hwn yn ei ymateb:

> 'Mae Caerdydd wedi gweld achosion yn ddiweddar lle mae unigolion wedi cadw eu rhent yn ôl yn fwriadol, er bod ganddynt y modd i dalu, er mwyn iddynt allu cal mynediad at wasanaethau digartrefedd. Mewn llawer o achosion, mae hyn er mwyn sicrhau tai cymdeithasol yn hytrach nag aros yn y sector rhentu preifat. Mae peidio â gwneud penderfyniadau ynghylch bwriad yn cyfleu'r neges anghywir i'r rheini sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref ac yn annog ymddygiad gwael mewn lleiafrif o'r ymgeiswyr digartref'.

3.53 Er eu bod yn lleiafrif cydnabyddedig, cyfeiriodd ymatebwyr at ffenomen gynyddol yng nghyd-destun yr argyfwng economaidd presennol a'r argyfwng tai, lle mae aelwydydd mewn llety rhent preifat wedi dod â thenantiaethau i ben neu wedi'u peryglu er mwyn ymuno â rhestrau aros tai cymdeithasol. Heb gamau lliniaru'r prawf bwriad, y gwelir ei fod yn dal unigolion yn atebol i ymrwymiadau ariannol, cyfeiriodd un ymatebydd at risg y byddai diddymu'r prawf yn dod yn 'wybodaeth gyffredin' ac felly'n creu mwy o broblemau nag y bwriedir eu datrys.

3.54 Roedd sylwadau eraill yn ategu themâu cyfrifoldeb personol ac atebolrwydd dros unigolion a'u gweithredoedd. Ystyriwyd cydbwyso hawliau a chyfrifoldebau fel rhan o'r broses o sicrhau bod y rheini sy'n gallu cymryd rheolaeth dros eu dewisiadau bywyd yn gwneud hynny, ond eu bod yn cael eu cefnogi'n briodol yn ystod digwyddiadau sydd y tu hwnt i reolaeth bersonol. Er bod yr ymatebion hyn yn

cydnabod pwysigrwydd deall gwahanol wendidau, cyfeiriwyd at niferoedd cymhwyso isel gwirioneddol y prawf fel tystiolaeth ei fod yn cael ei ddefnyddio'n rhesymol ac yn gymesur. Ar ben hynny, disgrifiwyd y prawf bwriad hefyd fel 'adnodd pwysig' ar gyfer egluro disgwyliadau ac opsiynau i'r rheini sy'n cael eu cefnogi gan awdurdodau lleol a'u sefydliadau partner.

3.55 Yn yr un modd, roedd rhai ymatebion yn fframio'r prawf bwriad fel adnodd ataliol, a all fynd i'r afael ag ymddygiad 'byrbwyll' neu 'ddialgar' ac annog unigolion i weithio gydag asiantaethau cymorth i ddod o hyd i atebion cynaliadwy.

3.56 I raddau llai, roedd materion digartrefedd bwriadol a chyfrifoldeb personol hefyd yn gysylltiedig â mater ehangach cyfiawnder, a oedd yn arbennig o amlwg mewn un ymateb. Roedd yr ymateb hwn yn awgrymu y gellid dyfarnu'r un lefel o angen blaenoriaethol i rai sy'n cyflawni trais â goroeswyr cam-drin a dioddefwyr troseddau o ganlyniad i'r cynnig, a fyddai'n cael ei waethygu ymhellach pe bai angen blaenoriaethol yn cael ei ddileu:

> 'A ddylem dderbyn dyletswydd i gynorthwyo cyflawnwyr trais domestig a rhoi yr un flaenoriaeth ailgartrefu iddyn nhw ag i'r dioddefwr, yn enwedig os caiff angen blaenoriaethol ei ddileu? Mae posibilrwydd y bydd cymunedau lleol yn methu â deall hyn ac yn ei weld fel rhywbeth sy'n gwobrwyo trais.'

(Cyngor Wrecsam)

*Trin yn fwriadol*

3.57 Mynegodd pedwar ymatebydd (a oedd yn cytuno â diddymu'r prawf) bryderon tebyg mewn perthynas â'r cynnig am brawf 'trin bwriadol', fodd bynnag, gan nodi nad yw'r gwahaniaeth a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn ddigon clir. Er bod Crisis yn cydnabod bod y prawf arfaethedig yn llai cosbol na'r prawf bwriad, nid oedd ymatebwyr yn argyhoeddedig y byddai'r cynnig newydd yn mynd i'r afael â phroblemau cydnabyddedig o ran cymhwyso anghywir ac anghyson.

3.58 Roedd un sylw'n nodi pryder penodol ynghylch y pwynt lle byddai'r prawf trin bwriadol yn cael ei ddefnyddio, ar sail y ddealltwriaeth y byddai'n cael ei dynnu o ran gynharach y broses (asesiad digartrefedd) a thuag at y camau olaf (dyrannu) – a nodwyd ei fod 'yn rhy hwyr yn y broses'.

3.59 Ar y llaw arall, roedd eraill yn ystyried y prawf trin bwriadol yn dewis anaddas. Yn benodol, roedd awdurdodau lleol yn rhannu pryderon y byddai dileu'r prawf digartrefedd bwriadol yn creu 'tasg amhosibl' iddynt. Os bydd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cadw'r hawl i wrthod tai, byddai'r dasg o ddod o hyd i lety yn y sector rhentu preifat heb eirda cadarnhaol yn sylweddol, a'r tebygolrwydd yw y byddai awdurdodau lleol yn lletya pobl mewn llety dros dro am gyfnodau hir.

3.60 Hyd yn oed os mabwysiedir y prawf trin bwriadol, dywedodd un ymatebydd y dylai'r term 'bwriad' barhau i gael ei ddefnyddio, oherwydd ei werth canfyddedig fel mesur ataliol.

**Cwestiwn 6 - Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gadw'r prawf cysylltiad lleol ond ychwanegu grwpiau ychwanegol o bobl at y rhestr o eithriadau i ganiatáu ar gyfer cysylltiadau y tu allan i'r teulu â chymunedau ac i ystyried yn well y rhesymau pam nad yw rhywun yn gallu dychwelyd i'w awdurdod cartref.**

3.61 Fel y gwelir yn Nhabl 2.3, roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig i gadw'r prawf cysylltiad lleol gyda diwygiadau ychwanegol.

**Tabl 2.3: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i Gwestiwn 6**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Ydw | 61 |
| Na | 21 |
| Amhendant | 11 |
| Cyfanswm | 93 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.62 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i gadw'r prawf cysylltiad lleol ond i ychwanegu grwpiau ychwanegol o bobl at y rhestr esemptiadau. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn croesawu gwell ystyriaeth o'r amrywiaeth o resymau sy'n effeithio ar addasrwydd rhywun sy'n dychwelyd i'w awdurdod cartref. Ymysg ymatebwyr awdurdodau lleol, roedd mwyafrif bach yn gwrthwynebu'r cynnig, ac roedd pob ymatebydd RSL yn cytuno â'r cynnig. Roedd yr ymatebwyr trydydd sector wedi'u rhannu'n weddol gyfartal rhwng y rheini a oedd yn cytuno â'r cynnig a'r rheini a oedd yn anghytuno ag ef.

3.63

*Roedd y themâu a nodwyd yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys awgrymiadau amgen ar gyfer diwygiadau i'r prawf cysylltiad lleol, pryder ynghylch adnoddau, effeithiau anfwriadol a gofyn am arweiniad neu eglurder ynghylch y cynigion.*

3.64 Roedd y themâu canolog ar gyfer y rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig yn cynnwys:

- cynnal dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- cytundeb â natur gynhwysol y cynnig
- yr angen am bellter (o awdurdod 'cartref')
- cefnogi'r angen am esemptiadau ychwanegol

3.65 Roedd yr ymatebion a oedd yn teimlo bod y cynnig i gefnogi dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn rhannu'r farn bod yr angen i leoli lle bynnag mae rhywun yn teimlo ymdeimlad o ddiogelwch, diogeledd a chysylltiad yr un mor ddilys â'r angen i fod yn agos at gymunedau lleol (e.e.: ar gyfer y rheini sydd â phlant). Ni fydd cynnal cysylltiad lleol, yn ddiofyn, yn ddull priodol i bawb a gwelir bod y cynnig yn cydnabod hyn.

3.66 Roedd sylwadau hefyd yn rhannu cefnogaeth ar gyfer yr esemptiad arfaethedig ar gyfer pobl â phrofiad o ofal, gan werthfawrogi pwysigrwydd 'teuluoedd newydd' a ffactorau eraill sy'n galluogi'r rheini sydd wedi symud o gwmpas yn aml i deimlo'n gyfforddus ac yn gysylltiedig.

3.67 Roedd yr ymatebion yn cydnabod y gall yr angen am bellter fod yn berthnasol mewn amrywiaeth o amgylchiadau. Felly, ystyrir bod y cynnig yn dangos dealltwriaeth o'r gydberthynas rhwng digartrefedd a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE). Mewn achosion o'r fath, gall cysylltiad lleol gael effaith niweidiol, yn hytrach na chadarnhaol ar les meddyliol.

3.68 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion ond yn cefnogi'r meini prawf ystyriaeth ychwanegol yn gryf. Gan atgyfnerthu'r cynnig i ystyried sut y gellid ystyried meini prawf 'amgylchiadau arbennig' yn well (paragraff 166), roedd ymatebwyr yn aml yn awgrymu cynnwys y canlynol:

- Pobl LHDTC+

- ceiswyr lloches a'r rheini sydd Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus
- pob person ifanc
- y rheini sydd angen mynediad at wasanaethau iechyd arbenigol (er enghraifft, claf canser neu ddialysis)
- y rhai a fyddai'n elwa o leoliad sy'n cynnig iaith a rennir neu gymuned ffydd a rennir

3.69 Mynegodd rhai ymatebwyr siom ynghylch eithrio ffoaduriaid a chyn geiswyr lloches sydd wedi cael caniatâd i aros yn y wlad, a oedd yn cael ei ystyried yn groes i ymrwymiad polisi Llywodraeth Cymru i fod yn Genedl Noddfa.

3.70 O ran ystyried iaith a rennir, roedd yr ymatebion yn nodi y gallai hyn fod yn ffactor wrth leoli unigolyn mewn awdurdod a ffafrir, yn hytrach nag awdurdod cartref, yn ogystal â 'diogelu' y Gymraeg mewn achosion lle mae'r prawf yn cael ei gadw.

3.71 Ar y llaw arall, nodwyd rhywfaint o anghytuno ynghylch y meini prawf amgylchiadau arbennig, ar y sail y byddai'r dulliau presennol eisoes yn cymhwyso categori 'mewn perygl' ar gyfer y grwpiau a awgrymwyd, felly dylai'r prosesau presennol alluogi unigolion sydd mewn perygl i gael cymorth priodol.

3.72 Roedd rhai sylwadau'n ymateb yn uniongyrchol i oblygiadau cadw'r prawf cysylltiad lleol (ond gydag esemptiadau). Roedd yr ymatebwyr yn arbennig o bryderus ynghylch anghysondeb cymhwyso'r prawf, a oedd yn cael ei adlewyrchu mewn sylwadau gan gynnwys:

> 'Rydym hefyd yn credu, mai o'r 3 phrawf, y prawf cysylltiadau lleol yw'r un gaiff ei gymhwyso'n fwyaf anghyson'
>
> Cyngor Castell-nedd Port Talbot
>
> 'Mae paragraff 152 yn egluro "nad oes cyfnod penodol y mae'n rhaid i ymgeisydd fyw mewn ardal er mwyn ei ystyried fel un sydd â chysylltiad lleol." Gyda hyn mewn golwg, byddwn yn rhagweld amrywiadau rhanbarthol sylweddol wrth weithredu'r prawf cysylltiad lleol'
>
> Dr Jonathan Taylor, Prifysgol Rhydychen

3.73 Er mwyn sicrhau cysondeb a lliniaru'r risg o wahaniaethau wrth gymhwyso, roedd sawl cais am arweiniad ac eglurhad. Dylai'r rhain ddarparu rhagor o wybodaeth am ddisgwyliadau llinell amser, gan nodi'r grwpiau blaenoriaeth, a'r mathau o gysylltiadau sy'n cael eu hystyried yn dderbyniol.

3.74 Ar ben hynny, cododd rhai awdurdodau lleol bryderon penodol ynghylch eu gallu i ymateb i restr ehangach o esemptiadau. Yn benodol, nododd Cyngor Wrecsam y priodoleddau canlynol a allai roi baich galw anghymesur ar yr ardal, o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill:

> 'Sefyllfa Wrecsam fel awdurdod lleol ar y ffin gyda'r unig garchar yng Ngogledd Cymru
>
> lleoliad un o'r prif ysbytai yng Ngogledd Cymru; a
>
> lleoliad prifysgol
>
> Gallai cost bosibl y gwelliant hwn fod yn eithriadol o uchel'

3.75 Yn yr un modd, dywedodd ymatebwyr eraill y gallai ehangu'r rhestr esemptiadau arwain at bwysau anghymesur ar rai awdurdodau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd mwy poblog.

3.76 Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno'n gryf â'r cynnig ar y sail y gallai llacio meini prawf a chyflwyno esemptiadau gael effaith niweidiol ar drigolion Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd awdurdodau lleol sy'n nes at ffin Cymru/Lloegr. Ystyrir bod y mater hwn yn llai perthnasol mewn perthynas â chyd-destun yr Alban, lle nad yw'r cyffiniau mor agos yn ddaearyddol at ardaloedd â phoblogaeth uchel yn Lloegr. O'r herwydd, mae'r ymatebion yn mynegi'r angen i fod yn ofalus ynghylch effeithiau anfwriadol 'dehongliad mwy rhyddfrydig' o gysylltiad lleol, ar lefelau'r galw mewn awdurdodau lleol yng Nghymru.

*Goblygiadau i bobl sy'n gadael y carchar*

3.77 Roedd y rhan fwyaf o'r pryderon a godwyd mewn perthynas â'r cynnig yn ymwneud ag esemptiad 'e'; pobl sy'n gadael carchar sydd angen symud i ardal newydd fel rhan o'u hadsefydlu. Roedd y sylwadau hyn yn pwysleisio cymhlethdod y ffactorau sy'n dylanwadu ar adsefydlu person sy'n gadael carchar, gan gynnwys materion fel cadw cysylltiad lleol ond bod yn destun amodau ardaloedd gwaharddedig, ardal

prawf a pha mor gyfarwydd ydynt ag ardaloedd oherwydd yr amser a dreuliwyd mewn adeiladau cymeradwy.

3.78 Roedd gwahaniaethau eraill yn seiliedig ar bwysigrwydd gwneud asesiadau fesul achos. Yn achos y rhai sy'n gadael carchar yn benodol, pwysleisiwyd y dylai adsefydlu mewn awdurdod arall gael ei bennu'n annibynnol gan amrywiaeth o ffactorau addasrwydd, gan wneud cyd-destun unigol yn flaenoriaeth, nid y grŵp esemptiad.

3.79 Roedd y sylwadau hefyd yn tynnu sylw at yr angen i ymchwilio ymhellach i ganlyniadau anfwriadol mewn perthynas â'r grŵp esemptiad hwn, yn enwedig ar gyfer yr awdurdodau lleol sydd â charchardai a phoblogaethau carchardai uchel.

*Gweithredu*

3.80 O ran gweithredu, roedd ymatebwyr yn dymuno gweld cefnogaeth ac arweiniad, a allai sicrhau bod cymwysiadau anghyfreithlon yn cael eu hosgoi, bod gwiriadau dilysu addas yn cael eu cynnal, a bod dull gweithredu cyson / Cymru gyfan ar gyfer defnyddio'r prawf yn cael ei sefydlu. Roedd pryderon ymysg ymgeiswyr ynghylch cysondeb y dull gweithredu a'r amrywiad rhanbarthol yn deillio'n rhannol o'r diffyg manylion a roddwyd mewn rhannau penodol o'r Papur Gwyn, fel Paragraff 152: "Nid oes cyfnod penodol y mae'n rhaid i ymgeisydd fyw mewn ardal er mwyn ei ystyried fel un sydd â chysylltiad lleol."

3.81 Roedd eraill o blaid y cynnig yn pwysleisio'r angen am ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n ystyriol o drawma ac sy'n gallu ystyried profiad personol cyfannol. Mae'r cynigion a'r esboniadau penodol y gofynnir amdanynt mewn ymateb i'r cwestiwn hwn wedi'u darparu'n gryno isod:

*Cynigion*

- cynnwys ffoaduriaid, pobl â NRPF, a chyn geiswyr lloches eraill yn unol â'r meini prawf amgylchiadau arbennig
- ystyried dewisiadau crefyddol a diwylliannol fel rhan o agwedd fwy hyblyg tuag at gysylltiad lleol
- ystyried agosrwydd at wasanaethau cymorth iechyd (cymorth iechyd corfforol a meddyliol)

- os bydd y prawf yn cael ei gadw, ffocws o'r newydd ar ailgysylltu a 'gwir gynnig' o ran cymorth i helpu pobl i ymgysylltu â chymorth yn eu sir eu hunain
- cryfhau'r cysylltiad lleol er mwyn sicrhau bod trigolion Cymru yn cael eu blaenoriaethu
- os yw'r meini prawf ar gyfer cysylltiad lleol i gael eu llacio'n llwyr, ni ddylai'r canllawiau ar 'amgylchiadau arbennig' fod yn rhy gyfarwyddol, fel nad yw'n cael ei ystyried fel rhywbeth prin neu anarferol
- ymchwil pellach i'r rhesymau a'r cymhellion dros wneud cais i awdurdod arall
- monitro datblygiadau yn yr Alban i benderfynu sut y gallai Cymru symud tuag at ddiddymu'r prawf cysylltiad lleol.

*Esboniadau*

- rhaid bod yn ofalus gyda charcharorion lle mae angen llunio hyn drwy Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd
- mewn perthynas â phobl sy'n gadael carchar, pa feini prawf penodol fyddai'n cael eu hystyried i benderfynu a yw awdurdod penodol yn addas ai peidio? Sut bydd hyn yn cael ei roi ar waith pe bai'r troseddau a gyflawnwyd dros nifer o wahanol awdurdodau?
- eglurder ynghylch a fyddai cynnwys cyn-filwyr a'u teuluoedd yn destun uchafswm amser ers gadael y lluoedd arfog (e.e. 10, 20+ o flynyddoedd yn ddiweddarach)
- eglurder ynghylch a yw cynnwys cyn-filwyr yn ymestyn i bartneriaid sydd wedi ysgaru neu wedi gwahanu, deinameg teuluol/cartref amrywiol, ac a yw milwyr wrth gefn yn gymwys
- diffiniadau gwell o 'mewn perygl' fel bod unrhyw asesiad a wneir yn gymesur â lefel yr angen
- eglurder y rheolau sy'n ymwneud â'r Credyd Cynhwysol a'r man preswylio
- eglurder ynghylch a fydd yr un prawf yn cael ei gymhwyso ynghylch dyletswydd digartrefedd a dyrannu tai cymdeithasol.

3.82 I weld y dystiolaeth, y cynigion a'r esboniadau llawn mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, edrychwch ar ddogfen x.

**Cwestiwn 7 – Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein hystyriaeth gynnar o gostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a buddion nad ydym wedi rhoi cyfrif amdanynt?**

3.83 Nododd yr ymatebwyr nifer o gostau a buddion nad oeddent yn cael eu hystyried ym mhennod 1, sef:

*Costau*

- nid yw'r dadansoddiad sy'n seiliedig ar ddata cyn y pandemig yn adlewyrchu'r galw presennol am wasanaethau na chostau cysylltiedig
- amcangyfrif o 2 awr o waith i gynhyrchu Cynllun Tai Personol yn cael ei gamfarnu
- tanamcangyfrif effaith cael gwared ar benderfyniadau digartrefedd bwriadol ar gost
- dim digon o gyllid ar gyfer caffael ac adfywio adeiladau gwag/segur ers amser hir i'w datblygu'n dai cymdeithasol
- mwy o bwysau ar wasanaethau iechyd oherwydd darpariaeth gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma
- costau hyfforddi ymlaen llaw a pharhaus heb eu nodi ond gallent greu effaith
- mae costau tai sylweddol yn cael eu gwario ar lety dros dro nes bydd y model ailgartrefu cyflym ar waith

*Buddion*

- atal digartrefedd gan arwain at lai o wariant
- lleihau costau aildroseddu os darperir anghenion sylfaenol i bobl
- gostyngiad posibl mewn costau o ganlyniad i atal cynnydd enfawr mewn ceisiadau i adrannau digartrefedd

## Pennod 2

**Cwestiwn 8 - Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i gymhwyso dyletswydd i nodi, atgyfeirio a chydweithredu ar set o gyrff perthnasol er mwyn atal digartrefedd?**

3.84 Roedd yr ymatebion i gwestiwn 8 yn cyflwyno consensws clir, roedd y rhan fwyaf o'r cynigion yn y Papur Gwyn i ddefnyddio dyletswydd i nodi, atgyfeirio a chydweithredu ar set o gyrff perthnasol i atal digartrefedd yn cael eu cefnogi gan y mwyafrif (88 yn cytuno).

**Tabl 2.1: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gwestiwn 8**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Ydw | 88 |
| Na | 5 |
| Amhendant | 0 |
| Cyfanswm | 93 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.85 Y rhai nad oeddent yn cytuno â'r cynigion oedd yr holl ymatebwyr unigol, nad oeddent yn ymateb fel cynrychiolwyr sefydliadau.

**Cwestiwn 8a – rhesymau i gefnogi eich ymateb**

3.86 Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion i ddefnyddio dyletswydd i nodi, atgyfeirio a chydweithredu ar set o gyrff perthnasol er mwyn atal digartrefedd am sawl rheswm.

*Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.87 Yn gyntaf, roeddent yn credu bod dull gweithredu aml-asiantaeth yn hanfodol i fynd i'r afael â phroblem gymhleth digartrefedd. Roeddent yn dadlau nad problem tai yn unig yw digartrefedd ond ei fod yn gysylltiedig â ffactorau amrywiol fel iechyd, addysg, cyfiawnder troseddol a gofal cymdeithasol. Drwy gynnwys nifer o wasanaethau cyhoeddus, mae mwy o gyfle i ymyrryd yn gynnar ac atal digartrefedd. Pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen am ddealltwriaeth gyfannol o ddigartrefedd a phwysigrwydd cydweithio rhwng gwahanol sectorau.

3.88 Yn ail, ystyriwyd bod y ddyletswydd i nodi, atgyfeirio a chydweithredu yn offeryn gwerthfawr i hyrwyddo cydweithio ac atebolrwydd ar draws sectorau. Roedd ymatebwyr yn dadlau, drwy osod dyletswydd ar gyrff perthnasol, y bydd gweithwyr proffesiynol yn fwy atebol am eu gweithredoedd ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Mae'r ddyletswydd hon yn sicrhau bod pob gwasanaeth yn gweithio gyda'i gilydd tuag at yr un safonau a nodau, gan leihau dyblygu a sicrhau cydweithrediad effeithiol.

3.89 Yn drydydd, tynnodd ymatebwyr sylw at fanteision rhannu gwybodaeth amserol ac ymatebol rhwng cyrff perthnasol. Roeddent yn dadlau y gall asiantaethau, drwy rannu gwybodaeth, ganfod unigolion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn gynharach a rhoi'r gefnogaeth a'r ymyriadau angenrheidiol iddynt. Nod y dull rhagweithiol hwn yw atal digartrefedd cyn iddo ddigwydd neu fynd i'r afael ag ef yn gyflym pan fydd yn digwydd.

3.90 Yn olaf, pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n ystyriol o drawma wrth atal digartrefedd. Roeddent o'r farn y gall gwasanaethau, drwy fabwysiadu'r dull hwn, ddeall yn well anghenion a phrofiadau unigolion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref a darparu cymorth wedi'i deilwra. Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gwahaniaethu a brofir gan bobl ddigartref, gan eiriol dros hyfforddi gwasanaethau iechyd cyhoeddus i adnabod arwyddion o ddigartrefedd a darparu cymorth priodol.

3.91 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion i gymhwyso dyletswydd i nodi, atgyfeirio a chydweithredu ar gyrff perthnasol i atal digartrefedd oherwydd ei fod yn hyrwyddo dull cydweithredol, rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o fynd i'r afael â'r mater. Roeddent yn credu, drwy gynnwys nifer o sectorau, rhannu gwybodaeth, a mabwysiadu dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma, ei bod yn bosibl atal digartrefedd a darparu cymorth amserol i'r rheini sydd mewn perygl.

*Sylwadau sy'n cytuno mewn egwyddor ond gyda chafeatau*

3.92 Mynegwyd nifer o gafeatau gan ymatebwyr ynghylch y cynigion i osod dyletswydd ar gyrff perthnasol i nodi, atgyfeirio a chydweithredu i atal digartrefedd. Mae'r cafeatau hyn yn tynnu sylw at heriau ac ystyriaethau posibl y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn gweithredu dyletswydd o'r fath yn llwyddiannus, ac maent yn cynnwys:

- rheoli cysondeb, gan gydnabod y gall cymhwyso fod yn anghyson ac y gall wynebu gwrthwynebiad gan asiantaethau eraill, yn enwedig os ystyrir bod y mater yn broblem dai yn unig
- mynegi pryderon eang ynghylch capasiti adnoddau'r sefydliadau dan sylw
- cynnwys fframwaith sy'n amlinellu canlyniadau i gyrff perthnasol sy'n methu â chadw at y ddyletswydd a chyflawni eu cyfrifoldebau statudol
- pryderon y gallai'r ddyletswydd roi baich anghymesur ar dimau tai pan fydd angen dull gweithredu mwy cydweithredol ac amlasiantaethol
- dibyniaeth y ddyletswydd ar argaeledd gwasanaethau iechyd arbenigol, cysondeb o ran 'trothwyon' a chydweithrediad cynnar rhwng gwasanaethau iechyd a thimau tai i hwyluso atal
- risg bod atgyfeiriadau'n cael eu defnyddio fel ffordd o drosglwyddo cyfrifoldeb dros anghenion cymorth ehangach i dimau digartrefedd
- yr angen am fecanweithiau atgyfeirio cyson (e.e.: defnyddio templedi neu fformatau safonol) i sicrhau unffurfiaeth ac effeithlonrwydd yn y broses
- yr angen am ymrwymiad i wella gwybodaeth am hawliau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar draws yr holl sectorau sy'n cyfranogi, gan alluogi gweithluoedd i gefnogi plant yn well i wireddu eu hawliau.

3.93 Mae'r cafeatau hyn yn tynnu sylw at y cymhlethdod a'r heriau posibl sy'n gysylltiedig â gweithredu dyletswydd i nodi, atgyfeirio a chydweithredu ar gyrff perthnasol i atal digartrefedd. Bydd mynd i'r afael â'r pryderon hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a llwyddiant dyletswydd o'r fath.

*Adborth ar y dyletswyddau*

3.94 Roedd rhai ymatebwyr wedi rhannu adborth penodol ar oblygiadau posibl y dyletswyddau penodol.

3.95 O ran y ddyletswydd i nodi, mynegodd ymatebwyr deimladau cadarnhaol, gan dynnu sylw at y ffaith y byddai'n cael effaith gadarnhaol iawn ar fynd i'r afael â digartrefedd. Roeddent yn pwysleisio'r angen am ymwybyddiaeth a gwybodaeth am y ffactorau risg sy'n gysylltiedig â digartrefedd, gan awgrymu gweithredu asesiadau risg cyn geni fel model posibl i ddysgu ohono.

3.96 O ran y ddyletswydd i atgyfeirio, roedd ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol y byddai dyletswydd o'r fath yn annog asiantaethau partner i ystyried risg digartrefedd yn gynharach, gan ganiatáu mwy o amser i'w datrys. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch y cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau digartrefedd a'r posibilrwydd o drosglwyddo cyfrifoldeb unwaith y gwneir atgyfeiriad. Awgrymodd ymatebwyr ystyriaeth ofalus i osgoi dyblygu cyfarfodydd cydlynu achosion a gynhelir gan sefydliadau eraill fel TACAA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd), MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth), IOM (rheoli troseddwyr integredig), a Chynhadledd Amddiffyn Plant.

3.97 O ran y ddyletswydd i gydweithredu, pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd cydweithredu llwyr rhwng gwahanol gyrff i roi diwedd ar ddigartrefedd yn effeithiol. Tynnwyd sylw at yr angen am atebolrwydd ar y cyd a deddfwriaeth benodol sy'n diffinio rolau a chyfrifoldebau. Roedd rhai ymatebwyr yn cynnig cryfhau deddfwriaeth yn y dyfodol i sicrhau bod cyrff cyhoeddus dan ddyletswydd i beidio â rhyddhau unigolion i ddigartrefedd. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch heriau o ran gorfodi a'r cynnydd cychwynnol posibl mewn llwyth achosion.

3.98 Yn gyffredinol, roedd yr adborth yn dangos cefnogaeth i'r dyletswyddau i nodi, atgyfeirio a chydweithredu wrth atal digartrefedd, ond roedd hefyd yn tynnu sylw at yr angen i ystyried heriau posibl yn ofalus a datblygu diffiniadau a deddfwriaeth glir i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.

*Sylwadau a oedd yn anghytuno*

3.99 Roedd pedwar o'r 5 ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r cynigion wedi methu â chefnogi eu hatebion gyda rhesymau; mynegodd un ymatebydd farn na ellir atal digartrefedd yn yr hinsawdd bresennol ac felly byddai cynigion y Papur Gwyn yn aneffeithiol.

**Cwestiwn 9 - Ydych chi'n cytuno â'r cyrff perthnasol arfaethedig, y byddai'r dyletswyddau i nodi, atgyfeirio a chydweithredu yn berthnasol iddynt? A fyddech chi'n ychwanegu neu'n tynnu unrhyw wasanaethau o'r rhestr?**

3.100 Roedd yr ymatebion i gwestiwn 9 yn fwy cynnil, a adlewyrchir yn y dadansoddiad meintiol isod.

**Tabl 2.3 Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gwestiwn 9**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Ydw | 53 |
| Na | 3 |
| Amhendant | 19 |
| Cyfanswm | 92 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.101 Rhaid nodi bod gwahaniaethau wedi'u gweld yn nehongliad yr ymatebwyr o'r cwestiwn hwn, sy'n golygu bod ymatebion mewn rhai achosion yn dangos cytundeb mewn teimlad (tuag at y cyrff a restrir) ond gellid mynegi anghytundeb gyda chyfyngiadau canfyddedig y rhestr. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y nifer cymharol fawr o ymatebion sydd wedi'u codio fel rhai 'amhendant'. Ymysg ymatebwyr y trydydd sector a'r RSLs a'r awdurdodau lleol hynny a atebodd y cwestiwn hwn, roedd mwy yn cytuno â'r cyrff perthnasol arfaethedig.

3.102 Mae'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn rhoi syniad da o'r rhesymau pam roedd ymatebwyr yn cytuno â'r cyrff perthnasol yr awgrymwyd y byddai'r cynigion yn berthnasol iddynt.

3.103 Yn gyntaf, roedd consensws bod adrannau gwasanaethau cymdeithasol, byrddau iechyd a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn y sefyllfa orau i gefnogi atgyfeirio unigolion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn gynnar. Mae gan y cyrff hyn gyfrifoldebau penodol o fewn pwerau datganoledig Cymru a gallant feddu ar ddata hanfodol ar ôl-ddyledion rhent neu ffactorau fel anableddau neu ganlyniadau iechyd gwael sy'n cynyddu'r risg o ddigartrefedd.

3.104 Yn ail, mae'r cyrff hyn eisoes yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â digartrefedd ac maent wedi bod yn gweithio tuag at atal digartrefedd. Mae eu cynnwys yn y rhestr o gyrff perthnasol yn ffurfioli ac yn tanategu eu hymdrechion presennol.

3.105 Yn ogystal, roedd ymatebwyr o'r farn y dylid ychwanegu ysgolion, lleoliadau addysg bellach ac unedau atgyfeirio disgyblion at y rhestr o gyrff perthnasol. Fodd bynnag, mae'n bwysig symleiddio'r broses atgyfeirio er mwyn osgoi ychwanegu baich gwaith a biwrocratiaeth ddiangen ar staff addysg.

3.106 Ar ben hynny, ystyriwyd bod y rhestr arfaethedig yn gynhwysfawr ac yn fan cychwyn da ar gyfer hyrwyddo dull partneriaeth o leihau lefelau digartrefedd. Yn gyffredinol, mynegodd yr ymatebwyr eu bod yn cytuno â'r cyrff a nodwyd ar y rhestr

3.107 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod gan y cyrff perthnasol arfaethedig yr arbenigedd, yr adnoddau a'r cyfrifoldebau angenrheidiol i gyfrannu'n effeithiol at atal digartrefedd. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn pwysleisio'r angen am gyllid ac adnoddau digonol i sicrhau bod y cyrff hyn yn gallu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

*Awgrymiadau ar gyfer ychwanegu gwasanaethau*

3.108 Roedd y sefydliadau/gwasanaethau yr awgrymodd yr ymatebwyr y dylid eu hychwanegu at y rhestr yn cynnwys gwasanaethau addysg, prawf a chyfiawnder ieuenctid, y sector rhentu preifat, a darpariaeth ehangach y trydydd sector.

*Addysg*

3.109 Roedd consensws ymysg ymatebwyr ynghylch cynnwys addysg yn y rhestr arfaethedig o wasanaethau gyda dyletswydd i nodi, atgyfeirio a chydweithredu. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at sawl rheswm allweddol yn gyson:

- mae lleoliadau addysg, yn enwedig ysgolion, yn rhyngweithio'n rheolaidd ac yn gyson â phlant a phobl ifanc ac felly mae staff mewn sefyllfa dda i ddatblygu perthynas ddibynadwy â dysgwyr a nodi arwyddion cynnar o ddigartrefedd neu heriau y mae dysgwyr a'u teuluoedd yn eu hwynebu

- mae ysgolion eisoes yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o ddiogelu plant ac adnabod arwyddion o gam-drin neu esgeulustod ac maent mewn sefyllfa i ymyrryd yn gynnar i fynd i'r afael â materion sylfaenol a allai arwain at ddigartrefedd.
    - mae ysgolion eisoes yn derbyn atgyfeiriadau sy'n ymwneud â digartrefedd a byddai gweithio gyda gwasanaethau eraill i ddarparu cymorth gan gynnwys addysg yn y ddyletswydd yn ffurfioli ac yn symleiddio'r broses hon, gan sicrhau bod gan ysgolion a lleoliadau addysg ganllawiau a llwybrau clir ar gyfer nodi, atgyfeirio a chydweithredu

3.110 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr o'r farn y byddai eithrio addysg o'r cyrff perthnasol arfaethedig yn golygu colli cyfle i fynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc yn effeithiol.

*Gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid*

3.111 Roedd ymatebwyr hefyd yn credu'n gryf y dylid cynnwys gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid yn y rhestr arfaethedig o gyrff y byddai'r dyletswyddau'n berthnasol iddynt, am y rhesymau canlynol:

- y rhyng-gysylltiad rhwng digartrefedd a chyfranogiad cyfiawnder troseddol, gan gydnabod bod unigolion sy'n ymwneud â'r system brawf a'r system cyfiawnder ieuenctid yn arbennig o agored i ddigartrefedd
- mae cynnwys gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid yn arwydd o gydnabyddiaeth o'r angen am gefnogaeth gyfannol, yn enwedig ar gyfer unigolion ag anghenion cymhleth
- mae'r gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid mewn cysylltiad uniongyrchol ag unigolion sydd mewn perygl, felly gallant chwarae rhan allweddol wrth nodi arwyddion cynnar o ansefydlogrwydd tai a'u cyfeirio at wasanaethau cymorth priodol
- gwelir bod cynnwys gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid yn y dyletswyddau arfaethedig yn hyrwyddo cydweithio rhwng gwahanol asiantaethau a sefydliadau

*Sector rhentu preifat*

3.112 Roedd nifer o resymau allweddol pam roedd ymatebwyr yn teimlo y dylid cynnwys y sector rhentu preifat yn y rhestr arfaethedig o gyrff sydd â dyletswydd i nodi, atgyfeirio a chydweithredu i atal digartrefedd, gan gynnwys:

- nifer uchel o gyflwyniadau digartrefedd o ganlyniad i droi pobl allan yn y sector rhentu preifat
- daw'r rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau am gymorth digartrefedd o'r sector rhentu preifat; oherwydd hynny dylent chwarae rhan weithredol yn y gwaith o nodi unigolion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref a'u cyfeirio at yr awdurdodau priodol
- mae gan landlordiaid preifat rwymedigaethau i roi gwybod am ôl-ddyledion rhent ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n gallu peryglu tenantiaethau ac arwain at ddigartrefedd (byddai cynnwys landlordiaid preifat yn y ddyletswydd felly'n creu dull cyfannol o gefnogi ac atal)
- mae gan landlordiaid preifat, fel darparwyr tai, rôl hollbwysig o ran atal a lliniaru digartrefedd a dylent fod o dan rwymedigaeth i roi rhybudd i'r awdurdod tai lleol pan fyddant yn bwriadu cyflwyno hawliad meddiant (a fyddai'n helpu i gynnal tenantiaethau ac atal digartrefedd)

*Y Trydydd Sector*

3.113 Awgrymodd ymatebwyr hefyd fod cynnwys mudiadau trydydd sector a gwirfoddol yn y ddyletswydd i nodi, atgyfeirio a chydweithredu i atal digartrefedd yn hanfodol oherwydd eu profiad a'u harbenigedd sylweddol, eu potensial ar gyfer mwy o gyfranogiad mewn ymdrechion atal, eu gallu i ddarparu cefnogaeth gyfannol, yr angen i gydweithio â rhanddeiliaid eraill, eu rôl o ran canfod risgiau digartrefedd yn gynnar, a'u gallu i gynnig cefnogaeth a chyngor i landlordiaid.

*Gofal sylfaenol*

3.114 Dywedodd rhai y byddai'r dull gweithredu'n cael ei gryfhau drwy gynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys meddygon teulu, fferyllfeydd cymunedol, deintyddion ac optometryddion, '*sef y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer dros*

*90% o brofiad cychwynnol pobl gyda'r GIG*', gan gyflwyno cyfle posibl pellach ar gyfer ymyrraeth gynnar.

3.115 Ar ben hynny, pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd gwasanaethau iechyd meddwl, ymwelwyr iechyd, a nyrsio cymunedol, y gellir eu hystyried yn bwynt cyswllt dibynadwy. Yn benodol, gwelwyd bod gwasanaethau gofal cynenedigol hefyd yn gyfle pwysig i adnabod mamau ifanc sydd mewn perygl, yn enwedig yn achos menywod sydd â phrofiad o ofal.

*Gwasanaethau brys*

3.116 Awgrymodd dau ymateb y dylid ychwanegu'r gwasanaethau brys at y rhestr o gyrff arfaethedig, gydag un yn tynnu sylw at y cyswllt rheolaidd y mae'r heddlu a'r parafeddygon yn ei gael yn aml gydag unigolion agored i niwed a'r rheini sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

3.117 Ar y llaw arall, awgrymodd un ymatebydd *na ddylid* disgwyl i'r gwasanaethau brys nodi ac atgyfeirio, oherwydd diffyg perthynas neu gyfrifoldeb parhaus sydd gan staff yn y rolau hyn dros ddefnyddwyr gwasanaeth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

*Arall*

3.118 Roedd un ymatebydd o blaid archwilio'r rôl y gallai credydwyr ei chwarae o ran atgyfeirio, gan gyfeirio at dystiolaeth o'u cyfrifoldebau yn yr Alban o dan amodau penodol (e.e. cyflwyno hysbysiad diffygdalu neu gychwyn achos i fwrw allan perchennog).

3.119 Argymhellodd un arall y dylid cynnwys gwasanaethau ieuenctid, oherwydd y niferoedd cynyddol o bobl ifanc sy'n ymwneud â gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru.

*Pwysigrwydd cydweithredu gan/gyda Llywodraeth y DU*

3.120 Roedd ymatebwyr yn cydnabod yr heriau o ran cymhwyso dyletswyddau i feysydd nad ydynt wedi'u datganoli, fel plismona neu'r broses ceisio lloches. Roeddent yn gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru yn negodi gyda'r cyrff perthnasol i sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru ond roeddent yn cydnabod na ellid cynnig y dull gweithredu'n derfynol ar hyn o bryd.

3.121 Yn gyffredinol, pwysleisiwyd y gallai asiantaethau fel yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), y Swyddfa Gartref a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) i gyd chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o atal a lliniaru digartrefedd. Drwy nodi, atgyfeirio a chydweithredu'n effeithiol â sefydliadau perthnasol, gallai'r asiantaethau hyn gyfrannu at ddull mwy rhagweithiol, yn hytrach nag adweithiol, o fynd i'r afael â digartrefedd.

*Cynigion*

3.122 Y tu hwnt i'r sefydliadau uchod a awgrymwyd gan ymatebwyr i'w cynnwys yn y rhestr arfaethedig, mae awgrymiadau allweddol i gefnogi gweithredu'r cynnig hwn wedi'u cynnwys isod:

- datblygu cynllun gweithredu llawn, i gyd-fynd â chanllawiau ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau newydd
- defnydd cadarn o iaith a mecanweithiau atebolrwydd fel bod cyrff perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau (a'r disgwyliadau ohonynt)
- opsiynau i ganiatáu i sefydliadau ac asiantaethau ychwanegol atgyfeirio at wasanaethau, gyda chaniatâd yr ymgeisydd
- hyfforddiant ymwybyddiaeth
- anrhydeddu argymhelliad y Panel Adolygu Arbenigol y dylai landlordiaid preifat fod o dan rwymedigaeth i roi rhybudd cyfreithiol i'r awdurdod tai lleol pan fyddant yn bwriadu cyflwyno hawliad meddiant
- cynrychiolaeth bellach o wasanaethau heb eu datganoli a chynllun aml-asiantaeth ar gyfer y rhai mewn gwasanaethau cyfiawnder troseddol

*Esboniadau*

3.123 Mewn ymateb i gwestiwn 9, codwyd y cwestiynau allweddol canlynol a cheisiadau am eglurhad:

- gan fod y bwrdd iechyd lleol yn cwmpasu nifer helaeth o wasanaethau, pa adrannau y mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld fyddai'n gallu cydweithredu er mwyn helpu i atal digartrefedd?

- a fydd gwasanaethau eraill y cyngor yn cael eu cynnwys, fel gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd?
- egluro'r ddyletswydd i gydweithredu ac ym mha amgylchiadau, yn ogystal â sut i benderfynu ar 'reswm da' dros beidio â gwneud hynny.

**Cwestiwn 10 – Yn eich barn chi, a ydym wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng gofynion deddfwriaethol ac arferion gweithredol, yn enwedig o ran iechyd?**

3.124 Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amhendant, ac felly'n anaddas ar gyfer dadansoddiad meintiol.

3.125 Mae'r nifer fawr o bryderon ac esboniadau sy'n cael eu datgelu drwy'r dadansoddiad yn arwydd o anghydbwysedd ymddangosiadol rhwng gofynion deddfwriaethol ac arferion gweithredol.

*Sylwadau cefnogol*

3.126 Bu i'r rhai a fynegodd fod y cydbwysedd cywir wedi'i sefydlu drwy'r cynigion dynnu sylw at agweddau cadarnhaol y ddeddfwriaeth mewn perthynas ag iechyd. Roedd rhai'n cydnabod bod y Papur Gwyn yn mynd i'r afael yn ddigonol â phryderon sy'n ymwneud ag iechyd, yn enwedig drwy fabwysiadu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer rhyddhau'n gynnar. Ystyriwyd bod hyn yn hanfodol ar gyfer hwyluso llif cleifion a sicrhau amgylcheddau priodol ar gyfer adferiad a lles.

3.127 Ar ben hynny, roedd yr ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r ffocws ar gydlynu a chydweithio ymysg gwahanol sefydliadau a chyrff sy'n destun rheolaeth, fel adrannau gwasanaethau cymdeithasol, byrddau iechyd, a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Roeddent o'r farn y byddai ehangu cyfrifoldebau yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r ddyletswydd gofal sy'n greiddiol i wasanaethau iechyd, gan gyfrannu at adnabod a chefnogi digartrefedd yn well, gan bwysleisio'r cysylltiad rhwng iechyd y cyhoedd, atal a digartrefedd.

3.128 Mae'r cynnwys hefyd yn tynnu sylw at yr awydd am fwy o bwyslais ar faterion iechyd meddwl a diagnosis deuol, yn ogystal â'r angen am fframwaith clir a dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Cydnabuwyd hefyd bwysigrwydd dull cydlynol a gwell dealltwriaeth o anghenion tai gan glinigwyr. Fodd bynnag,

cydnabuwyd y byddai gweithredu'r ddeddfwriaeth yn galw am adnoddau ychwanegol ac opsiynau llety.

3.129 Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y ddeddfwriaeth yn gefnogol ond roedd galw am fwy o ffocws ar iechyd ac integreiddio gwasanaethau digartrefedd o fewn gwasanaethau cynhwysiant iechyd arbenigol – hyd yn oed ymysg y rhai a awgrymodd fod y cynigion wedi taro'r cydbwysedd cywir.

*Pryderon*

3.130 Darparodd yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn sawl darn o dystiolaeth i gefnogi eu pryderon am y cydbwysedd rhwng gofynion deddfwriaethol ac arferion gweithredol wrth fynd i'r afael â digartrefedd.

3.131 Er enghraifft, roeddent yn tynnu sylw at y diffyg cydnabyddiaeth o sut y gallai'r ddeddfwriaeth arfaethedig effeithio ar fathau penodol o lety, fel darpariaeth lloches. Roeddent yn dadlau bod angen hyblygrwydd mewn rhai amgylchiadau, yn enwedig ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig a allai fod angen gadael yn gyflym oherwydd pryderon diogelwch ond efallai nad oeddent yn fodlon gwneud hynny. Mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu efallai nad yw dull un ateb i bawb yn addas ar gyfer pob math o dai, ac y dylid ystyried ystyriaethau penodol.

3.132 Mynegodd yr ymatebwyr bryderon hefyd am y diffyg manylion ynghylch sut bydd y mesurau arfaethedig yn cael eu hymgorffori mewn strategaethau lleol a strwythurau comisiynu, yn ogystal â sut bydd amrywiadau rhanbarthol yn cael eu lliniaru. Roeddent yn pwysleisio'r angen am ganllawiau ychwanegol ac i ymhelaethu ar fanylion y canllawiau hyn i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn ystyrlon yn weithredol.

3.133 Ar ben hynny, mynegodd yr ymatebwyr bryderon ynghylch capasiti a chyllid darparwyr gwasanaethau i fodloni'r gofynion a osodir gan y ddeddfwriaeth. Roeddent yn dadlau y gallai sefydliadau, heb ddigon o adnoddau, ei chael yn anodd darparu'r gefnogaeth a'r gwasanaethau angenrheidiol i unigolion sy'n ddigartref. Mae'r dystiolaeth hon yn tanlinellu'r angen am asesiad realistig o'r goblygiadau gweithredol a dyrannu adnoddau digonol i gefnogi gweithredu'r ddeddfwriaeth.

3.134 Hefyd, tynnodd ymatebwyr sylw at yr heriau a wynebir gan wasanaethau cyhoeddus sydd o dan bwysau difrifol. Roeddent yn dadlau y byddai gosod dyletswyddau

pellach ar sefydliadau yn ddadleuol ac y gallai arwain at alw am fwy o adnoddau. Mae’r dystiolaeth hon yn tynnu sylw at yr angen i ystyried yn ofalus ymarferoldeb a chynaliadwyedd y gofynion deddfwriaethol arfaethedig.

*Ystyriaethau sy’n ymwneud yn benodol ag iechyd*

3.135 Roedd yr ymatebion a oedd yn mynd i’r afael yn benodol â’r goblygiadau ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yn gwrthdaro. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod mai iechyd oedd un o’r sectorau mwyaf arwyddocaol a oedd yn cynnig cyfleoedd i atal digartrefedd, ond ei fod ar yr un pryd yn cwmpasu rhai o’r gwasanaethau a oedd dan y pwysau mwyaf o ran adnoddau.

3.136 Mynegwyd pryderon sy’n ymwneud yn benodol ag iechyd mewn perthynas â’r newid diwylliannol eang y credir ei fod yn angenrheidiol er mwyn gweithredu’r dyletswyddau arfaethedig yn llwyddiannus, a’r bwlch dilynol rhwng deddfwriaeth a newidiadau diriaethol mewn ymarfer. Cydnabuwyd bod cydweithio aml-asiantaeth yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, fel gwahaniaethau o ran dull gweithredu, prosesau a blaenoriaethu. Roedd ymatebwyr hefyd yn bryderus y gallai cyfrifoldebau ychwanegol effeithio ar lwyth gwaith presennol gweithwyr iechyd proffesiynol.

3.137 Roedd yr ymatebion yn mynegi y dylid cymryd gofal arbennig ynghylch y prosesau sy’n ymwneud â rhannu cofnodion cleifion a data personol. Roedd y sylwadau hyn yn nodi pa mor ddigyswllt yw rhannu gwybodaeth rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd ar hyn o bryd, sy’n tanseilio’r gallu i rannu gwybodaeth yn effeithiol a chefnogi cleifion yn y ffordd yr ystyrir ei bod wedi’i nodi yn y Papur Gwyn. Ystyrir bod y rhwystrau sy’n gysylltiedig â gweithio cydgysylltiedig yn broblem barhaus, a dylid mynd i’r afael â hyn er mwyn i’r cynigion gael effaith. Teimlwyd hefyd y byddai’r cyfeiriad at feysydd allweddol o groestorri, fel darpariaeth gwasanaeth iechyd meddwl, yn fan cychwyn priodol ar gyfer cymhwyso’r dyletswyddau arfaethedig – cyn ehangu ymhellach.

3.138 Yn gyffredinol, er bod rhai ymatebwyr o blaid gofynion deddfwriaethol cryfach i sicrhau cysondeb a chydweithio, pwysleisiodd eraill yr angen i ystyried yr heriau ymarferol a wynebir gan weithwyr iechyd proffesiynol wrth ddarparu gofal iechyd unigol ochr yn ochr ag ymdrechion i atal digartrefedd.

*Esboniadau*

3.139 Nodwyd nifer o geisiadau am esboniadau mewn perthynas â'r cwestiwn ymgynghori hwn, a grynhoir fel a ganlyn:

- a fyddai'r un disgwyliadau a gofynion yn berthnasol i ddarparwyr gofal iechyd preifat, a ddylai hefyd fod â'r un ddyletswydd gofal?
- eglurhad pellach o'r gweithwyr iechyd proffesiynol penodol y byddai'r dyletswyddau'n berthnasol iddynt
- eglurhad pellach ar y gofyniad i 'gydweithredu' a'r hyn y mae hyn yn ei olygu i bob parti
- eglurhad penodol o'r disgwyliadau ar gyfer y GIG – a'u cyfraniad gweithredol disgwyliedig
- eglurhad a chanllawiau ar yr hyn y mae'r dyletswyddau'n ei olygu i gleifion, y gofynnir iddynt fod ar gael mewn fformatau hawdd eu darllen

*Cynigion*

3.140 Awgrymodd ymatebwyr yr argymhellion a'r camau gweithredu canlynol mewn ymateb i gwestiwn 10:

- cynnwys clinigau iechyd a meddygfeydd (i gynyddu lefelau adnabod yn gynnar)
- adolygu trothwyon ar gyfer risg o ddigartrefedd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl
- prosesau i sbarduno hysbysu timau digartrefedd ar unwaith pan fydd risg o ddigartrefedd yn cael ei nodi cyn rhyddhau o'r ysbyty
- rhannu cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol electronig sy'n galluogi gwell dealltwriaeth o hanes cleifion ac yn lleihau'r angen i 'ailadrodd' amgylchiadau personol
- systemau atgyfeirio electronig ac offer asesu risg
- adolygu datblygiad llwybr D2RA ar draws gwasanaethau cleifion mewnol iechyd meddwl gan roi ystyriaeth briodol i ffactorau tai a digartrefedd o'r adeg derbyn

- tystiolaeth ategol o unrhyw ganlyniadau anfwriadol o ran gweithredu'r dyletswyddau a gynigir ar gyfer yr holl sefydliadau y disgwylir iddynt gael eu cynnwys

**Cwestiwn 11 – Pa fesurau ymarferol fydd angen eu rhoi ar waith er mwyn i'r dyletswyddau arfaethedig i nodi, atgyfeirio a chydweithredu weithio'n effeithiol? Ystyriwch anghenion dysgu a datblygu, adnoddau, staffio, lleoliad a diwylliant.**

*Anghenion hyfforddi a datblygu*

3.141 Roedd ymatebwyr yn rhoi'r pwyslais mwyaf ar anghenion hyfforddi a datblygu wrth ystyried y mesurau ymarferol sydd eu hangen i gefnogi'r dyletswyddau arfaethedig, ac yn nodi rhai meysydd ffocws craidd, a amlinellir isod.

*Datblygu rhaglen hyfforddi integredig gynhwysfawr*

3.142 Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd datblygu rhaglen hyfforddi integredig gynhwysfawr ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym meysydd gofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r sectorau cymorth tai. Awgrymwyd bod y rhaglen hon yn ymdrin â gwahanol agweddau, gan gynnwys adnabod arwyddion o ddigartrefedd, deall anghenion iechyd cymhleth a sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn ymgyfarwyddo â'r fframwaith cyfreithiol a pholisi. Dylai hefyd ddarparu gwybodaeth am lwybrau atgyfeirio lleol i sicrhau dull gweithredu amlasiantaeth a chyfannol i gefnogi unigolion mewn angen. Awgrymwyd na ddylid ystyried hyfforddiant perthnasol fel cwrs i'w 'gwblhau' ond yn hytrach fel proses i gefnogi dysgu a datblygu parhaus.

*Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyffredinol*

3.143 Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o ddigartrefedd ymysg gweithwyr iechyd proffesiynol rheng flaen a staff mewn sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gallu adnabod achosion cynnar digartrefedd, adnabod arwyddion o gam-drin domestig a deall yr hyn sy'n sbarduno digartrefedd yn gymdeithasol ac yn emosiynol.

*Hyfforddiant sy'n Ystyriol o Drawma*

3.144 Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen penodol am hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma i gefnogi pobl sy'n ddigartref, ac sy'n canolbwyntio ar ddarparu empathi a dealltwriaeth o anghenion cleientiaid. Mae ymatebwyr yn awgrymu defnyddio'r rhaglenni hyfforddi presennol sy'n cael eu cyflwyno i wasanaethau cyhoeddus Cymru, er enghraifft, gallai hyfforddiant ar y Fframwaith sy'n Ystyriol o Drawma ar gyfer Cymru a hyfforddiant diogelu presennol orgyffwrdd yn sylweddol gyda hyfforddiant newydd ar adnabod digartrefedd

*Pwysigrwydd rhannu data'n ddiogel ac yn ddibynadwy*

3.145 Nododd nifer o'r ymatebwyr yr angen am blatfform TG cyffredin, er mwyn gallu cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn ddi-dor rhwng gwahanol sefydliadau sy'n ymwneud ag asesu cyflwyniadau digartrefedd.

Awgrymwyd hefyd y gallai cleientiaid eu hunain gael mynediad at eu cyfrifon, o bosibl drwy wefan Llywodraeth Cymru, lle gallent olrhain cynnydd eu hachosion. Ystyriwyd bod y tryloywder hwn yn hanfodol er mwyn grymuso cleientiaid a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Awgrymwyd hefyd y gallai system a rennir, sydd ar gael i nifer o sefydliadau perthnasol, helpu i atal camgyfathrebu, diffyg cyfathrebu neu gyfathrebu 'coll' rhwng gwahanol sefydliadau.

3.146 Awgrymodd un ymatebydd y gallai llwyfan TG o'r fath storio manylion eiddo llety dros dro ar-lein, gan ei gwneud yn hawdd i Lywodraeth Cymru gael gafael arnynt drwy gyfrif y cleient. Gallai'r storfa wybodaeth ganolog hon hefyd ddileu'r angen am ffurflenni misol neu ddata WHO 12, gan y gellid cael gafael ar ddangosyddion perfformiad yn syth drwy ddata byw. Ystyriwyd bod y mynediad amser real hwn at ddata yn fantais sylweddol o ran lleihau beichiau gweinyddol a gwella prosesau gwneud penderfyniadau.

3.147 Cydnabuwyd y byddai llwyfan o'r fath yn gofyn am fuddsoddiad mewn systemau TG sy'n gallu cyfathrebu'n rhwydd â'i gilydd. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y manteision posibl o ran gwell cydweithio, prosesau symlach, a darparu gwasanaethau gwell yn werth y buddsoddiad.

3.148 Yn yr un modd, roedd ymatebwyr yn rhannu adborth ehangach ar bwysigrwydd mecanweithiau i hwyluso rhannu data adnabyddadwy personol rhwng sectorau,

sy'n rhwystr cydnabyddedig i atal digartrefedd ar hyn o bryd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ran y cysylltiad (neu ddiffyg cysylltiad) rhwng gwasanaethau iechyd a thai. Nododd ymatebwyr fod hyn yn tanseilio cydweithrediad rhwng asiantaethau. Rhybuddiodd rhai (lleiafrif) o'r ymatebwyr mai 'ychydig o fudd' fyddai'n cael ei weld o ganlyniad i bennu'r mesurau newydd os na ellid datrys yr her barhaus hon yn briodol. Yn olaf, awgrymwyd hefyd y gallai datblygu llythyrau hysbysu safonol a ffurflenni atgyfeirio i awdurdodau eraill helpu i leihau nifer yr achosion o herio penderfyniadau, osgoi camgymeriadau a materion yn ymwneud â diffyg cydweithredu, a chyfrannu at system fwy effeithlon ac effeithiol.

*Ystyriaethau cyllidebu/ariannu*

3.149 Nododd ymatebwyr nifer o bwyntiau allweddol ynghylch yr ystyriaethau cyllidebu ac ariannu sy'n ofynnol i weithredu'r dyletswyddau newydd.

3.150 Yn gyntaf, teimlai ymatebwyr fod cyllid digonol yn hanfodol er mwyn gweithredu'r dyletswyddau newydd yn effeithiol. Mae'r adborth yn pwysleisio'r angen am gyllid tymor hir i sicrhau cynaliadwyedd a pharhad wrth gefnogi unigolion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu sy'n ddigartref. Tynnir sylw at y ffaith na fydd y dyletswyddau arfaethedig, heb ddigon o gyllid, yn gallu cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd.

3.151 Ar ben hynny, mae'r adborth yn tanlinellu pwysigrwydd buddsoddi'n well mewn darparwyr cymorth. Mae ymatebwyr yn pwysleisio y bydd dyrannu adnoddau i ddarparwyr cymorth yn galluogi sefydliadau i fuddsoddi mewn staff a hyfforddiant ar gyfer y tymor hir. Ystyrir bod hyn yn hanfodol i leihau cyfraddau trosiant a sicrhau gwasanaethau o safon.

3.152 Ar ben hynny, mae angen cyllid ychwanegol ar gyfer sefydliadau eraill (nad ydynt yn sefydliadau tai) sy'n ymwneud â mynd i'r afael â digartrefedd.

3.153 Ar ben hynny, mae'r adborth yn pwysleisio'r angen am fwy o adnoddau a chyllid i sicrhau bod timau digartrefedd yn cael digon o staff a'u bod yn gallu rheoli llwythi gwaith realistig. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn rhannu tystiolaeth[8] a oedd yn tynnu sylw at heriau sylweddol o ran staffio ac adnoddau. Nodwyd bod dros chwarter y

[8] Gellir cael gafael ar hwn drwy gyhoeddiad llawn o'r ymatebion a/neu'r ddogfen atodiad gyfatebol

staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau a ariennir gan HSG yn gweithio ar gyflog sy'n is na'r isafswm cyflog newydd ac nad yw'r cyllid grant wedi cynyddu digon i fynd i'r afael â'r diffyg ar gyfer darparwyr gwasanaethau, sy'n ail-werthuso'n barhaus i ateb y galw cynyddol er bod llai o adnoddau. Cydnabuwyd bod y problemau cynyddol o ran cyflogau isel, cynnydd yn y galw, a phwysau hirdymor wedi cael effaith negyddol ar recriwtio a chadw staff. Pwysleisiodd ymatebwyr felly fod staffio priodol yn allweddol i weithredu'r dyletswyddau'n effeithiol.

*Rolau arbenigol*

3.154 Roedd rhai sylwadau ychwanegol yn cynnig cyflwyno rolau newydd ac arbenigol. Roedd y rhain yn cynnwys 'arweinwyr atgyfeirio' ar draws timau i nodi pwynt cyfrifoldeb canolog, yn ogystal ag integreiddio sefydliadau tai a digartrefedd y trydydd sector mewn timau/sefydliadau gwasanaethau statudol, fel gofal iechyd sylfaenol.

3.155 Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys creu cydlynydd tai amlddisgyblaethol ym mhob ardal awdurdod lleol, a chomisiynu gwasanaethau cynhwysiant iechyd arbenigol – gan ddefnyddio enghreifftiau o gydleoli'r gwasanaethau hyn yn effeithiol mewn carchardai ac ysbytai.

*Newid diwylliant a chydweithio*

3.156 Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at newid diwylliannol yr ystyriwyd ei bod yn angenrheidiol i weithredu'r dyletswyddau'n llwyddiannus, a oedd â chysylltiad agos â thema o gydweithio rhwng sefydliadau a gwasanaethau. Roedd sylwadau'r ymatebwyr yn cyfeirio at y manylion yn y ddogfen ymgynghori a oedd yn cydnabod y diffyg cydweithio rhwng adrannau, sefydliadau a'r sector – gan ddarparu tystiolaeth ychwanegol o'u profiadau eu hunain.

3.157 Nodwyd y byddai'r newid gofynnol i weithio ar y cyd, er mwyn 'cydweithredu' yn effeithiol o dan y ddyletswydd arfaethedig, yn newid sylweddol i sectorau fel iechyd, sydd wedi cael problemau tymor hir gyda gweithio mewn seilos.

3.158 Roedd yr ymatebion yn nodi nifer o gynigion a oedd yn ceisio cefnogi'r newid diwylliannol a'r dull cydweithredol sy'n ofynnol i hwyluso'r dyletswyddau, gan gynnwys:

- cyflwyno fframweithiau cydweithredol
- protocolau cyfathrebu clir
- cytundebau rhyngasiantaethol
- cyd-gynhyrchu gwasanaethau drwy dimau amlddisgyblaethol
- gwella cysondeb gwasanaethau
- hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth o swyddogaethau gwahanol ac arbenigedd cymharol gwahanol sectorau a sefydliadau
- defnydd cyson o derminoleg ar draws sectorau

*Pryderon yr ymatebwyr*

3.159 Nododd y dadansoddiad nifer o bryderon ymatebwyr, a oedd yn gryfach o ran teimlad na'r cynigion a'r awgrymiadau a wnaed mewn perthynas â mesurau ymarferol penodol y gellid eu cyflwyno.

3.160 Roedd y pryder ynghylch y tebygolrwydd o sefydlu llwybrau atgyfeirio a mecanweithiau clir i sicrhau cyfathrebu effeithlon ac effeithiol rhwng sefydliadau perthnasol yn barhaus. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd nodi pwy sy'n gyfrifol am atgyfeirio a phwy sy'n gyfrifol am eu derbyn yn y sefydliad priodol.

3.161 Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd mynd i'r afael â diffyg ymgysylltu gan gleientiaid a datblygu strategaethau i'w hannog i gyfranogi. Ar ben hynny, roedd galw am arweiniad ar wahanol ddulliau o ddelio ag achosion lle gallai cleientiaid fod â lefelau amrywiol o gydweithredu.

3.162 Nodwyd bod gwersi a ddysgwyd o fentrau blaenorol, fel y ddyletswydd atal a gyflwynwyd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, yn werthfawr o ran cyfrannu at weithredu'r dyletswyddau newydd. Pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen am raglenni hyfforddi cynhwysfawr i arfogi staff ar draws gwahanol sefydliadau â'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni eu rolau'n effeithiol.

3.163 Yn olaf, nodwyd na ddylai'r diwygiadau arfaethedig anwybyddu'r rhwystrau systemig ehangach i atal digartrefedd, yn enwedig yr angen am gyflenwad digonol o gartrefi gweddus. Pwysleisiodd ymatebwyr fod mynd i'r afael â materion cyflenwad

a galw yn gyfannol yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng presennol yn effeithiol.

**Cwestiwn 12 – Yn ogystal â'r dyletswyddau eang i nodi, atgyfeirio a chydweithredu, mae'r bennod hon yn cynnwys cynigion i wella'r gwaith o gydlynu achosion ar gyfer y rheini sydd ag anghenion lluosog a chymhleth. I ba raddau y bydd y cynigion yn helpu i atal digartrefedd ymhlith y grŵp hwn?**

3.164 Mae'r adborth i'r ymgynghoriad yn dangos bod consensws cyffredinol ymysg yr ymatebwyr bod gan y ddeddfwriaeth arfaethedig y potensial i helpu i atal digartrefedd ymysg unigolion sydd ag anghenion lluosog a chymhleth. Mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr gefnogaeth i gydlynu achosion yn well, strwythurau partneriaeth ffurfiol, a chynnwys aml-asiantaeth fel strategaethau allweddol i fynd i'r afael â'r heriau unigryw a wynebir gan y boblogaeth fregus hon.

3.165 Tynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cydnabod y dylai cyfranogiad partneriaid perthnasol fod yn orfodol yn hytrach nag yn ddewisol, gan sicrhau bod yr holl wasanaethau angenrheidiol yn ymwneud â darparu cymorth cynhwysfawr. Roeddent yn pwysleisio manteision modelau rheoli achosion cymhleth, sy'n cynnig dulliau hyblyg ac ymatebol o reoli ymddygiad heriol a chyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion.

3.166 Awgrymwyd y gallai cydlynu achosion a chydweithio aml-asiantaeth helpu i atal digartrefedd drwy ddarparu cymorth wedi'i deilwra, lleihau dyblygu ac oedi, ac osgoi'r angen i unigolion ddatgelu eu hamgylchiadau personol dro ar ôl tro i wahanol asiantaethau. Cynigiwyd y cysyniad o weithiwr proffesiynol arweiniol neu gydlynydd a all eiriol dros anghenion yr unigolyn a sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng asiantaethau.

3.167 Mynegwyd rhai pryderon ynghylch y meini prawf ar gyfer pennu nifer y gwasanaethau sydd eu hangen ar gyfer cydlynu achosion. Er mai 3 neu fwy o wasanaethau yw'r trothwy arfaethedig, awgrymodd ymatebwyr y dylai'r ffocws fod ar anghenion yr unigolyn yn hytrach na nifer mympwyol. Roeddent hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys gwasanaethau anstatudol a grwpiau cymunedol yn y diffiniad o'r gwasanaethau dan sylw.

3.168 Yn ogystal, tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen am adnoddau digonol a darpariaeth gwasanaeth i weithredu'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn effeithiol. Roeddent yn pwysleisio pwysigrwydd mynd i'r afael â bylchau mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, cael gwared ar rwystrau rhag cael gafael ar gymorth, a darparu gofal arbenigol i unigolion ag anghenion cymhleth.

3.169 Yn gyffredinol, mae'r adborth yn awgrymu bod gan y ddeddfwriaeth arfaethedig, os caiff ei gweithredu gyda chanllawiau clir, adnoddau digonol, a dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, y potensial i wella canlyniadau'n sylweddol ac atal digartrefedd ymysg unigolion sydd ag anghenion lluosog a chymhleth.

**Cwestiwn 13 – Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein hystyriaeth gynnar o gostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a buddion nad ydym wedi rhoi cyfrif amdanynt?**

3.170 Nodwyd nifer o gostau a buddion yr oedd ymatebwyr yn teimlo nad oeddent yn cael eu hystyried yn llawn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA). Mae'r costau a'r buddion ychwanegol hyn yn cael eu crynhoi fel a ganlyn:

*Baich gweinyddol ar ysbytai*

3.171 Awgrymwyd y gallai'r cynnig i gynorthwyo unigolion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref wrth eu rhyddhau o ysbytai roi baich gweinyddol ar gyfleusterau gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys creu gweithdrefnau newydd, hyfforddiant staff, casglu data, mecanweithiau adrodd, ac adolygiadau cyfreithiol posibl ar gyfer cydymffurfio. Awgrymwyd y dylid cynnwys y costau hyn yn yr asesiad cyffredinol.

*Effaith ar sefydliadau atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc*

3.172 Nodwyd y gallai'r cynigion ofyn am staff ychwanegol, hyfforddiant staff, dyrannu adnoddau, systemau rheoli data, a chymorth gweinyddol i sefydliadau sy'n ymwneud ag atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc, tra gallai ymdrechion cydlynu rhwng darparwyr gofal iechyd ac awdurdodau tai hefyd gynyddu'r llwyth gwaith a chostau.

*Costau cymdeithasol ehangach*

3.173 Nododd ymatebwyr bwysigrwydd ystyried y costau cymdeithasol ehangach sy'n gysylltiedig â digartrefedd, fel colli refeniw oherwydd nad yw unigolion yn gallu gweithio, effeithiau ar addysg, a'r straen ar adnoddau cymunedol.

*Cynaliadwyedd ariannol lleoliadau preswyl*

3.174 Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen i sicrhau bod lleoliadau preswyl yn parhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol, yn enwedig pan fydd gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn ceisio dod â lleoliadau drud i ben ac yn disgwyl i dai ddarparu llety. Dylai dulliau monitro a dyrannu cyllid digonol fod ar waith i atal tai rhag cefnogi unigolion ag anghenion cymhleth y tu hwnt i gapasiti gwasanaethau cymorth tai.

*Systemau cydweithredu a chydweithio*

3.175 Mae angen ystyried y costau sy'n gysylltiedig â systemau cydweithio, gan gynnwys cronfeydd data ar gyfer tai a phartneriaid perthnasol fel gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth prawf a Gwasanaeth Carchardai EF. Efallai na fydd defnyddio dulliau cyfathrebu hen ffasiwn fel ffacs, negeseuon e-bost a phapur yn ddigonol ar gyfer rheoli achosion cymhleth, gan arwain at faterion GDPR posibl.

*Hyfforddiant a throsiant staff*

3.176 Dylid ystyried costau hyfforddiant parhaus ar gyfer staff, gan gynnwys hyfforddiant gloywi a hyfforddi aelodau newydd o'r tîm. Yn ogystal, mae angen gwneud darpariaethau ar gyfer trosiant staff a chost hyfforddiant newydd

*Dyrannu cyllid a hyblygrwydd*

3.177 Mae adnoddau digonol a dyraniadau cyllideb hyblyg yn hanfodol ar gyfer gweithredu'r diwygiadau arfaethedig yn effeithiol. Dylid cynyddu cyllidebau a dyraniadau atal er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol gyflawni dyletswyddau atal mewn ffordd fwy hyblyg. Dylai'r defnydd o grantiau gan Lywodraeth Cymru fod yn fwy dewisol ac yn cyd-fynd ag anghenion a gofynion awdurdodau lleol.

*Costau llety dros dro*

3.178 Awgrymwyd bod y costau amcangyfrifiedig ar gyfer llety dros dro a ystyriwyd yn cael eu tanamcangyfrif yn sylweddol. Mae'r nifer cynyddol o bobl ac aelwydydd sydd

angen llety dros dro yn golygu bod angen cyllid ychwanegol ac adolygiad o'r modelau a'r dyraniadau presennol.

*Ymchwil uwch*

3.179 Dylid darparu cyllid 'beichiau newydd' i alluogi gwell ystadegau ac ymchwil i asesu effaith y newidiadau ar awdurdodau lleol. Byddai hyn yn helpu i ddeall y galw am adnoddau, gwerthuso effeithiolrwydd y diwygiadau, a nodi meysydd y mae angen rhoi sylw pellach iddynt.

*Profi capasiti a gallu*

3.180 Awgrymodd ymatebwyr y dylid cynnal cynlluniau peilot ar raddfa fach i asesu capasiti a gallu gweithwyr iechyd proffesiynol i nodi ac atgyfeirio cleifion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn effeithiol. Awgrymwyd y byddai hyn yn helpu i bennu lefel y cymhlethdod yn y broses atgyfeirio ac yn sicrhau bod y gweithredu'n ailadroddol ac yn hylaw.

3.181 Mae'r costau a'r buddion ychwanegol hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnal dadansoddiad cost a budd cynhwysfawr i sicrhau bod y diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig yn mynd i'r afael yn effeithiol â chymhlethdodau digartrefedd wrth ystyried yr effeithiau ehangach a'r gofynion o ran adnoddau. Roedd monitro a gwerthuso parhaus hefyd yn cael ei ystyried yn hanfodol i fireinio'r strategaeth weithredu a sicrhau bod y mesurau ataliol arfaethedig yn llwyddiannus.

**Cwestiwn 14 – A oes grwpiau eraill o bobl, nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr adran hon, y credwch y mae digartrefedd yn effeithio'n anghymesur arnynt ac sydd angen gweithgarwch ychwanegol wedi'i dargedu i atal a lliniaru'r digartrefedd hwn (rhowch dystiolaeth i gefnogi eich safbwyntiau)?**

3.182 Mae Tabl 3.1 yn dangos y dadansoddiad o deimladau ynghylch a ddylid cael unrhyw grwpiau ychwanegol at y rheini yn y Papur Gwyn y mae digartrefedd yn effeithio'n anghymesur arnynt ac sydd angen rhagor o weithgarwch i atal neu i liniaru digartrefedd. Er bod llawer o'r grwpiau a grybwyllwyd yn cael eu crybwyll yn y Papur Gwyn, roedd ymatebwyr yn teimlo'n gyffredinol bod grwpiau ar goll. Roedd ymatebwyr awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a atebodd y cwestiwn hwn wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rheini a oedd yn teimlo bod y Papur Gwyn eisoes yn cynnwys y grwpiau priodol yn llawn a'r rheini a oedd wedi nodi grwpiau ychwanegol. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr y trydydd sector a atebodd y cwestiwn hwn yn teimlo bod grwpiau eraill ar goll o'r Papur Gwyn.

**Tabl 3.1: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gwestiwn 14**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Oes | 46 |
| Na | 17 |
| **Cyfanswm** | **64** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.183 Nid oedd patrwm sylweddol o grwpiau rhanddeiliaid a grybwyllwyd yn gyffredin rhwng sefydliadau ar gyfer y cwestiwn hwn.

3.184 Mae'r grwpiau a ddaeth i'r amlwg yn sgil y cwestiwn hwn yn cael eu crynhoi yn Nhabl 3.2.

**Tabl 3.2: Grwpiau a nodwyd gan ymatebwyr nad oeddent wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn wrth ateb cwestiwn 14**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Plant a Phobl Ifanc | 11 |
| Ffoaduriaid a cheiswyr lloches | 8 |
| Y rheini sydd â gwendidau lluosog a chroestoriadol | 8 |
| Y rheini sy'n ystyried eu hunain yn LHDTC+ | 7 |
| Pobl sy'n gadael carchar | 6 |
| Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 6 |
| Pobl ag anghenion dysgu ychwanegol | 6 |
| Pobl hŷn a'r henoed | 5 |
| Y rhai sy'n byw mewn llety anaddas | 4 |
| Sipsiwn a'r gymuned Teithwyr | 4 |
| Pobl ddigartref yng nghefn gwlad | 3 |
| Pobl ag anghenion iechyd cymhleth | 3 |
| Cyn-aelodau o'r lluoedd arfog | 2 |
| Goroeswyr camdriniaeth | 2 |
| Arall | 16 |

3.185 Mae'r dystiolaeth fanwl i gefnogi'r grwpiau a nodwyd gan ymatebwyr wedi'i chyfuno yn y ddogfen Atodiad ar wahân ar gyfer Llywodraeth Cymru. At ddibenion yr adroddiad cryno hwn, rhoddir trosolwg o resymeg yr ymatebwyr dros y grwpiau a nodwyd amlaf isod.

3.186 **Pobl hŷn:** Gall ymddeoliad, colli partner, neu incwm cyfyngedig gyfrannu at ddigartrefedd ymhlith unigolion hŷn. Nodwyd bod opsiynau tai fforddiadwy, mynediad at ofal iechyd, a gwasanaethau cymdeithasol wedi'u teilwra yn fesurau hanfodol ar gyfer y grŵp hwn.

3.187 **Unigolion LHDTC+:** Mae pobl LHDTC+ yn fwy tebygol o brofi digartrefedd, gydag adroddiadau'n dangos cyfraddau uchel iawn ymysg unigolion trawsrywiol. Awgrymwyd gwasanaethau cefnogi wedi'u teilwra, mesurau gwrth-wahaniaethu ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth fel mesurau i fynd i'r afael â'u heriau unigryw.

3.188 **Ffoaduriaid a cheiswyr lloches:** mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn wynebu rhwystrau sylweddol rhag cael llety addas oherwydd cyfyngiadau ariannol, diffyg gwarantwyr, ac amserlenni cyfyngedig. Soniodd ymatebwyr am gynnydd triphlyg mewn digartrefedd ymysg ffoaduriaid ar ôl iddynt gael statws. Cafodd cymorth wedi'i dargedu yn ystod eu cyfnod pontio i'r gymuned ei argymell i gyflawni ymrwymiadau i Gymru fel cenedl noddfa.

3.189 **Plant a phobl ifanc:** pwysleisiwyd anghenion penodol plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, gan gynnwys ymatebion wedi'u teilwra yn seiliedig ar oedran a nodweddion. Tynnwyd sylw hefyd at gymorth i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a'r rheini sy'n gadael gofal.

3.190

3.191 **Unigolion yn y system cyfiawnder troseddol**: nodwyd bod pobl sy'n gadael y ddalfa a'r rheini yn y system cyfiawnder troseddol mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref (cynigiwyd dulliau rhagweithiol a chynlluniedig yn ystod y 30 diwrnod cyntaf ar ôl rhyddhau er mwyn atal ail-garcharu)

3.192 Pwysleisiodd ymatebwyr o **gymunedau lleiafrifoedd ethnig** yr angen i fynd i'r afael â gwahaniaethau hiliol mewn digartrefedd – cynigiwyd integreiddio gwasanaethau cymorth sy'n ddiwylliannol sensitif, mesurau gwrth-hiliaeth, a chydnabod croestoriadedd hil â ffactorau eraill.

3.193 **Pobl anabl a'r rheini ag anghenion cymorth ychwanegol**: awgrymwyd cymorth wedi'i dargedu, gan gynnwys cwnsela, rhaglenni mentora, a chydweithio â sefydliadau ieuenctid, ar gyfer unigolion ag anghenion iechyd meddwl ac anghenion dysgu ychwanegol. Ystyriwyd bod opsiynau tai hygyrch a gwasanaethau cymorth arbenigol hefyd yn hanfodol ar gyfer oedolion hŷn sydd ag anghenion gofal a chymorth.

3.194 **Poblogaethau gwledig**: tynnodd ymatebwyr sylw at yr heriau a wynebir gan unigolion digartref mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys llai o dai fforddiadwy ac addas ac anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau – argymhellwyd gwasanaethau pwrpasol wedi'u teilwra i ddigartrefedd gwledig

**Cwestiwn 15 - Pa gamau deddfwriaethol neu bolisi ychwanegol y gellid eu cymryd i atal neu liniaru digartrefedd ar gyfer y grwpiau a nodir yn y Papur Gwyn hwn?**

3.195 Roedd y dadansoddiad yn darparu nifer o themâu allweddol mewn ymateb cyffredinol i'r camau deddfwriaethol a pholisi y gellid eu cymryd i atal neu liniaru digartrefedd ar gyfer y grwpiau y cyfeirir atynt. Mae rhestr lawn o'r camau gweithredu penodol a argymhellwyd gan ymatebwyr wedi'i darparu yn y ddogfen atodiad cyfatebol. Cyflwynir y rhain fel a ganlyn:

3.196 Ar gyfer goroeswyr cam-drin, roedd galwadau am fesurau grŵp-benodol, gan gynnwys tai wedi'u neilltuo a mwy o gyllid ar gyfer gwasanaethau lloches. Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am hyfforddiant ymwybyddiaeth gorfodol ar VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) ar gyfer timau tai awdurdodau lleol a meysydd y tu allan i bwerau datganoledig Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ymestyn yr holl fudd-daliadau tai i oroeswyr mudol, gan gynnwys y rheini sydd Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF). Argymhellwyd hefyd bod yr esemptiad o'r gyfradd lwfans tai lleol a rennir yn cael ei ymestyn i oroeswyr pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

3.197 O ran pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, tynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cryfhau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Deddf SSWB) i ddiogelu a chefnogi'r grŵp hwn yn benodol. Roeddent yn awgrymu gofynion llywodraethu ac adrodd clir, yn ogystal â rhaglenni atal digartrefedd ieuenctid wedi'u targedu. Cynigiwyd sefydlu strategaeth a chynllun gweithredu digartrefedd ieuenctid penodol, gan gydnabod yr angen am fesurau ataliol wedi'u teilwra.

3.198 Ar gyfer pobl anabl, roedd y dadansoddiad yn dangos bod angen gwell cydlynu rhwng gwasanaethau iechyd a thai. Pwysleisiodd ymatebwyr y dylid cynnwys tai mewn asesiadau iechyd a chofnodion electronig i hysbysu am yr angen ac i alluogi

cynllunio effeithiol. Roeddent yn galw am orfodi safonau hygyrchedd anabledd ar gyfer tai a chynnal adolygiad o dai pobl hŷn er mwyn gwella hygyrchedd.

3.199 Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd yr angen am ddulliau amlddisgyblaethol ac ymyriadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer unigolion sy'n wynebu problemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau ac anghenion cymhleth. Roeddent yn argymell deddfwriaeth i gryfhau ymdrechion cydgysylltiedig i fynd i'r afael â'r heriau rhyng-gysylltiedig hyn a sicrhau ymatebion priodol gan wasanaethau.

3.200 Ar ben hynny, roedd cynigion i gynyddu adnoddau a chymorth i unigolion digartref Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF), ac ehangu mynediad at lety diogel i oroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Awgrymwyd hefyd creu gwasanaethau cymorth penodol ar gyfer gwasanaethau cyn-filwyr a mathau eraill o gymorth ar gyfer y rheini sydd â NRPF.

3.201 Codwyd nifer o themâu a chynigion penodol mewn perthynas ag atal digartrefedd a chymorth i bobl sy'n gadael carchar. I grynhoi, roedd y rhain yn cynnwys:

- cynnal adolygiad llawn o lwybr y carcharorion (i nodi meysydd lle gellir lleihau dyblygu a symleiddio prosesau)
- mynd i'r afael â'r 'gwrthdaro' rhwng y ddyletswydd tai a goruchwyliaeth y gwasanaeth prawf (i oresgyn gwrthdaro canfyddedig rhwng y gofyniad am gysylltiad lleol ar gyfer cymorth tai a'r ardal brawf sy'n goruchwylio)
- defnyddio cysylltiad lleol yn ystod y cam atal (gweithredu'n gynt i benderfynu pa gyngor ddylai roi cymorth i'r carcharor)
- datblygu rhaglenni ail-fynediad ar gyfer y rhai sy'n gadael carchar, i gefnogi a chynorthwyo i'w helpu i ailintegreiddio'n llwyddiannus i gymdeithas
- egluro rôl a chyfrifoldebau'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, ar y sail y dylai'r cyfrifoldebau aros gyda nhw, ond pryd/os canfyddir bod y gwasanaethau presennol yn aneffeithiol, cyfeirio mwy o adnoddau i fynd i'r afael â diffygion
- mesurau i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau y gallai cynigion y Papur Gwyn eu cael ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau, oherwydd diffyg carchardai i

fenywod yng Nghymru – awgrymwyd bod angen rhoi ystyriaeth bellach i leihau neu fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn

**Cwestiwn 16 – Mae ein cynigion sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a phrofiad o ofal yn ceisio gwella ac egluro'r cysylltiadau rhwng deddfwriaeth digartrefedd a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae angen datblygiad polisi sylweddol i asesu ymarferoldeb hyn. Beth, yn eich barn chi, yw manteision a heriau ein dull gweithredu a pha ganlyniadau anfwriadol y dylem eu paratoi i'w lliniaru?**

*Sylwadau ar fanteision y dull gweithredu*

3.202 Ar sail y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae nifer o fanteision wedi cael eu nodi mewn perthynas â'r bwriad i gysoni deddfwriaeth digartrefedd â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r manteision hyn yn cynnwys:

3.203 **Gwell gwaith partneriaeth**: nododd ymatebwyr y byddai'r cynigion yn arwain at well cydweithio a gwaith partneriaeth rhwng gwasanaethau cymdeithasol, timau tai/digartrefedd, a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Byddai hyn yn cryfhau'r berthynas hirdymor rhwng partneriaid ac yn hwyluso'r broses o rannu capasiti, gwybodaeth, deallusrwydd ac adnoddau yn well.

3.204 **Cymorth gwell i boblogaethau agored i niwed**: disgwylir i gysoni deddfwriaeth arwain at well cefnogaeth i boblogaethau sy'n agored i niwed, yn enwedig plant, pobl ifanc, ac unigolion â phrofiad o ofal. Byddai'n sicrhau eu bod yn cael gofal, cymorth ac ymateb priodol, gan leihau'r risg y byddant yn 'disgyn drwy'r craciau'.

3.205 **Gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma**: cafodd hyrwyddo ymwybyddiaeth o drawma ei nodi fel un o fanteision hanfodol yr aliniad arfaethedig. Drwy gydnabod effaith ddwys trawma ar bobl ifanc, gall gwasanaethau ymateb yn fwy priodol a darparu gwell gofal sy'n ystyriol o drawma. Byddai hyn yn cyfrannu at les a chefnogaeth gyffredinol unigolion.

3.206 **Fframwaith cymorth cynhwysfawr:** nod yr aliniad yw darparu fframwaith cymorth mwy cynhwysfawr i fynd i'r afael ag anghenion penodol unigolion sy'n wynebu digartrefedd. Drwy gysoni deddfwriaeth digartrefedd â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, rhagwelir y gellir sicrhau dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan sicrhau nad oes unrhyw berson ifanc yn cael ei 'golli yn y system'.

3.207 **Cost-effeithiolrwydd**: tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith bod buddsoddi mewn mesurau canfod, atal a chefnogi cynnar yn gallu bod yn gost-effeithiol yn y tymor hir. Drwy leihau costau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â digartrefedd, fel cynnydd yn y galw am ofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, a'r system cyfiawnder troseddol, gall yr aliniad arfaethedig arwain at arbedion cost sylweddol.

3.208 **Newid diwylliant a gwell partneriaethau**: disgwylir i gysoni deddfwriaeth arwain at newid diwylliant mewn awdurdodau lleol, lle mae pob adran yn deall ei chyfrifoldeb am ofal a chymorth i blant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal. Byddai hyn yn meithrin gwelliannau mewn ffyrdd cydgysylltiedig o weithio rhwng gwahanol adrannau a gwasanaethau, gan leihau stigma a gwella canlyniadau a chyfleoedd i bobl ifanc sy'n gadael gwasanaethau.

3.209 **Gwahardd system digartrefedd fel llwybr allan o ofal neu gyfiawnder ieuenctid**: mynegodd ymatebwyr gefnogaeth i egluro deddfwriaeth i wahardd defnyddio'r system digartrefedd yn benodol fel llwybr allan o ofal neu gyfiawnder ieuenctid. Roeddent yn pwysleisio pwysigrwydd cynllunio a gwneud trefniadau llety ymlaen llaw ar gyfer y rheini sy'n gadael gofal cymdeithasol neu'r system cyfiawnder ieuenctid, gan sicrhau pontio llyfn ac atal digartrefedd.

*Sylwadau ar heriau'r dull gweithredu*

3.210 **Cydlynu a chydweithredu**: tynnodd ymatebwyr sylw at y diffyg cydlynu a chydweithredu rhwng timau tai a gofal cymdeithasol awdurdodau lleol. Roeddent yn pwysleisio'r angen i ymgysylltu'n well â thai a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y cynigion yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Ystyriwyd bod ymrwymiad gan dai a gwasanaethau cymdeithasol yn hanfodol, ynghyd â gosod llinellau clir o ran rolau a chyfrifoldebau.

3.211 **Dyrannu adnoddau a chyllido**: mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch sicrhau'r cyllid a'r adnoddau angenrheidiol i weithredu'r newidiadau arfaethedig yn effeithiol. Roeddent yn tynnu sylw at yr angen am adnoddau ychwanegol sylweddol i gynyddu capasiti llety a gwasanaethau cefnogi i bobl ifanc. Nodwyd bod diffyg cyllid digonol ar gyfer awdurdodau lleol yn un o achosion y broblem.

3.212 **Cymhlethdod cyfreithiol a pholisi:** ystyriwyd bod cysoni deddfwriaeth digartrefedd â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn dasg gymhleth sy'n gofyn am ddealltwriaeth drylwyr o gymhlethdodau cyfreithiol a pholisi. Hefyd, nodwyd bod angen rhagor o arweiniad a monitro i sicrhau bod y gyfraith bresennol ac unrhyw newidiadau'n cael eu cyfleu a'u gweithredu'n llawn.

3.213 **Argaeledd a darpariaeth tai:** mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch y cyflenwad o lety fforddiadwy addas, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc sengl. Ystyriwyd bod cynyddu'r cyflenwad o dai â chymorth yn benodol ar gyfer pobl ifanc yn angenrheidiol, ynghyd â chyllid refeniw priodol ar gyfer gwasanaethau cefnogi.

3.214 **Galw am staff a gwasanaethau**: soniodd ymatebwyr am gyfyngiadau ar y gweithlu a'r gyllideb o fewn awdurdodau lleol. Roeddent yn tynnu sylw at yr heriau o weithio gyda diffyg staff a mwy o lwythi gwaith, a allai effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir.

*Sylwadau ar ganlyniadau anfwriadol*

3.215 Ar sail y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae nifer o ganlyniadau anfwriadol posibl wedi cael eu nodi mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig, gan gynnwys:

- symud adnoddau: y risg o symud adnoddau oddi wrth boblogaethau eraill sy'n agored i niwed y mae angen gwasanaethau tai a chymorth arnynt (Felly mae'n bwysig ystyried yr effaith ehangach a sicrhau bod y gefnogaeth a ddarperir yn parhau i fod yn gynhwysfawr ac yn gynhwysol)
- oedi posibl wrth weithredu: mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch natur y broses faith wrth ddatblygu polisi ac alinio deddfwriaeth, a allai arwain at oedi wrth ddarparu'r cymorth angenrheidiol i bobl ifanc ac unigolion sydd â phrofiad o ofal
- dadleoli: gallai'r risg o wahardd llety dros dro ar gyfer rhai grwpiau oedran cyn bod dewisiadau amgen addas ar gael arwain at ddadleoli, a gallai hyn arwain at unigolion yn ceisio trefniadau byw amgen, llai diogel
- gwrthwynebiad i newid: tynnodd ymatebwyr sylw at y gwrthwynebiad posibl i newid o ganlyniad

- mwy o bwysau ar wasanaethau: gall y cynnig roi pwysau ychwanegol ar wasanaethau ieuenctid, gwasanaethau tenantiaeth a gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn disgyn rhwng gwasanaethau, yn enwedig rhai 16 ac 17 oed
- prinder staff a llwyth gwaith: nododd ymatebwyr fod rhai gwasanaethau eisoes yn brin o staff a bod llwyth gwaith yn cynyddu. Gallai'r pwysau ychwanegol sy'n deillio o'r cynigion fod yn afrealistig gan arwain at bobl yn methu â chyflawni
- effeithiau niweidiol ar bobl ifanc agored i niwed eraill: mae'n bwysig sicrhau nad yw lletya pobl ifanc sydd wedi gadael y system cyfiawnder ieuenctid yn cael effaith niweidiol ar lesiant pobl ifanc agored i niwed eraill y gallent gael eu lleoli gyda nhw

3.216 I liniaru'r canlyniadau anfwriadol hyn, pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd cynnal asesiadau effaith trylwyr a monitro gweithrediad y newidiadau arfaethedig yn barhaus. Drwy fynd i'r afael â'r pryderon hyn a chymryd camau rhagweithiol, gellir rhoi'r newidiadau arfaethedig ar waith yn fwy effeithiol a heb fawr o effaith negyddol.

**Cwestiwn 17 - A yw ein cynigion yn mynd yn ddigon pell i sicrhau bod pobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn cael cymorth ar y cyd gan y gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol? Beth arall y gellid ei wneud i gryfhau ymarfer a chyflawni'r cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ehangach?**

**Tabl 3.3: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gwestiwn 17**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Ydyn | 15 |
| Na | 5 |
| Amhendant | 42 |
| **Cyfanswm** | **62** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.217 Canfu'r dadansoddiad fod y rhan fwyaf o ymatebion amhendant mewn ymateb i gwestiwn 17. Er mai dim ond dau ymatebydd a roddodd 'na' penodol yn eu hatebion, nid oedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n dangos safbwynt clir, gan gynhyrchu llawer iawn o sylwadau â chafeatau a sylwadau amwys.

*Sylwadau ar beth arall y gellid ei wneud i gryfhau ymarfer*

3.218 Roedd y dadansoddiad yn dangos lefel uchel o gefnogaeth i gryfhau ymarfer. Roedd awgrymiadau'r ymatebwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar gryfhau cyfrifoldebau, atebolrwydd, a goresgyn y materion tymor hir sydd wedi arwain at fethu â rhoi'r gwasanaeth priodol i bobl ifanc 16 ac 17 oed. Yn gryno, galwodd ymatebwyr am y canlynol:

3.219 **Cyfrifoldeb ar y cyd rhwng adrannau gwasanaethau cymdeithasol a thai:** Tynnwyd sylw at y cydweithio rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac adrannau tai fel rhywbeth hanfodol i sicrhau bod pob person ifanc 16 ac 17 oed, yn ogystal â'r rhai sy'n gadael gofal, yn cael eu rhoi mewn llety diogel a sefydlog ar yr un pryd â chael yr amddiffyniad a'r gefnogaeth angenrheidiol.

3.220 **Cydweithredu rhwng asiantaethau:** Mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch rhwystrau i gydweithio effeithiol rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol. Roeddent yn awgrymu gwaith pellach i ddeall y rhwystrau hyn yn well a dod o hyd i ffyrdd o'u goresgyn. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd cydweithrediad gorfodol rhwng cyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys ysgolion, colegau, prifysgolion a lleoliadau addysgol eraill, i gefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn effeithiol. Ystyriwyd bod cyfathrebu clir, gwell dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau, a gwell cydlynu yn ffactorau allweddol.

3.221 **Eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau:** Roedd galw am eglurder penodol ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r gwasanaethau cymdeithasol a'r awdurdodau tai wrth gefnogi'r demograffig bregus hwn. Ystyriwyd bod fframwaith sydd wedi'i ddiffinio'n dda yn hanfodol i sicrhau atebolrwydd a hyrwyddo cydweithio di-dor.

3.222 **Gofal ystyriol o drawma a ffocws ar iechyd meddwl:** Ystyriwyd bod ymgorffori egwyddorion gofal ystyriol o drawma mewn gwasanaethau cymorth ar y cyd a chryfhau'r ffocws ar iechyd meddwl a llesiant yn ystyriaethau pwysig. Awgrymwyd hefyd fynediad at gyfleoedd addysg a chyflogaeth, mynd i'r afael â mathau cudd o ddigartrefedd, a chydweithio â sefydliadau arbenigol yn y trydydd sector.

3.223 **Cefnogaeth i rieni/gwarcheidwaid:** Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen i gynnig cymorth sydd ar gael yn rhwydd i rieni/gwarcheidwaid, yn enwedig y rheini sydd â

chyfrifoldebau gofalu neu anableddau. Byddai'r gefnogaeth hon yn helpu i fynd i'r afael ag anghenion plant/rhieni ifanc ac yn cyfrannu at atal digartrefedd.

3.224 **Hyfforddiant ac arweiniad:** Gwnaed awgrymiadau ar gyfer nodi bylchau o ran sgiliau ac anghenion hyfforddi ymhlith staff sy'n ymwneud â chefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Roedd canllawiau, codau a hyfforddiant clir yn cael eu hystyried yn hanfodol i sicrhau cefnogaeth gyson ac effeithiol.

3.225 **Pontio o ofal maeth:** Mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg sôn yn y Papur Gwyn am bobl ifanc yn pontio o ofal maeth i gynlluniau perthnasol. Argymhellodd yr ymatebwyr y dylid mynd i'r afael â'r bwlch hwn a sicrhau proses bontio ddidrafferth.

3.226 **Darpariaeth llety a chyllid:** Gwnaed argymhellion ar gyfer adolygu a gwella'r ddarpariaeth llety priodol ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol, y sector rhentu preifat, a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i fynd i'r afael â materion fel diffyg gwarantwyr a rhwystrau ariannol.

*Sylwadau ar beth arall y gellid ei wneud i gyflawni cyfrifoldebau rhianta corfforaethol*

3.227 Mae'r ymatebwyr yn awgrymu sawl cam pellach y gellid eu cymryd i gyflawni cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae'r camau hyn yn cynnwys:

- defnyddio tir sy'n eiddo i sefydliadau angori i adeiladu tai addas a llety â chymorth ar gyfer y boblogaeth hon
- datblygu rhaglenni mentora sy'n gofyn i uwch arweinwyr sefydliadau gynnig cefnogaeth ac arweiniad i bobl ifanc, gan ganolbwyntio'n benodol ar addysg a chyflogaeth
- creu cyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith sy'n rhoi blaenoriaeth i blant a phobl ifanc sy'n ddigartref, sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, neu sy'n gadael gofal er mwyn gwella eu sgiliau
- cryfhau rhianta corfforaethol drwy sicrhau bod llety â chymorth priodol ar gael, gan fod deddfwriaeth a chyfraith achosion eisoes yn cefnogi'r cysyniad hwn

- sefydlu fframwaith rhianta corfforaethol cryf sy'n nodi'r gefnogaeth y dylai pobl ifanc sy'n byw ar eu pen eu hunain ei chael, er y dylai'r sefyllfa hon fod yn eithriadol ac yn brin
- sicrhau bod galluoedd ariannol y rhai sy'n gadael gofal yn cael eu datblygu drwy'r broses cynllunio llwybr a darparu cymorth ar gyfer eu hannibyniaeth ariannol
- gwneud y Siarter Rhianta Corfforaethol gwirfoddol yn statudol (ar gyfer cyrff cyhoeddus a enwir) i gyflawni cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ehangach ac annog cyrff eraill i ddatblygu arferion penodol a chydweithio i roi diwedd ar ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc
- darparu eglurder ac arweiniad i sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei gweithredu yn unol â'r bwriad, gan fynd i'r afael â'r dryswch ynghylch cyfrifoldebau
- argymell datblygu llwybr tai penodol ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys rhoi blaenoriaeth i fynediad at wasanaethau cyfryngu i deuluoedd er mwyn cadw llety lle mae'n ddiogel gwneud hynny.

**Cwestiwn 18 - Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 er mwyn caniatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed allu dal contractau meddiannaeth?**

**Tabl 3.4: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gwestiwn 18**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Cytuno | 33 |
| Anghytuno | 10 |
| Amhendant | 21 |
| **Cyfanswm** | **54** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.228 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn, fodd bynnag, mae nifer yr ymatebion amhendant a nodwyd yn y dadansoddiad yn dangos lefel yr amwysedd a'r angen i bwyllo a gydnabyddir wrth ystyried canlyniadau diwygio'r Ddeddf. Roedd ymatebwyr awdurdodau lleol wedi'u rhannu rhwng y rheini a oedd

yn cytuno a'r rheini a oedd yn anghytuno â'r cynnig. Roedd y rhan fwyaf o ymatebion RSL i'r cwestiwn hwn yn amhendant, gyda'r gweddill yn cael eu rhannu rhwng y rheini a oedd yn cytuno a'r rheini a oedd yn anghytuno â'r cynnig. Yn yr un modd, roedd y rhan fwyaf o ymatebion y trydydd sector yn amhendant, er bod lleiafrif bach yn cytuno â'r cynnig.

*Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.229 Roedd sylwadau a oedd yn cefnogi'r gwelliant yn cydnabod yr anawsterau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth geisio llywio drwy'r farchnad rhentu preifat. Nododd ymatebwyr fod pobl ifanc sy'n delio ag ACE yn debygol o fod angen cymorth ychwanegol er mwyn 'cychwyn o'r newydd' mewn ardaloedd newydd a phwysleisiwyd na ddylai unigolion gael eu cosbi oherwydd eu hoedran.

3.230 Cyfeiriwyd hefyd at dystiolaeth gan sefydliadau sy'n cynnig profiad o weithio gyda phobl ifanc i gefnogi'r diwygiad, gydag ymatebwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod rhentu preifat yn aml yn opsiwn anhygyrch heb warantwr. Mae hyn yn rhwystr a wynebir gan bob person ifanc heb berthynas agos sy'n gallu dangos statws ariannol uchel/sefydlog.

*Sylwadau sy'n cytuno mewn egwyddor ond gyda chafeatau*

3.231 Awgrymodd ymatebwyr a oedd yn cytuno mewn egwyddor nifer o gamau posibl y gellid eu cymryd i gefnogi diwygio'r Ddeddf. Er enghraifft, pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod gan denantiaid ifanc y galluoedd a'r aeddfedrwydd angenrheidiol i ddelio â chyfrifoldebau ariannol, rheoli cartref, a gofalu amdanynt eu hunain. Roeddent yn awgrymu y dylid cynnal asesiad i benderfynu a yw'r unigolion hyn yn barod i fyw'n annibynnol ac a oes angen cymorth ychwanegol arnynt neu lety â chymorth.

3.232 Ar ben hynny, tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen am eglurder a ffurfioli hawliau a rhwymedigaethau landlordiaid, asiantau eiddo a thenantiaid mewn perthynas â'r grŵp oedran hwn. Roeddent o'r farn y byddai ffurfioli o'r fath yn darparu fframwaith clir ar gyfer yr holl bartïon dan sylw ac yn sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau.

*Sylwadau a oedd yn anghytuno*

3.233 Ceir crynodeb isod o'r prif resymau a roddodd ymatebwyr dros naill ai anghytuno â'r diwygiad, neu fynegi pryder ynghylch y diwygiad. Yn gyffredinol, mae'r ymatebwyr hyn yn poeni am y risgiau posibl y gallai grŵp sydd eisoes yn cael ei gydnabod fel grŵp sy'n agored i niwed eu hwynebu – heb strategaeth gefnogi ehangach:

3.234 **Gallu a diogelu:** roedd ymatebwyr yn cwestiynu a oes gan bobl ifanc 16 a 17 oed y gallu i reoli a chynnal tenantiaeth yn annibynnol. Mynegwyd pryderon ganddynt am y risgiau posibl o fyw ar eu pen eu hunain a heb gefnogaeth yn y stoc dai gyffredinol, gan dynnu sylw at yr angen am fwy o gyflenwad o fodelau llety â chymorth.

3.235 **Aeddfedrwydd ac annibyniaeth ariannol:** awgrymodd rhai ymatebwyr nad yw rhai pobl ifanc 16 a 17 oed yn ddigon annibynnol yn ariannol i ddal tenantiaeth. Dadleuodd ymatebwyr y byddai unedau cychwynnol neu dai â chefnogaeth yn ateb mwy priodol.

3.236 **Yr angen am gefnogaeth barhaus**: pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd darparu cefnogaeth a mentora parhaus i bobl ifanc i'w galluogi i gynnal tenantiaeth lwyddiannus. Yr oeddent yn tynnu sylw at y diffyg cyfrifoldeb cymdeithasol statudol neu ddyletswyddau ar landlordiaid yn hyn o beth, a allai roi tenantiaid ifanc mewn perygl.

3.237 **Dichonoldeb a pharodrwydd landlordiaid**: mynegwyd pryderon ynghylch dichonoldeb gallu pobl ifanc 16 a 17 oed i fforddio rhent yn yr hinsawdd dai bresennol, o ystyried eu bod yn cael llai o fudd-daliadau lles a'r isafswm cyflog is. Roedd amheuaeth ynghylch a fyddai landlordiaid yn fodlon gosod i'r grŵp oedran hwn oherwydd cyfraith contractau a fyddai'n caniatáu i unigolion dan 18 oed ddirymu contract heb reswm.

3.238 **Diogelu a gweithredu:** mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon am faterion diogelu a gweithredu. Roeddent yn poeni am y posibilrwydd o landlordiaid yn camfanteisio ar rentwyr ifanc a'r angen am ganllawiau llym, asesiad cyson o gapasiti ac aeddfedrwydd, cymorth wedi'i deilwra, a hyfforddiant mewn sgiliau byw'n annibynnol.

3.239 **Risg o fethiant tenantiaeth:** tynnodd ymatebwyr sylw at y risg o fethiant tenantiaeth ymysg pobl ifanc 16 a 17 oed a'r canlyniadau posibl y gallai hyn eu cael ar eu bywyd o ran tai yn y dyfodol. Roeddent o'r farn y gallai'r cynnig hwn beri i bobl ifanc fethu, ac awgrymwyd eu bod yn ystyried opsiynau eraill.

3.240 **Goblygiadau cyfreithiol:** roedd pryderon ynghylch sut mae'r diwygiad arfaethedig yn cyd-fynd â chyfraith contractau, sy'n datgan na all unigolion dan 18 oed fod yn gyfrifol am gontract cyfreithiol. Roedd yr arfer presennol o gynnig Contract Mewn Ymddiriedaeth nes bod yr unigolyn yn troi'n 18 oed yn cael ei ystyried yn ffordd o liniaru'r risg o fethiant tenantiaeth.

3.241 **Mwy o bwysau a galw**: roedd rhai ymatebwyr yn poeni y gallai caniatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed ddal contractau meddiannaeth gynyddu'r pwysau a'r galw am wasanaethau cymorth tai, gan ei gwneud yn anodd diwallu anghenion y grŵp oedran hwn.

3.242 **Cefnogaeth a risgiau ychwanegol**: pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am gymorth dwys i bobl ifanc os ydynt am ddal tenantiaeth yn llwyddiannus. Roeddent yn tynnu sylw at yr anawsterau ariannol posibl, y risgiau o ddigartrefedd, a'r effeithiau negyddol ar iechyd meddwl os bydd tenantiaeth yn methu.

3.243 Yn gyffredinol, pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am ystyriaeth ofalus, ymchwil bellach, a strwythurau cefnogi cynhwysfawr cyn newid y Ddeddf.

**Cwestiwn 19 – Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein hystyriaeth gynnar o gostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a buddion nad ydym wedi rhoi cyfrif amdanynt?**

3.244 Cynhyrchodd y dadansoddiad nifer o themâu a gododd dro ar ôl tro mewn perthynas â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar draws yr ymgynghoriad, ond roedd rhai ymatebion yn arbennig o berthnasol i'r canlyniadau cysylltiedig sy'n ymwneud â'r grŵp oedran dan sylw – mae'r rhain yn cael eu cyflwyno isod.

*Costau na roddwyd cyfrif amdanynt*

3.245 Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr o'r farn bod costau na roddwyd cyfrif amdanynt yn y bennod hon o'r ymgynghoriad. Er bod y gronfa ymatebwyr ar gyfer y crynodeb hwn

yn rhy fach i grwpio adborth yn ystyrlon, nodwyd nifer o gostau y gallai Llywodraeth Cymru fod eisiau eu hystyried:

- awgrymwyd y byddai angen cynyddu'r Grant Cynnal Tai er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc mewn llety addas i gefnogi'r cynnig hwn
- rhaid hefyd ystyried costau gweinyddol, treuliau hyfforddi, a meithrin gallu gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc ddigartref wrth weithredu polisi newydd, yn enwedig polisi sy'n seiliedig ar gydweithio
- awgrymodd tri ymatebydd fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tanamcangyfrif cost cynigion i awdurdodau lleol, yn benodol
- ymhellach i hyn, awgrymodd un ymatebydd fod y diffyg manylion am yr effaith ariannol ar awdurdodau lleol yn eu gwneud yn amharod i ymddiried yn y wybodaeth a ddarparwyd
- gwelwyd bod y costau a adroddwyd i awdurdodau lleol yn deillio o bwysau ychwanegol yn sgil gweithredu'r cynigion hyn, fel costau sefydlu diogel a chostau storio eiddo personol pobl ifanc
- roedd yn bryder y gallai dileu angen blaenoriaethol arwain at ddiffyg blaenoriaethu, gan gynyddu'r costau ar gyfer llety dros dro a llety â chymorth.

*Buddion na roddwyd cyfrif amdanynt*

3.246 Yn debyg i'r sylwadau a wnaed ar gostau, ni nodwyd unrhyw themâu clir yn yr ymatebion; fodd bynnag, roedd y buddion posibl a restrwyd yn cynnwys:

- teimlid bod cyfiawnhad dros gostau tymor byr yn cael ei liniaru gan y manteision tymor hir
- y potensial i leihau'r galw am wasanaethau cymdeithasol a gofal iechyd yn y dyfodol
- creu dinasyddion cynhyrchiol
- y manteision economaidd y gellid eu sicrhau drwy leihau'r costau sy'n gysylltiedig â digartrefedd
- y manteision cymdeithasol a fyddai'n deillio o ganlyniadau addysgol a galwedigaethol gwell, a gwell iechyd meddwl a lles.

## Pennod 4

**Cwestiwn 20 - I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion tymor byr i gynyddu addasrwydd llety? Ydych chi'n credu y dylid cymryd camau ychwanegol ar unwaith at y diben hwn?**

3.247 Roedd y cwestiwn hwn yn cyfeirio at 13 o gynigion unigol ym Mhennod 4, gydag ymatebwyr yn rhoi sylw i bob un o'r cynigion i wahanol raddau. Ystyrir pob cynnig yn ei dro; fodd bynnag, mae'n werth nodi bod natur y cwestiwn a fformat yr arolwg yn effeithio'n sylweddol ar y dadansoddiad meintiol ac ansoddol.

3.248 Yn ogystal, roedd nifer o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn codi pwyntiau a oedd yn anodd eu neilltuo i gynnig penodol, ac felly cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r pwyntiau cyffredinol hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- heriau o ran bodloni safonau addasrwydd
- yr angen am eglurder ac arweiniad
- yr effaith ar grwpiau agored i niwed
- gorfodi a monitro safonau
- yr angen am fuddsoddiadau ariannol a mynd i'r afael â'r cyflenwad tai
- y dull ailgartrefu cyflym.

3.249 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd cynyddu addasrwydd llety ond mynegwyd pryderon ynghylch ymarferoldeb a dichonoldeb cyflawni'r safonau hyn yn y tymor byr. Nodwyd bod y stoc dai gyfyngedig, y galw uchel a chyfyngiadau'r gyllideb yn heriau sylweddol a allai lesteirio'r gwaith o roi'r mesurau arfaethedig ar waith yn llwyddiannus.

3.250 Pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen am ganllawiau clir a manylion penodol ynghylch sut y byddai diwygiadau deddfwriaethol yn cael eu rhoi ar waith i gryfhau'r cyfreithiau presennol. Roeddent yn galw am brosesau cynllunio ac adolygu cynhwysfawr i fynd i'r afael ag amwysedd a sicrhau bod y mesurau arfaethedig yn cael eu dehongli a'u rhoi ar waith yn effeithiol.

3.251 Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd ystyried anghenion ac amgylchiadau grwpiau agored i niwed, fel menywod sengl â babanod ifanc, ceiswyr lloches, ac unigolion â nodweddion gwarchodedig. Roeddent yn pwysleisio'r angen

am ganllawiau clir wrth benderfynu ar addasrwydd llety ar gyfer y grwpiau hyn ac yn eiriol dros opsiynau llety diogel a rennir ac integreiddio i'r gymdeithas ehangach.

3.252 Ystyriwyd bod effeithiolrwydd unrhyw safonau addasrwydd newydd yn ddibynnol ar sefydlu fframwaith effeithiol ar gyfer gorfodi a monitro. Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd bod awdurdodau lleol yn cymryd cyfrifoldeb dros fonitro safonau mewn llety dros dro i sicrhau diogelwch a lles preswylwyr.

3.253 Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod angen mwy o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i sbarduno gwelliannau o ran ansawdd a chyflenwad llety. Roeddent yn tynnu sylw at y diffyg tai fforddiadwy ar hyn o bryd a'r heriau o ran adeiladu llety addas sy'n diwallu anghenion amrywiol y boblogaeth ddigartref. Gofynnwyd am adnoddau ychwanegol, cyfleoedd datblygu strategol, a mynediad at dir sy'n cael ei ddal gan wasanaethau fel iechyd i gynyddu'r cyflenwad tai.

3.254 Er bod y dull ailgartrefu cyflym yn cael ei gefnogi'n gyffredinol, mynegwyd pryderon ynghylch argaeledd llety addas, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc. Nododd ymatebwyr ddiffyg opsiynau tai priodol yn y stoc dai bresennol a galwodd am fwy o ddewisiadau tai fforddiadwy, gan gynnwys darpariaeth iechyd arbenigol ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth uchel.

*Cynnig 1: Sicrhau bod llety gyda Pheryglon Categori 1 bob amser yn anaddas*

**Tabl 4.1: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 1**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Ie | 42 |
| Na | 1 |
| Ddim yn gwybod | 7 |
| Amhendant | 13 |
| Cyfanswm | 63 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.255 Roedd tua hanner yr ymatebwyr awdurdodau lleol yn cytuno â'r cynnig cyntaf hwn; roedd gweddill ymatebion yr awdurdodau lleol yn aneglur neu'n anghytuno. Roedd y rhan fwyaf o RSLs a oedd yn cyfeirio at y cynnig hwn yn eu hymateb i'r cwestiwn

hwn yn cytuno ag ef. Gydag un eithriad (lle nad oedd yr ymateb yn glir), roedd holl ymatebion y trydydd sector a oedd yn cyfeirio at y cynnig hwn yn ei gefnogi.

*Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.256 Cafodd y cynnig hwn gefnogaeth glir, gyda'r ymatebwyr yn cytuno bod y cynnig "yn hanfodol i ddiogelu llesiant unigolion". Tynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd y cynnig hwn drwy gyfeirio at achosion lle mae unigolion wedi marw oherwydd tai o ansawdd gwael, a phwysleisiwyd bod y cam gweithredu hwn yn flaenoriaeth frys.

*Sylwadau a oedd yn anghytuno*

3.257 Er bod hyn yn y lleiafrif, roedd ymatebwyr a oedd naill ai'n anghytuno neu a oedd â phryderon ynghylch y cynnig, yn cwestiynu sut y byddai'r cynnig hwn yn cael ei reoli. Roeddent yn bryderus y byddai'r cynnig hwn yn arwain at ddisgwyliadau afresymol ac ychwanegiadau at lwyth gwaith timau tai, gydag un ymatebydd (yn anghywir) yn dweud mai llysoedd ar hyn o bryd sy'n penderfynu a yw eiddo'n addas i bobl fyw ynddo ai peidio, nid timau iechyd yr amgylchedd. Yn ail, awgrymodd un ymatebydd nad oedd angen y cynnig gan fod yr amodau ar gyfer penderfynu ar addasrwydd yn cael eu cynnwys yn ddigonol yn Neddf Tai Cymru 2004, Deddf Tai Cymru 2014 a Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016.

*Sylwadau ychwanegol*

3.258 Argymhellodd un awdurdod lleol y dylid diweddaru'r Canllawiau Gweithredol i benderfynu a oes gan eiddo beryglon categori 1 neu 2, tra bod ymatebydd arall yn cynnig bod angen diffiniad mwy pendant o lety addas.

*Cynnig 2: Gwahardd mannau cysgu sy'n cael eu rhannu*

**Tabl 4.2: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 2 (Gwahardd mannau cysgu sy'n cael eu rhannu)**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Ie | 37 |
| Na | 2 |
| Ddim yn gwybod | 9 |
| Amhendant | 15 |
| Cyfanswm | 63 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o’r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.259 Cafodd y cynnig hwn ei gymeradwyo gan y rhan fwyaf o’r ymatebwyr; fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yr oedd eu hymateb yn gadarnhaol neu’n amhendant hefyd yn mynegi pryderon; er mwyn osgoi dyblygu materion, mae’r pryderon hyn yn cael eu hamlinellu yn yr adran sylwadau a oedd yn anghytuno. Roedd ymatebion awdurdodau lleol wedi’u rhannu rhwng y rhai a oedd yn cytuno ag ef, y rhai a oedd yn ansicr a’r rhai a oedd yn amhendant. Roedd dau awdurdod lleol yn anghytuno â’r cynnig hwn. Roedd y rhan fwyaf o ymatebion y trydydd sector a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a oedd yn cyfeirio at y cynnig hwn yn cytuno ag ef.

*Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.260 Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â’r cynnig wedi rhannu eu profiadau, neu brofiadau pobl maen nhw wedi’u cefnogi, o fannau cysgu a rennir amhriodol. Roedd y rhesymau dros gefnogi’r cynigion yn cynnwys yr angen i unigolion deimlo’n ddiogel, hawl plentyn i breifatrwydd o dan Erthygl 16 CCUHP, a’r angen i leihau trawma unigolion sy’n ddigartref.

*Sylwadau a oedd yn anghytuno*

3.261 Roedd y sylwadau a oedd yn gwrthwynebu’r cynnig yn dilyn tair thema: yr angen am hyblygrwydd i weddu i’r unigolyn, y galw am lety a’r angen i letya pobl mewn argyfwng.

3.262 Awgrymodd ymatebwyr awdurdodau lleol y byddai gwaharddiad cyffredinol ar fannau cysgu a rennir yn lleihau’r dewis sydd ar gael i ymgeiswyr, ac efallai na fyddai’n addas i bob ymgeisydd. Rhoddwyd enghreifftiau o bobl sy’n cysgu allan a ffoaduriaid a oedd yn ffafrio mannau a rennir oherwydd natur anffurfiol y gwasanaeth, ac awgrymwyd ei fod yn ffordd o ddarparu lloches heb orfod defnyddio tai ffurfiol sy’n golygu cyfrifoldebau ychwanegol nad yw’r ymgeisydd o bosibl yn teimlo y gall eu hysgwyddo. Ar ben hynny, cyfeiriodd un arall at y ffaith y gallai mannau a rennir fod yn addas i deuluoedd (a fyddai’n cael eu caniatáu o dan y cynnig) neu fod yr unig opsiwn addas oherwydd diffyg llety a’r galw am wasanaethau. Mae’r sylw hwn yn awgrymu bod angen egluro *na fyddai’r* cynigion yn gwahardd rhannu mannau cysgu i deuluoedd. O ran y thema olaf, tynnodd

ymatebwyr awdurdodau lleol sylw at yr angen am fannau cysgu a rennir mewn achosion o argyfwng, fel yn ystod y llifogydd a achoswyd gan Storm Dennis, neu oherwydd tywydd oer. Roeddent yn awgrymu y byddai gwaharddiad cyffredinol ar fannau cysgu a rennir yn diystyru hyn.

*Cynnig 3: Cymhwyso'r un safonau ar draws llety preifat a llety awdurdod tai lleol/landlordiaid cymdeithasol cofrestredig neu lety nad yw'n hunangynhwysol neu'n cael ei reoli.*

**Tabl 4.3: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 3**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Ie | 37 |
| Na | 1 |
| Ddim yn gwybod | 6 |
| Amhendant | 19 |
| Cyfanswm | 63 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.263 Roedd y rhan fwyaf o ymatebion Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r trydydd sector a oedd yn cyfeirio at y cynnig hwn yn cytuno ag ef. Roedd ymatebion awdurdodau lleol wedi'u rhannu'n fras rhwng y rheini a oedd yn cytuno â'r cynnig a'r rheini a oedd yn ansicr. Roedd lleiafrif bach o ymatebwyr awdurdodau lleol yn ansicr, ac roedd un ymatebydd o'r awdurdod lleol yn anghytuno'n llwyr â'r cynnig.

*Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.264 Roedd ymatebwyr yn gyffredinol o blaid y cynnig hwn, gan dynnu sylw at yr eglurder y byddai'n ei roi i ymgeiswyr a'r angen am lety o ansawdd da ar draws deiliadaethau.

*Sylwadau a oedd yn anghytuno*

3.265 Mynegodd ymatebwyr bryder ynghylch y cyflenwad llety, a'r angen am hyblygrwydd i ganiatáu i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau statudol. Awgrymodd un awdurdod lleol y byddai'r polisi'n creu rhagor o brinder mewn llety dros dro ac y byddai angen cyllid ychwanegol ar gyfer gweinyddu a gorfodi'r safonau yn y sector preifat. Tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith bod awdurdodau lleol a

chymdeithasau tai yn elwa o eithriad ar hyn o bryd, a fyddai'n rhoi straen ar systemau sydd eisoes wedi'u gorlwytho.

*Cynnig 4: Cynnwys dewis yn y system*

**Tabl 4.4: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 4**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Ie | 37 |
| Na | 3 |
| Ddim yn gwybod | 7 |
| Amhendant | 16 |
| Cyfanswm | 63 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.266 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr LCC a'r trydydd sector a oedd yn cyfeirio at y cynnig hwn yn eu hymateb yn cytuno ag ef. Roedd mwyafrif bach o ymatebwyr awdurdodau lleol hefyd yn cytuno ag ef. Roedd y tri ymateb a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn i gyd gan awdurdodau lleol.

*Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.267 Roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig yn dadlau y gall paru anaddas effeithio'n andwyol nid yn unig ar yr unigolyn sy'n chwilio am lety ond hefyd ar eraill yn eu cartref, eu cymdogion, y gymuned ehangach, a staff cymorth tai. Pan fydd gwasanaethau'n ystyried anghenion a dewisiadau penodol unigolyn, maent yn credu bod y lleoliad a'r contract yn fwy tebygol o lwyddo. Ar ben hynny, roeddent yn awgrymu bod disgwyl iddynt ddadwreiddio eu bywydau a symud ymhell o'r ardal o'u dewis yn annheg ac yn afrealistig. Maen nhw'n awgrymu bod caniatáu i unigolion ddewis ardal yn eu helpu i gynnal eu cysylltiadau cymdeithasol ac yn lleihau'r tebygolrwydd o syrffio soffas neu gysgu allan.

3.268 Tynnwyd sylw at yr angen i ystyried amgylchiadau personol drwy sgyrsiau ystyrlon. Tynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cymryd rhan mewn sgyrsiau ystyrlon gydag ymgeiswyr i ddeall eu hanghenion a'u dewisiadau penodol. Roeddent yn dadlau y gallai'r dull presennol o baru systemau heb ystyried amgylchiadau unigol arwain at ddiffyg cyfatebiaeth rhwng ymgeiswyr ac eiddo. Maent yn awgrymu y gall cymryd yr amser i ddeall beth sy'n bwysig i ymgeiswyr helpu i sicrhau gwell

penderfyniadau wrth ddyrannu. Fodd bynnag, maent yn rhybuddio rhag gwneud datganiadau neu ofynion llym ynghylch hyn, gan y gallai greu disgwyliadau afrealistig sy'n anodd eu bodloni. Roeddent yn pwysleisio pwysigrwydd gallu cyflawni'r ddyletswydd drwy ddarparu llety addas, hyd yn oed os nad yw'n cyd-fynd â dymuniadau datganedig yr aelwyd. Er enghraifft, gallai fforddiadwyedd ac argaeledd mewn ardal a ddewisir neu a ffefrir gyfyngu ar yr opsiynau sydd ar gael i aelwyd, ac felly efallai na fydd eiddo yn yr ardal honno ar gael fel lleoliad addas.

*Sylwadau a oedd yn anghytuno*

3.269 Roedd y rheini a oedd naill ai'n anghytuno â'r cynnig neu a oedd â phryderon yn teimlo bod y cynnig yn anghyson â dileu angen blaenoriaethol, y gallai o bosibl roi disgwyliadau afrealistig i gleientiaid, ac y byddai'n anodd gyda'r argyfwng digartrefedd a thai presennol.

*Cynnig 5: Sicrhau nad yw lleoliad mewn llety gorlawn byth yn addas adeg cyflawni'r brif ddyletswydd tai*

**Tabl 4.5: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 5**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Ie | 37 |
| Na | 3 |
| Ddim yn gwybod | 6 |
| Amhendant | 17 |
| Cyfanswm | 63 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.270 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr LCC a'r trydydd sector a oedd yn cyfeirio at y cynnig hwn yn eu hymateb yn cytuno ag ef. Roedd ymatebion awdurdodau lleol wedi'u rhannu'n bennaf rhwng y rhai a oedd yn cytuno â'r cynigion a'r rhai a oedd yn aneglur. Roedd y tri ymateb a oedd yn anghytuno â'r cynnig i gyd gan awdurdodau lleol.

*Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.271 Roedd ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig yn gwneud hynny oherwydd y dewis a fynegwyd gan aelwydydd sydd wedi profi digartrefedd a phryderon am amodau

byw a diogelwch. Awgrymodd ymatebwyr fod llawer o aelwydydd sy'n nodi eu bod yn ddigartref yn dweud eu bod yn ffafrio byw dros dro gyda ffrindiau neu berthnasau yn hytrach na chael eu rhoi mewn llety gorlawn neu lety brys fel llety gwely a brecwast neu leoliadau llety dros dro eraill. Yn ogystal, roedd cefnogwyr y cynnig yn tynnu sylw at bryderon ynghylch amodau byw mewn llety gorlawn, yn enwedig ar gyfer teuluoedd a phobl ifanc. Ystyrir bod lleoli teuluoedd mewn sefyllfaoedd gorlawn yn annerbyniol, ac mae pobl ifanc wedi mynegi amharodrwydd i fyw mewn llety a rennir oherwydd pryderon ynghylch preifatrwydd a dwyn. Roedd cydnabyddiaeth efallai na fyddai trefniadau byw gorlawn yn darparu'r lefel angenrheidiol o gysur, diogelwch ac annibyniaeth i unigolion a theuluoedd. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn tynnu sylw at bryderon ynghylch y diffyg eglurder o ran diffinio "llety a rennir", a sut mae gorlenwi yn cael ei gyfrifo.

*Sylwadau a oedd yn anghytuno*

3.272 Roedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig neu a oedd yn poeni am ei roi ar waith yn gwneud hynny oherwydd diffyg llety addas i deuluoedd mwy, mae'r cynnig yn cyfyngu ar ddewis a hyblygrwydd aelwydydd, a'r angen am gyllid ychwanegol ac atebion ymarferol i fodloni'r cynnig hwn.

*Cynnig 6: Gwahardd pobl ifanc rhag defnyddio llety dros dro heb gymorth*

**Tabl 4.6: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 6**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Ie | 37 |
| Na | 4 |
| Ddim yn gwybod | 10 |
| Amhendant | 12 |
| Cyfanswm | 63 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.273 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr LCC a'r trydydd sector a oedd yn cyfeirio at y cynnig hwn yn cytuno ag ef. Roedd ymatebwyr awdurdodau lleol wedi'u rhannu'n weddol gyfartal rhwng y rheini a oedd yn ansicr, y rheini a oedd yn cytuno a'r rheini a oedd yn anghytuno â'r cynnig.

*Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.274 Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn cyfeirio at yr angen i ganolbwyntio ar drawma a llesiant, diogelwch a diogeledd pobl ifanc, a'r angen am gymorth sy'n briodol i oedran oherwydd y profiadau y mae pobl ifanc wedi'u cael.

3.275 Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at effaith negyddol llety dros dro heb gymorth ar iechyd meddwl a lles pobl ifanc. Roeddent yn pwysleisio bod digartrefedd ei hun yn brofiad trawmatig ac yn pwysleisio pwysigrwydd darparu cymorth priodol i fynd i'r afael ag anghenion iechyd corfforol a meddyliol, problemau camddefnyddio sylweddau ac anghenion cyfiawnder troseddol.

3.276 Mynegodd ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch diogelwch a diogeledd pobl ifanc mewn llety dros dro. Soniodd ymatebwyr am ddiffyg cloeon ar ystafelloedd, sy'n gwneud iddynt deimlo'n ofnus am eu diogelwch corfforol ac yn poeni am ddiogelwch eu heiddo. Roeddent yn dadlau y dylai sicrhau diogelwch corfforol fod yn flaenoriaeth, gan gynnig y dylai llety heb gloeon diogel fod yn lleoliadau anaddas.

3.277 Pwysleisiodd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig yr angen am gefnogaeth sy'n briodol i oedran ar gyfer pobl ifanc mewn llety dros dro. Roeddent yn pwysleisio y dylai'r cymorth fod yn ystyriol o drawma ac wedi'i deilwra i anghenion a phrofiadau penodol pobl ifanc.

3.278 Fodd bynnag, mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch argaeledd ac ansawdd gwasanaethau cymorth i bobl ifanc sy'n ddigartref. Maen nhw'n dadlau bod yna ddiffyg cymorth o ansawdd da sy'n ystyriol o drawma ac sydd ar gael 24/7. Maent hefyd yn tynnu sylw at anghenion cymorth cynyddol pobl ifanc a'r pwysau y mae'n ei roi ar y capasiti llety â chymorth presennol.

*Sylwadau a oedd yn anghytuno*

3.279 Roedd ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn gwneud hynny oherwydd cyfyngiadau o ran adnoddau, cyfyngiadau ar ddewis, yr angen am hyblygrwydd oherwydd achosion eithriadol a bod y cynnig yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch bod yn agored i niwed.

3.280 Y thema a gododd dro ar ôl tro yn y bennod hon oedd y pryder ynghylch cyfyngiadau ar adnoddau a'r diffyg dewisiadau eraill yn lle llety dros dro heb gymorth.

3.281 Roedd yr ail thema a ddaeth i'r amlwg yn ymwneud ag addasrwydd gwahanol fathau o lety i bobl ifanc. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y gall llety a rennir fod o fudd i leihau arwahanrwydd cymdeithasol, rhannu treuliau, a darparu cymorth cydfuddiannol. Roeddent hefyd yn tynnu sylw at y ffaith nad yw llety hunangynhwysol o bosibl yn fforddiadwy i bobl ifanc oherwydd cyfyngiadau yn y system fudd-daliadau. Codwyd pryderon ynghylch canlyniadau negyddol posibl gorfodi pobl ifanc sy'n gyfarwydd â llety hunangynhwysol i amgylcheddau a rennir. Ar ben hynny, roedd galw am asesiadau unigol o angen yn hytrach na dull un ateb i bawb yn seiliedig ar oedran yn unig. Roedd hyn yn ymwneud â'r angen am hyblygrwydd yn y ddeddfwriaeth arfaethedig, yn enwedig mewn perthynas â phobl ifanc 16-17 oed. Dadleuodd ymatebwyr y dylid cael lle ar gyfer achosion eithriadol lle gallai fod angen llety amgen mewn argyfwng, hyd yn oed os mai dim ond am gyfnod byr y byddai hynny.

3.282 Yn olaf, awgrymodd ymatebwyr fod y cynnig yn gwneud tybiaethau ynghylch pa mor agored i niwed yw pobl ifanc a'u hanghenion cymorth. Roedd ymatebwyr yn dadlau nad oes angen llety â chymorth ar bob person ifanc ac y gellir darparu cymorth mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys eiddo prif ffrwd gyda chymorth fel y bo'r angen. Roedd beirniadaeth hefyd o dybio mai dim ond y rhai sydd wedi profi digwyddiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) neu ddigwyddiadau trawmatig fydd yn dod yn ddigartref.

3.283 Yn ogystal â'r uchod, gofynnodd ymatebwyr am eglurder ynghylch yr hyn sy'n cyfrif fel llety â chymorth, ac awgrymwyd y gallai fod potensial i wahaniaethu rhwng pobl ifanc 16-17 oed a phobl ifanc 18-25 oed.

*Cynnig 7: Lleoliad*

**Tabl 4.7: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 7**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Ie | 37 |
| Na | 1 |
| Ddim yn gwybod | 12 |
| Amhendant | 12 |
| Cyfanswm | 63 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o’r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.284 Unwaith eto, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o’r sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a’r trydydd sector a gyfeiriodd at y cynnig hwn yn gefnogol iddo. Roedd ymatebion awdurdodau lleol wedi’u rhannu’n bennaf rhwng y rheini a oedd yn cytuno â’r cynnig a’r rheini a oedd yn ansicr. Roedd un ymatebydd o’r awdurdod lleol yn anghytuno â’r cynnig.

*Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.285 Awgrymodd ymatebwyr a oedd yn cefnogi’r cynnig y gall symud i leoliad newydd achosi “problemau difrifol” i bobl sy’n ddigartref. Ystyriwyd bod ystyried lleoliad a chefnogaeth yn bwysig ar gyfer cynnal tenantiaethau yn y dyfodol ac y dylid cynnwys agosrwydd at rwydweithiau cefnogaeth teulu a ffrindiau ehangach hefyd. Awgrymodd un ymatebydd y dylai’r dull hwn gael effaith ar ddarparu tai newydd ledled Cymru gyda’r angen i adeiladu tai gyda mynediad i ysgolion, cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau. Awgrymodd ymatebwyr na fyddai’r cynnig yn ymarferol yn y tymor byr oherwydd yr amgylchiadau presennol a gofynnwyd am eglurder ynghylch yr amserlen a gynigir.

*Pryderon*

3.286 Er bod y cynnig hwn yn cael cefnogaeth eang, mynegodd ymatebwyr bryderon oherwydd yr argyfwng tai, gwahanol amgylchiadau a heriau a wynebir gan ardaloedd gwledig, a diffyg eglurder canfyddedig ynghylch y diffiniad o “bellter teithio rhesymol”.

*Cynnig 8: Ystyried anghenion cymorth ehangach*

**Tabl 4.8: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 8**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Ie | 37 |
| Na | 2 |
| Ddim yn gwybod | 7 |
| Amhendant | 17 |
| Cyfanswm | 63 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o’r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.287 Ymysg yr awdurdodau lleol a gyfeiriodd at y cynnig hwn yn benodol yn eu hymateb i gwestiwn 20, roedd 4 yn cytuno ag ef, roedd 3 yn ansicr ac roedd 2 yn anghytuno â'r cynnig, ac roedd y gweddill yn amhendant. Ac eithrio 2 ymateb trydydd sector a oedd yn aneglur, roedd pob ymatebydd trydydd sector a oedd yn cyfeirio at y cynnig hwn yn cytuno ag ef. Yn yr un modd, er bod 2 RSL yn anghytuno'n llwyr â'r cynnig hwn, roedd gweddill yr ymatebion RSL a oedd yn cyfeirio at y cynnig yn cytuno ag ef.

3.288 Cafodd y cynnig hwn gefnogaeth eang ar draws pob sector, yn enwedig mewn perthynas â goroeswyr cam-drin domestig, plant a phobl ifanc, pobl ag anghenion addysgol arbennig a'r niwroamrywiol, a'r rheini sydd ag anghenion iaith. Gwerthfawrogwyd bod y Papur Gwyn yn cydnabod rhwydweithiau cefnogi sy'n ehangach na'r teulu. Fodd bynnag, dywedodd un awdurdod lleol fod hyn eisoes yn ystyriaeth wrth benderfynu ar addasrwydd ac awgrymodd nad oes angen newid.

*Cynnig 9: Llety sy'n ddiwylliannol briodol*

**Tabl 4.9: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 9**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Ie | 37 |
| Na | 1 |
| Ddim yn gwybod | 7 |
| Amhendant | 18 |
| Cyfanswm | 63 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.289 Roedd bron pob un o'r ymatebwyr a gyfeiriodd yn benodol at y cynnig hwn yn ei gefnogi. Daeth yr un ymateb a oedd yn anghytuno'n benodol â'r cynnig gan awdurdod lleol. Roedd y lleiafrif o ymatebwyr a oedd yn ansicr ynghylch y cynnig penodol hwn naill ai'n ymatebwyr awdurdod lleol neu LCC. Er y cydnabuwyd bod y cynnig yn canolbwyntio'n benodol ar gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, awgrymodd ymatebwyr ei bod yn bwysig bod y cymunedau hynny'n cael y dewis er mwyn sicrhau nad dim ond tybio a wneir y byddai'n well ganddynt gael eu cartrefu ar safle. Roeddent hefyd yn awgrymu bod angen i'r cynnig hwn fod yn rhan o gynllun hirdymor i sicrhau bod digon o safleoedd sy'n briodol yn ddiwylliannol ar

gael. Hefyd, awgrymodd ymatebwyr y dylid ymestyn y cynnig i sicrhau llety sy'n briodol yn ddiwylliannol y tu hwnt i'r cymunedau hyn, er enghraifft, gan awgrymu y gallai fod yn briodol i fenywod y mae eu crefydd yn gwahardd rhannu llety â dynion.

*Cynnig 10: Polisi a chanllawiau cefnogi ehangach*

**Tabl 4.8: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 10**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Ie | 37 |
| Na | 1 |
| Ddim yn gwybod | 6 |
| Amhendant | 20 |
| Cyfanswm | 63 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.290 Dim ond un ymatebydd (awdurdod lleol) a oedd yn rhoi sylw i'r cynnig hwn a awgrymodd yn benodol y dylai unrhyw ganllawiau a pholisi cefnogi ehangach fod yn hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer achosion lle mae rheolau "tŷ" yn angenrheidiol oherwydd lefel y risg a berir gan rai unigolion a'r angen i gadw staff yn ddiogel, a chynnal cefnogaeth y gymuned leol.

*Cynnig 11: Digartrefedd gartref*

**Tabl 4.11: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 11**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Ie | 37 |
| Na | 1 |
| Ddim yn gwybod | 7 |
| Amhendant | 18 |
| Cyfanswm | 63 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.291 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gyfeiriodd at y cynnig penodol hwn mewn ymateb i gwestiwn 20 o blaid y cynnig. Roedd un awdurdod lleol yn gwrthwynebu'r cynnig.

*Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.292 Roedd y rhai a oedd o blaid y cynnig yn canmol y dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a fyddai'n cynyddu dewis pobl, a fyddai'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i awdurdodau lleol gefnogi pobl, ac y byddai'n rhoi sicrwydd i aelodau'r teulu bod gan eu perthynas yr un lefel o flaenoriaeth ag unrhyw aelwyd arall mewn llety dros dro. Yn ogystal, awgrymodd ymatebwyr yr angen am arweiniad pellach i sicrhau bod y cynllun yn gyson ar draws Cymru, ac nad yw'n cael ei gamddefnyddio i sicrhau tai cymdeithasol.

*Sylwadau a oedd yn anghytuno*

3.293 Dim ond un ymateb oedd yn anghytuno'n benodol â'r dull gweithredu a gynigiwyd, gan awgrymu y gallai arwain at y canlyniad anfwriadol o rieni'n gofyn i'w plentyn adael cartref yn 18 oed gan y byddent yn teimlo'n "hyderus y bydd yr awdurdod lleol yn caniatáu iddynt aros yng nghartref eu rhieni hyd nes y deuir o hyd i eiddo addas". Roedd ymatebwyr eraill a gynigiodd ymateb cymysg yn awgrymu bod angen mwy o arweiniad ac archwilio'r canlyniadau anfwriadol a allai godi o ganlyniad i'r Cynllun Digartrefedd Gartref.

*Cynnig 12: Casglu Data*

**Tabl 4.12: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 12**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Ie | 35 |
| Na | 0 |
| Ddim yn gwybod | 6 |
| Amhendant | 22 |
| Cyfanswm | 63 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.294 Dim ond dau sylw oedd yn cyfeirio'n benodol at y cynnig ar gasglu data, gyda'r cyntaf yn croesawu'r cynigion gyda'r cyfle i ddiwygio ffurflenni data i gasglu data

ynghylch pwy sy'n cael llety. Teimlent y byddai'n galluogi gwerthuso'r newid i ddull ailgartrefu cyflym. Fodd bynnag, mynegodd ymatebydd awdurdod lleol bryderon ynghylch y baich ychwanegol a allai gael ei roi ar awdurdodau lleol ac awgrymodd fod angen rhagor o fanylion am yr amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu a chanllawiau cyn rhoi rhagor o sylwadau.

*Cynnig 13: Cynigion ar gyfer gwella llety dros dro yn y tymor hwy*

**Tabl 4.13: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 13**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Ie | 35 |
| Na | 0 |
| Ddim yn gwybod | 6 |
| Amhendant | 22 |
| Cyfanswm | 63 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.295 Dim ond un ymatebydd a gyfeiriodd yn benodol at y cynnig hwn gan ddweud, er eu bod yn cymeradwyo'r cynnig fel cam pwysig tuag at godi'r safonau sylfaenol ar gyfer llety dros dro, eu bod yn credu bod angen i'r amserlenni fod yn realistig ac yn gyraeddadwy o ystyried yr argyfwng tai presennol.

**Cwestiwn 21 - I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion ynghylch dyrannu tai cymdeithasol a rheoli rhestrau aros tai? Yn eich barn chi, beth fydd canlyniadau'r cynigion hyn?**

3.296 Roedd y cwestiwn hwn yn cyfeirio at 9 o gynigion unigol ym Mhennod 4, gydag ymatebwyr yn rhoi sylw i bob un o'r cynigion i wahanol raddau. Bydd pob cynnig yn cael ei ystyried yn ei dro, fodd bynnag, mae'n werth nodi bod natur y cwestiwn a fformat yr arolwg wedi effeithio'n sylweddol ar y dadansoddiad meintiol ac ansoddol.

*Sylwadau cyffredinol*

3.297 Cafwyd nifer o sylwadau gan ymatebwyr na ellid eu priodoli i unrhyw un cynnig. Roedd y rhain yn cynnwys:

- pwysigrwydd nid canolbwyntio'n unig ar dai i unigolion digartref ond hefyd i fynd i'r afael ag anghenion tai acíwt poblogaethau bregus eraill er mwyn atal

digartrefedd. Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at yr angen am ganllawiau cryfach i sicrhau bod pobl sy'n ddigartref yn gallu cael gafael ar dai cymdeithasol, gan gynnwys mynd i'r afael â pholisïau cyfyngol fel cymalau cyffredinol yn gwahardd anifeiliaid anwes.

- rôl awdurdodau lleol wrth weithredu polisïau gosod lleol a'r angen am gydweithio rhwng awdurdodau tai a'r sector rhentu preifat i ddiwallu anghenion tai.
- cymhlethdod dyraniadau tai cymdeithasol gyda chefnogaeth i'r argymhelliad am ragor o ymchwil yn y maes hwn i ddeall sut y gall dyraniadau weithio'n fwy effeithiol. Roeddent hefyd yn awgrymu archwilio arferion da presennol ac ystyried rôl hirdymor tai cymdeithasol o ran rhoi diwedd ar ddigartrefedd.
- pryderon ynghylch hyd a natur hen ffasiwn rhestrau aros am dai gyda phwyslais ar yr angen i fynd i'r afael â'r prinder unedau tai cymdeithasol addas ac effaith bosibl blaenoriaethu lleihau rhestrau aros ar draul anghenion unigol
- mynegodd ymatebwyr bryderon dro ar ôl tro am ganlyniadau anfwriadol y diwygiadau arfaethedig, fel digartrefedd yn dod yn llwybr at dai cymdeithasol

*Cynnig 1: Rydym yn cynnig darpariaeth ddeddfwriaethol newydd a fydd yn egluro na all Landlord Cymdeithasol Cofrestredig wrthod atgyfeiriad gan awdurdod tai lleol yn afresymol, o fewn cyfnod penodol, ac eithrio mewn amgylchiadau penodol.*

Tabl 4.14: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 1

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Ie | 34 |
| Na | 9 |
| Ddim yn gwybod | 3 |
| Amhendant | 12 |
| Cyfanswm | 58 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.298 Roedd bron pob un o ymatebion yr awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn cytuno â'r cynnig hwn, ac nid oedd y rhan fwyaf o RSLs a oedd yn cyfeirio at y cynnig penodol hwn yn eu hymateb i gwestiwn 21 yn cytuno ag ef.

*Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.299 Gellir crynhoi'r gefnogaeth i'r cynnig hwn i'r themâu canlynol:

- cryfhau cydweithredu: roedd y cefnogwyr yn credu y byddai'r cynnig yn gwella'r cydweithredu rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, gan wella ymdrechion ailgartrefu
- blaenoriaeth i gleientiaid digartrefedd: mae'r cynnig yn rhoi blaenoriaeth i gleientiaid digartrefedd, gan sicrhau gwell mynediad at dai cymdeithasol
- atebolrwydd a thryloywder: mae angen rheoliadau a chanllawiau clir i ddal RSLs yn atebol am benderfyniadau dyrannu
- mynd i'r afael â phryderon ynghylch dewis a dethol: gallai'r cynigion helpu i fynd i'r afael â phryderon ynghylch rhai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn dewis tenantiaid yn seiliedig ar sefydlogrwydd neu anghenion cymorth
- rheoli adnoddau: efallai y bydd angen adnoddau ychwanegol i reoli'r baich gwaith cynyddol sy'n deillio o'r darpariaethau newydd

*Sylwadau a oedd yn anghytuno*

3.300 Roedd y themâu a ddaeth i'r amlwg gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig, neu'r rhai yr oedd yn ymddangos eu bod yn cytuno â'r cafeatau, yn cynnwys:

- tanseilio cytundebau partneriaeth: dadleuodd gwrthwynebwyr y byddai'r cynnig yn tanseilio'r cytundebau partneriaeth presennol a'r berthynas waith rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, sy'n hanfodol ar gyfer creu cymunedau cytbwys a chynaliadwy. Mynegodd ymatebwyr amheuon penodol ynghylch a yw defnyddio deddfwriaeth gosbol i orfodi dyraniadau yn meithrin y berthynas iawn rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig
- angen am lety a chefnogaeth addas: pwysleisiodd y beirniaid fod dyrannu cynaliadwy yn gofyn am lety addas a'r gefnogaeth angenrheidiol cyhyd ag y bo angen. Roeddent o'r farn bod angen i'r capasiti a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r ddeddfwriaeth hon fod yn eu lle.

- pryderon ynghylch “gwrthodiad afresymol” ac “amgylchiadau penodedig”: galwyd am eglurder ynghylch beth yw “gwrthodiad afresymol” ac “amgylchiadau penodedig.” Roedd rhai gwrthwynebwyr yn cwestiynu a fyddai diffyg cyflenwad addas yn cael ei ystyried yn rheswm dros wrthod. Roeddent hefyd yn argymell y dylai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fod yn rhan o ddatblygu canllawiau a rhestr wrthod resymol gyda’r sector
- effaith ar gydlyniant cymunedol: dadleuodd gwrthwynebwyr y gallai galluogi awdurdodau lleol i orfodi dyraniadau amharu ar gydlyniant cymunedol a chreu rhwystrau rhwng sefydliadau. Roeddent yn pwysleisio pwysigrwydd gallu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gyfateb anheddau i anghenion penodol ymgeiswyr tra’n ystyried y goblygiadau i gymunedau
- canolbwyntio ar fecanweithiau amgen: awgrymodd rhai gwrthwynebwyr y dylid canolbwyntio’r sylw ar gryfhau partneriaethau a datblygu polisïau dyrannu cyffredin yn hytrach na chyflwyno gofynion deddfwriaethol. Roeddent yn cynnig archwilio opsiynau aneddfwriaethol, fel rheoleiddio, casglu data, a chynyddu cofrestri tai cyffredin a pholisïau dyrannu cyffredin, gan dynnu sylw at effeithiolrwydd penderfyniadau rheoli o ran sicrhau dyraniadau priodol

*Cynnig 2 Prawf Ymddygiad Annerbyniol*

**Tabl 4.16: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 2**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Ie | 24 |
| Na | 5 |
| Ddim yn gwybod | 6 |
| Amhendant | 23 |
| Cyfanswm | 58 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o’r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.301 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr awdurdodau lleol a’r trydydd sector a gyfeiriodd at y cynnig hwn yn cytuno ag ef. Roedd dau ymatebydd o blith yr awdurdodau lleol ac un ymatebydd o blith y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn anghytuno â’r cynnig.  Nid oedd yr un o’r ymatebwyr LCC yn cytuno’n llwyr â’r cynnig hwn.

3.302 *Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.303 Daeth sawl thema i'r amlwg i gefnogi'r cynnig yn ymwneud â'r "Prawf Ymddygiad Annerbyniol":

- mynegodd nifer o ymatebwyr bryder bod yna ddiffyg eglurder a monitro yn y prawf presennol, sy'n arwain at gymhwyso'r prawf yn anghyson ar draws gwahanol awdurdodau lleol, gan arwain at ganlyniadau anghyson ac anghyfiawn. Credent y byddai safoni cymhwyso'r prawf yn sicrhau triniaeth deg i bob ymgeisydd. Awgrymwyd "tynhau" y prawf, a fyddai'n caniatáu i awdurdodau lleol eithrio pobl berthnasol o'r rhestr aros am dai
- awgrymwyd y gallai'r cynnig helpu i fynd i'r afael â beio dioddefwyr, er enghraifft: atal goroeswyr cam-drin domestig ac ariannol rhag cael eu cosbi oherwydd bod ganddynt hanes o ôl-ddyledion rhent uchel heb unrhyw fai arnynt hwy eu hunain. Awgrymodd un ymatebydd y dylid datblygu canllawiau ar gyfer cymhwyso'r prawf ar y cyd â'r sector trais rhywiol a cham-drin domestig arbenigol.

Awgrymwyd hefyd y gallai'r adolygiad arfaethedig o'r prawf ymddygiad annerbyniol alluogi dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma mewn achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus ac ôl-ddyledion rhent uchel. *Pryderon*

3.304 Er bod cefnogaeth eang i'r cynigion, daeth nifer o bryderon i'r amlwg, gan gynnwys:

- canfyddiad o arwyddocâd troseddol: mynegodd rhai unigolion bryder bod geiriad y prawf, yn benodol y cyfeiriad at "euog o ymddygiad annerbyniol," yn awgrymu ymddygiad lled-droseddol
- pryder y gallai'r prawf arfaethedig roi pobl ifanc niwrowahanol ac anabl dan anfantais annheg
- dylid cynnwys rhagor o eglurder, mesurau diogelu, a dealltwriaeth o effaith niwrowahaniaeth ar fywydau unigolion yn y prawf
- roedd rhai ymatebwyr yn cynnig y dylai'r prawf ond ystyried ymddygiad presennol yn hytrach nag ymddygiad blaenorol, gyda phŵer (yn hytrach na dyletswydd) i ystyried patrymau ymddygiad yn y gorffennol (roedd hyn yn cael ei weld fel ffordd o wreiddio egwyddor hawliau a chyfrifoldebau)

- a ddylid cynnwys ôl-ddyledion rhent yn y diffiniad o ymddygiad annerbyniol. (yn deillio o ddiffyg eglurder yn y ddeddfwriaeth a'r posibilrwydd o ddileu ôl-ddyledion rhent fel ystyriaeth)
- awgrymiadau bod angen diwygiadau i sicrhau arweiniad a chysondeb clir i awdurdodau lleol wrth ystyried y Prawf Ymddygiad Annerbyniol – nodwyd bod y gofid posibl a achosir i ddeiliaid contract a'r tarfu ar gydlyniant cymunedol yn ganlyniadau posibl

*Cynnig 3: Y pŵer i dynnu pobl nad oes ganddynt anghenion tai oddi ar y rhestr aros*

**Tabl 4.17: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 3**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Cytuno | 28 |
| Anghytuno | 11 |
| Ddim yn gwybod | 6 |
| Amhendant | 13 |
| Cyfanswm | 58 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.305 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr awdurdodau lleol a oedd yn cyfeirio at y cynnig penodol hwn yn cytuno ag ef (roedd un yn anghytuno a dau yn ansicr). Roedd ymatebion Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig naill ai'n amhendant, yn anghytuno â'r cynnig neu'n ansicr.  Roedd yr ymatebwyr trydydd sector wedi'u rhannu'n weddol gyfartal rhwng y rheini a oedd yn cytuno, y rheini a oedd yn anghytuno a'r rheini a oedd yn ansicr.

*Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.306 Roedd dau ymatebydd, a'r ddau yn awdurdod lleol, yn cefnogi'r cynnig hwn ar sail y baich gweinyddol o reoli rhestrau aros a'r nifer uchel o bobl sydd ar eu rhestrau aros ar hyn o bryd heb anghenion tai. Roeddent hefyd yn awgrymu y byddai cael rhestr yn seiliedig ar angen yn unig yn rhoi darlun cliriach o'r angen am dai i ddatblygwyr a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Er eu bod yn cefnogi'r cynnig, mynegwyd pryderon ganddynt hefyd y gallai arwain at fwy o waith i awdurdodau lleol o ran rheoli rhestrau aros i asesu'r angen, ac y gallai ymgeiswyr herio'r awdurdod lleol, gan arwain at ddefnyddio mwy o adnoddau. Pwysleisiodd un

o gefnogwyr y cynnig yr angen am ddiffiniad manylach o anghenion tai, tra bod un arall yn cynnig, pan fydd unigolyn yn cael ei dynnu oddi ar restr, y dylai'r awdurdod lleol gysylltu ag ef a'i gyfeirio at opsiynau addas yn y sector rhentu preifat.

*Sylwadau a oedd yn anghytuno*

3.307 Roedd y pwyntiau a godwyd wrth wrthwynebu'r cynnig fel a ganlyn:

- pryderon am ganlyniadau anfwriadol ac atchweliad gwaith cadarnhaol a wneir i wella'r canfyddiad o dai cymdeithasol
- amheuaeth ynghylch y gostyngiad ym maint y rhestr aros a'r potensial i unigolion heb anghenion tai chwilio am gategorïau amgen neu ddyletswyddau digartrefedd i gael mynediad at y gofrestr
- cynnydd posibl mewn llwyth gwaith swyddogion oherwydd cwynion ac ymholiadau gan gleientiaid/aelodau os gorfodir y pŵer i symud y rhai sydd heb anghenion tai
- credu ym mhwysigrwydd rhestr aros agored i roi darlun llawnach o'r angen a'r galw, ac i gynnig cyngor ar dai i bob ymgeisydd, hyd yn oed os nad oes ganddynt anghenion tai ar hyn o bryd

3.308 Roedd y rheini a oedd â barn gymysg am y cynnig yn teimlo na fyddai'n newid eu harfer presennol (er enghraifft, nododd un ymatebydd fod ganddynt "fand heb fynegi dewis" eisoes ar gyfer aelwydydd ar y rhestr aros, sydd eisoes yn helpu i sicrhau eu bod yn blaenoriaethu'r rheini sydd ag anghenion tai. Roedd yr ymatebydd hwn hefyd yn gwrthwynebu'r awgrym y byddai'r cynnig yn cynhyrchu data mwy cywir gan ei fod eisoes yn casglu'r data at ddibenion eraill (e.e.: Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol). Ar ben hynny, roedd pryder y gallai'r cynnig hwn, ochr yn ochr â dileu digartrefedd bwriadol, arwain at ganlyniadau anfwriadol o yrru pobl tuag at ddigartrefedd.

*Cynnig 4: Darparu 'blaenoriaeth ychwanegol' i bobl sy'n ddigartref*

**Tabl 4.18: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 4**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Ie | 28 |
| Na | 9 |
| Ddim yn gwybod | 4 |
| Amhendant | 17 |
| Cyfanswm | 58 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.309 Roedd ymatebwyr awdurdodau lleol wedi'u rhannu'n fras rhwng y rheini a oedd yn cytuno a'r rheini a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn. Nid oedd yr un o'r ymatebwyr LCC yn cytuno â'r cynnig (yr oedd dau yn anghytuno'n llwyr, un yn ansicr a'r gweddill yn darparu ymateb amhendant). Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr y trydydd sector a wnaeth sylwadau penodol ar y cynnig hwn yn cytuno ag ef.

*Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.310 Pwysleisiodd ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig hwn yr angen i sicrhau amserlen gadarn a chlir, ac arweiniad a chefnogaeth i awdurdodau lleol.

*Sylwadau a oedd yn anghytuno*

3.311 Awgrymodd ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig y bydd yn lleihau'r hyblygrwydd sydd ei angen i greu cymunedau cynaliadwy gyda chyfyngiad ar drosglwyddiadau mewnol ar gyfer y rheini sy'n byw mewn tai cymdeithasol ar hyn o bryd nad yw'n diwallu eu hanghenion. Roeddent yn awgrymu y gallai greu tagfeydd yn y system. Awgrymodd ymatebwyr hefyd ei bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried canlyniadau anfwriadol posibl oherwydd y llety cyfyngedig sydd ar gael, ac y gallai'r cynnig hwn gymell digartrefedd.

3.312 Mynegwyd pryderon ynghylch sicrhau cynaliadwyedd tenantiaethau yn hytrach na dyrannu ar sail angen yn unig, yn ogystal ag edrych ar yr opsiynau sydd ar gael ar hyn o bryd.

*Cynnig 5: Darparu 'blaenoriaeth ychwanegol' i bobl â phrofiad o ofal sy'n ddigartref a'r rheini sy'n ffoi rhag camdriniaeth*

**Tabl 4.19: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 5**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Cytuno | 26 |
| Anghytuno | 5 |
| Ddim yn gwybod | 5 |
| Amhendant | 22 |
| Cyfanswm | 58 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.313 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr awdurdodau lleol a wnaeth sylwadau ar y cynnig penodol hwn naill ai'n cytuno ag ef neu'n darparu ymateb amhendant (mewn perthynas â'r cynnig penodol hwn). Roedd un ymatebydd o'r awdurdod lleol yn anghytuno'n llwyr â'r cynnig hwn ac roedd 3 yn ansicr. Ychydig o ymatebwyr LCC a wnaeth sylwadau penodol ar y cynnig hwn; o'r rhai a wnaeth hynny, roedd 2 yn anghytuno ag ef ac roedd un yn ansicr. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr y trydydd sector a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn yn cytuno ag ef.

3.314 Cododd yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig nifer o bwyntiau mewn perthynas â'r canlynol:

- **pobl ifanc sy'n gadael gofal**: pwysleisiodd ymatebwyr yr angen i flaenoriaethu'r grŵp agored i niwed hwn o fewn y systemau dyrannu presennol er mwyn cynyddu eu mynediad at lety fforddiadwy ac atal digartrefedd
- **dianc rhag camdriniaeth:** pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am fwy o gysondeb mewn penderfyniadau dyrannu gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i sicrhau bod goroeswyr camdriniaeth yn cael cefnogaeth briodol a thai diogel
- **diffinio ac egluro**: mynegodd rhai ymatebwyr yr angen am eglurhad pellach ar y diffiniad o'r rhai sy'n ffoi rhag trais a'r lefel/asesiad risg cysylltiedig
- galwodd ymatebwyr hefyd am ddiffiniad ehangach o bobl â phrofiad o ofal y tu hwnt i adael gofal yn unig er mwyn sicrhau bod y cynnig yn cwmpasu grŵp ehangach o unigolion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref

- **cysondeb ac effaith:** roedd ymatebwyr o'r farn y byddai gweithredu'r newidiadau arfaethedig yn arwain at fwy o gysondeb mewn penderfyniadau dyrannu gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac y byddai'r newidiadau hyn yn cynyddu'n sylweddol nifer y bobl ddigartref sy'n cael eu hailgartrefu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

*Sylwadau a oedd yn anghytuno*

3.315 Gellir crynhoi'r pwyntiau a godwyd i wrthwynebu'r cynnig i ddarparu 'blaenoriaeth ychwanegol' i bobl â phrofiad o ofal sy'n ddigartref a'r rheini sy'n ffoi rhag camdriniaeth fel a ganlyn:

- pryderon ynghylch rheoli gormod o grwpiau blaenoriaeth: dadleuwyd y byddai cael gormod o grwpiau blaenoriaeth yn ei gwneud yn anodd gwahaniaethu rhyngddynt a rheoli atgyfeiriadau'n effeithiol
- dylai pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal gael blaenoriaethau ychwanegol: dadleuodd ymatebwyr y dylid rhoi blaenoriaethau ychwanegol i bob person ifanc sydd â phrofiad o ofal, nid dim ond y rheini sydd dan fygythiad o ddigartrefedd. Roeddent yn credu bod effaith bod mewn gofal yn sylweddol ac na ddylid cael terfyn oedran uchaf ar gyfer y flaenoriaeth hon
- dylai pob person ifanc sydd dan fygythiad o ddigartrefedd gael blaenoriaeth ychwanegol: awgrymwyd y dylai pob person ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref gael blaenoriaeth ychwanegol. Ystyrir bod ymyriadau cynnar yn hanfodol i atal digartrefedd, a gall rhoi blaenoriaeth i bob person ifanc yn y sefyllfa hon arwain at ymyriadau mwy llwyddiannus
- tlodi fel prif sbardun digartrefedd: nododd ymatebwyr mai tlodi yw'r prif ffactor sy'n arwain at ddigartrefedd. Roeddent yn dadlau y dylid rhoi blaenoriaeth resymol i bob person ifanc wrth ddyrannu tai, gan eu bod yn fwy tebygol o fod yn gweithio mewn swyddi cyflogau is, gyda llai o fynediad at fudd-daliadau o'u cymharu ag unigolion hŷn.
- diffiniad ac ystyriaethau oedran ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal: nodwyd bod angen eglurhad ynghylch y diffiniad o bobl sy'n gadael gofal a'r ystod oedran ar gyfer ystyried blaenoriaeth ychwanegol. Mynegwyd pryderon

ynghylch y baich posibl o ofyn i bob ymgeisydd am ei brofiad o ofal a'r diffyg dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma. Codwyd hefyd y cwestiwn a oes gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i flaenoriaethu pobl sy'n gadael gofal fesul achos.

*Cynnig 6: Gofyniad statudol ar gyfer Cofrestr Tai Cyffredin/Polisïau Dyrannu Cyffredin*

**Tabl 4.20: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 6**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Cytuno | 34 |
| Anghytuno | 4 |
| Ddim yn gwybod | 2 |
| Amhendant | 18 |
| Cyfanswm | 58 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.316 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr awdurdodau lleol a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn naill ai'n cytuno ag ef neu'n darparu ymateb amhendant mewn perthynas â'r cynnig penodol. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r trydydd sector yn cytuno â'r cynnig. Roedd un ymatebydd LCC ac un ymatebydd awdurdod lleol yn anghytuno'n benodol ag ef.

*Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.317 Gellir nodi sawl thema ar gyfer pam roedd pobl yn cefnogi'r cynnig sy'n ymwneud â'r gofrestr dai gyffredin a'r polisi dyraniadau cyffredin:

- tryloywder a thegwch: roedd ymatebwyr o'r farn y byddai gweithredu cofrestr dai gyffredin a pholisi dyraniadau cyffredin yn gwneud y broses dyrannu tai yn fwy tryloyw a theg
- rheoli adnoddau: roedd rhai cefnogwyr yn cydnabod y byddai gweithredu cofrestr dai gyffredin yn rhyddhau adnoddau a ddefnyddir ar hyn o bryd i reoli rhestrau aros, gwella effeithlonrwydd a chaniatáu i wasanaethau digartrefedd ganolbwyntio ar unigolion sy'n wirioneddol gymwys i gael tai cymdeithasol

- rheoli data: ystyriwyd bod defnyddio cofrestr dai gyffredin yn gyfle i wella gwybodaeth am ddata drwy ddileu dyblygu ceisiadau a darparu gofod cyson a chanolog ar gyfer data anghenion tai a'r stoc sydd ar gael

*Sylwadau a oedd yn anghytuno a heriau*

3.318 Mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch yr heriau o ran safoni dull gweithredu ar draws nifer o awdurdodau lleol, yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i gynnal cofrestr dai gyffredin fel seilwaith TG, a chwestiynu'r effaith gyffredinol y byddai cofrestr dai gyffredin yn ei chael.

*Cynnig 7: Herio penderfyniad ynghylch dyraniadau*

**Tabl 4.21: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 7**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Cytuno | 24 |
| Anghytuno | 6 |
| Ddim yn gwybod | 2 |
| Amhendant | 26 |
| Cyfanswm | 58 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.319 Roedd y sylwadau mewn perthynas â'r cynnig hwn yn gyfyngedig, fodd bynnag, awgrymodd 3 ymatebydd fod mecanwaith ar gyfer herio penderfyniadau yn hanfodol ac y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i fecanwaith sy'n glir, yn syml ac yn dryloyw. Ar y llaw arall, roedd ymatebydd arall yn gwrthwynebu'r cynnig gan awgrymu ei fod yn "anymarferol" oherwydd diogelu data.

3.320 Ymysg grwpiau rhanddeiliaid penodol, roedd dau RSL yn anghytuno'n benodol â'r cynnig ac roedd y gweddill yn amhendant mewn perthynas â'r cynnig hwn. Ymysg ymatebwyr awdurdodau lleol, roedd 5 yn cytuno â'r cynnig, roedd 2 yn anghytuno ag ef ac roedd y gweddill yn amhendant. O'r ymatebwyr trydydd sector, roedd 4 yn cytuno â'r cynnig penodol hwn, roedd un yn ansicr ac roedd y gweddill yn amhendant.

*Cynnig 8: Cyflwyno 'prawf trin bwriadol'*

**Tabl 4.22: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i gynnig 8**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Ie | 25 |
| Na | 9 |
| Ddim yn gwybod | 6 |
| Amhendant | 18 |
| Cyfanswm | 58 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o’r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.321 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr awdurdodau lleol a wnaeth sylwadau ar y cynnig penodol hwn yn ei gefnogi; roedd 2 awdurdod lleol yn anghytuno ag ef ac roedd 2 yn ansicr. O’r 8 Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a wnaeth sylwadau penodol ar y cynnig hwn, roedd un yn cytuno ag ef, roedd un yn anghytuno, roedd un yn ansicr a rhoddodd y gweddill ymateb amhendant mewn perthynas â’r cynnig hwn. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr o’r trydydd sector wedi’u rhannu rhwng y rheini a oedd yn cytuno a’r rheini a oedd yn anghytuno â’r cynnig.

*Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.322 Teimlai’r ymatebwyr hynny a oedd yn cefnogi cyflwyno’r prawf trin bwriadol y byddai’n gwrthweithio’r cymhelliant i unigolion ddod yn ddigartref i gael blaenoriaeth uwch ar gyfer tai cymdeithasol, a bod angen dileu’r prawf digartrefedd bwriadol. Fodd bynnag, awgrymodd cefnogwyr y prawf y byddai angen defnyddio’r prawf yn gynharach yn y broses, neu ar ddechrau’r broses o wneud cais digartrefedd er mwyn atal canlyniadau anfwriadol. Yn ogystal, nododd yr ymatebwyr fod angen arweiniad clir ac adolygiad o oblygiadau’r prawf o ran adnoddau.

*Sylwadau a oedd yn anghytuno*

3.323 Roedd gwrthwynebwyr y prawf cam-drin bwriadol yn awgrymu na fyddai’r prawf yn cynnig rhwystr cadarn a bod ei gymhwyso yn erbyn buddiannau’r awdurdod lleol gan y byddai ganddynt ddyletswydd digartrefedd o hyd i’r unigolyn, sy’n golygu y bydd angen iddynt ddarparu llety dros dro drud am gyfnodau hir. Unwaith eto, nodwyd y byddai’r pwynt, lle byddai’r prawf yn cael ei gymhwyso, yn digwydd yn rhy hwyr yn y broses. Roedd rhesymau eraill dros wrthwynebu cyflwyno’r prawf yn cynnwys y syniad y bydd yn “ailgyflwyno’r prawf digartrefedd bwriadol dan enw

arall" gan greu diwylliant o feio, cywilydd a stigma. Yn olaf, mynegwyd pryder ynghylch effaith y prawf ar oroeswyr camdriniaeth a sut y gall cymhwyso'r prawf wahaniaethu rhwng "gwybodaeth wirioneddol ffug" a "gwir gamgymeriadau".

*Sylwadau ychwanegol*

3.324 Yn ogystal â'r uchod, mynegodd ymatebwyr bryder ynghylch gwneud penderfyniadau goddrychol, gan ofyn am fwy o eglurder a manylder, ac awgrymu archwilio canlyniadau anfwriadol drwy fapio senarios.

**Cwestiwn 22 - I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig am opsiynau tai ychwanegol i gyflawni'r brif ddyletswydd digartrefedd? Beth ydych chi'n ei ragweld fydd canlyniadau posibl (bwriadol neu anfwriadol) y cynnig hwn?**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Cytuno | 38 |
| Anghytuno | 1 |
| Ddim yn gwybod | 9 |
| Amhendant | 10 |
| Cyfanswm | 58 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.325 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn cytuno â'r cynnig hwn, gyda'r 3 ymatebydd arall o blith yr awdurdodau lleol ac un ymatebydd o'r trydydd sector yn ansicr. Roedd ymatebwyr LCC wedi'u rhannu rhwng y rheini a oedd yn cytuno â'r cynnig, y rheini a oedd yn ansicr a'r rheini a oedd wedi cyflwyno ymateb amhendant. Yr un ymateb a oedd yn anghytuno'n benodol â'r cynnig oedd gan unigolyn.

*Sylwadau a oedd yn cytuno*

3.326 Roedd ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig yn teimlo y byddai'r ystod ehangach yn caniatáu mwy o hyblygrwydd a dewis, gan alluogi dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn gyda mwy o botensial ar gyfer canlyniadau cadarnhaol i aelwydydd. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd rhoi mesurau diogelu a gwasanaethau cymorth ar waith, yn ogystal â meithrin ymddiriedaeth a thryloywder. Yn olaf,

pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd canllawiau clir a chryno i sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau lleol.

*Pryderon a heriau*

3.327 Er bod mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig, tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at heriau a phryderon penodol ynghylch y cynnig. Roedd y rhain yn cynnwys argaeledd tai, a grybwyllwyd yn aml, yn enwedig tai cymdeithasol, y cynnydd mewn llwyth gwaith a diffyg adnoddau, a'r straen a roddir ar ddarparwyr cymorth. Hefyd, awgrymodd ymatebwyr nad oeddent yn gallu rhoi sylwadau ar y cynigion yn effeithiol oherwydd diffyg manylion yn y Papur Gwyn. Un pryder (a godwyd hefyd gan y rhai a gefnogodd y cynnig) oedd yr angen i sicrhau nad yw'r opsiynau tai ychwanegol yn rhoi grwpiau agored i niwed, fel goroeswyr cam-drin domestig ac unigolion â phroblemau camddefnyddio sylweddau, mewn mwy o berygl. Roedd pryder penodol ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio cyflawni dyletswydd fel ffordd o leihau llwyth gwaith, ac roedd ymatebwyr yn credu na ddylai hynny fyth ddigwydd.

**23. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein hystyriaeth gynnar o gostau a manteision y cynigion hyn mewn perthynas â mynediad at dai. A oes unrhyw gostau a buddion nad ydym wedi rhoi cyfrif amdanynt?**

3.328 Nododd ymatebwyr nifer o gostau a buddion nad ydynt, yn eu barn nhw, wedi cael eu hystyried, gan gynnwys:

*Costau*

- tanamcangyfrif y goblygiadau cost: roedd ymatebwyr yn bryderus nad oedd y costau a oedd yn gysylltiedig ag addasrwydd a dyraniadau yn cael eu tanamcangyfrif ac roeddent yn awgrymu goblygiadau cost ychwanegol sylweddol ar gyfer refeniw a chyfalaf.
- diffyg atebion tai fforddiadwy: awgrymwyd bod diffyg cydnabyddiaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ynghylch y diffyg atebion tai fforddiadwy sydd eu hangen i wireddu nodau'r cynigion yn llawn
- costau cyfreithiol a gweinyddol: mae gweithredu'r diwygiadau arfaethedig yn debygol o arwain at gostau cyfreithiol a gweinyddol, gan gynnwys

ymgynghoriadau cyfreithiol, datblygu polisi, diweddaru systemau TG, hyfforddiant, monitro parhaus a gweithgareddau gwerthuso

- adnoddau staffio: mae adnoddau staffio digonol yn hanfodol er mwyn rhoi'r cynigion ar waith yn llawn, gan gynnwys gweinyddu adnoddau mewn awdurdodau lleol a chymorth ariannol drwy Grantiau Cymorth Tai
- Y Gofrestr Dai Gyffredin: byddai symud i CHR yn arwain at oblygiadau cost sylweddol, gan gynnwys goblygiadau o ran adnoddau, ystyriaethau o ran strwythur TG mawr, ac adolygu pob cais yn unol â pholisi dyraniadau newydd
- adolygu addasrwydd a chostau gweinyddol ychwanegol: gall yr hawl i adolygu penderfyniadau ynghylch addasrwydd arwain at gostau ychwanegol, fel trosglwyddo aelwydydd o un llety dros dro i'r llall, a mwy o amser gweinyddu a llwyth gwaith ar gyfer timau asesu
- risgiau a phryderon: mae risgiau sy'n gysylltiedig ag ailddosbarthu RSLs fel cyrff cyhoeddus yn dal yn bryder sylweddol, ac mae angen ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyllidwyr perthnasol i fynd i'r afael â'r goblygiadau posibl

*Buddion*

- buddion ac arbedion hirdymor: er bod y cynigion yn golygu costau tymor byr, maent yn cael eu cyfiawnhau gan fuddion hirdymor diwygiadau deddfwriaethol trawsnewidiol a strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru i roi diwedd ar ddigartrefedd. Disgwylir i'r buddsoddiad yn y diwygiadau hyn arwain at newidiadau ac arbedion systemig arloesol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru wrth i ddigartrefedd ddod yn brin, yn fyr a heb ei ailadrodd.
- manteision economaidd a manteision cymdeithasol: gall atal digartrefedd drwy'r mesurau arfaethedig arwain at fanteision economaidd sylweddol, fel gwell canlyniadau iechyd, llai o alw am wasanaethau brys, gwell cyflogadwyedd, a manteision cymdeithasol a chymunedol. Gall tai sefydlog hefyd gyfrannu at well iechyd meddwl a chorfforol ac amgylchedd byw mwy sefydlog

**Cwestiwn 24 - I ba raddau ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion a amlinellir uchod yn cefnogi'r gwaith o weithredu a gorfodi'r diwygiadau arfaethedig?**

3.329 Roedd y cwestiwn hwn yn cyfeirio at saith newid arfaethedig unigol ym Mhennod 5 gydag ymatebwyr yn rhoi sylw i bob un o'r cynigion i wahanol raddau. O ystyried natur benagored y cwestiwn, roedd ffurfwedd yr ymatebion yn amrywio ac yn cynnwys:

- sylwadau o blaid y newidiadau arfaethedig ym Mhennod 5 yn gyffredinol
- cefnogaeth i un neu fwy o'r newidiadau arfaethedig penodol ym Mhennod 5
- sylwadau yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig yn gyffredinol, ond gyda chafeatau
- sylwadau yn erbyn y newidiadau arfaethedig ym Mhennod 5 yn gyffredinol
- gwrthwynebiad i un neu fwy o'r newidiadau arfaethedig penodol ym Mhennod 5
- ymatebion a oedd yn cyfeirio at benodau eraill yn y Papur Gwyn (cadarnhaol a negyddol)
- argymhellion ar gyfer ffyrdd o gefnogi neu wella'r newidiadau arfaethedig ym Mhennod 5 a'r cynigion ehangach yn y Papur Gwyn
- ceisiadau am ragor o fanylion neu eglurhad

*Sylwadau cyffredinol a oedd yn cytuno*

3.330 Roedd tri ar ddeg o'r ymatebion yn sylwadau o blaid y newidiadau arfaethedig yn gyffredinol. Roedd y rhesymau dros feddwl y byddai'r cynigion yn cefnogi gweithredu a gorfodi'r diwygiadau arfaethedig yn cynnwys cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o faint y problemau a'r angen am amserlenni realistig a chefnogaeth i'r gydnabyddiaeth a roddir i'r panel arbenigol yn y broses.

*Cefnogaeth ar gyfer un neu fwy o'r cynigion penodol ym Mhennod 5*

*Cynnig 1: Rydym yn cynnig defnyddio ac ymestyn y strwythurau presennol a ddarperir drwy graffu ar lywodraeth leol a rheoleiddio tai cymdeithasol er mwyn*

*monitro’r ddarpariaeth ar gyfer digartrefedd a rhoi’r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig ar waith.*

3.331 Roedd naw ymatebydd yn cefnogi’r cynnig hwn am y prif resymau canlynol:

- byddai’n cryfhau goruchwyliaeth a rheoleiddio, yn enwedig mewn perthynas â llety â chymorth tymor hir i unigolion ag anghenion cymhleth, a ddylai fod yn destun lefelau uwch o oruchwyliaeth reoleiddiol
- mae rhoi mwy o bwerau i Weinidogion Cymru herio ac arwain gwelliant yn hanfodol er mwyn gweithredu’n effeithiol ac er mwyn mynd i’r afael â gwahaniaethau mewn darpariaeth gwasanaethau ledled Cymru a achosir gan wahanol ddehongliadau o bolisïau gan awdurdodau lleol
- y dewis i ddefnyddio’r strwythurau a’r trefniadau presennol (megis Pwyllgorau Craffu a’r Bwrdd Partneriaeth Tai) i fonitro gweithrediad y diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig, yn hytrach na chyflwyno rheoleiddiwr newydd
- byddai'n sicrhau gweithredu a gorfodi cyson: roedd un ymateb yn tynnu sylw at gamgymhwyso'r deddfau presennol, tra bod un arall yn pwysleisio'r angen am oruchwyliaeth sy'n annibynnol ar lywodraeth leol i orfodi hawliau a safonau unigol ar gyfer gwasanaethau

3.332 Pwysleisiodd un ymatebydd bwysigrwydd bod gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth gynhwysfawr o’r sefyllfa ym mhob awdurdod lleol, gan gynnwys heriau, yr adnoddau sydd ar gael, a demograffeg. Mynegodd yr ymatebydd “gefnogaeth eang” i’r cynnig, ond awgrymodd y dylai rheoleiddio fod yn seiliedig ar egwyddorion, yn hytrach na chanllawiau rhagnodol.”

*Cynnig 2: Byddwn yn ystyried a yw’n briodol gwneud newidiadau i’r Safonau Rheoleiddio sy’n berthnasol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn annog hyd yn oed mwy o ymrwymiad i roi diwedd ar ddigartrefedd a monitro perfformiad a darpariaeth.*

3.333 Mynegodd pum ymatebydd gefnogaeth yn benodol i’r cynnig i wneud newidiadau i’r Safonau Rheoleiddio sy’n berthnasol i RSLs. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys pryderon bod y safonau rheoleiddio presennol yn rhy amwys o ran cydweithredu ynghylch atal digartrefedd a thai fforddiadwy, a’r angen am ganllawiau

cliriach a disgwyliadau i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gydweithio ag awdurdodau lleol ac osgoi bod yn ddetholus wrth ddarparu cymorth tai.

3.334 Roedd un ymatebydd yn galw am i ofynion rheoleiddio sy'n ymwneud ag ailgartrefu gael eu cymhwyso'n gyfartal i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a chynghorau sy'n cadw stoc. Roedd un arall yn cydnabod y risg i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o ran gosod tai i bobl y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, os yw cyfyngiadau o ran adnoddau yn golygu nad yw'r awdurdod lleol yn gallu darparu cymorth cofleidiol.

*Cynnig 3: Rydym yn cynnig ystyried swyddogaethau'r arolygiaethau presennol yng Nghymru, fel Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, i nodi'r rôl y gall y sefydliadau hyn ei chwarae o ran sicrhau bod y nodau a amlinellir yn y Papur Gwyn hwn yn cael eu cyflawni er mwyn cyflawni cyfrifoldeb ehangach dros atal digartrefedd ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru.*

3.335 Roedd saith ymateb yn cynnwys cefnogaeth i'r cynnig penodol hwn, yn bennaf ar y sail y byddai'n sicrhau bod gan gyrff cyhoeddus eraill – yn enwedig byrddau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol – lefelau clir a chyson o gyfrifoldeb dros atal digartrefedd. Roedd un ymatebydd yn eiriol dros gyfrifoldebau cydweithredol yn yr ardal leol yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar dimau tai/digartrefedd.

*Cynnig 4: Byddwn yn adolygu ac yn ystyried a oes angen pwerau ychwanegol i Weinidogion Cymru er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cyflawni ei nodau, gan gynnwys pwerau rhoi cyfarwyddyd posibl i orfodi awdurdod lleol i fodloni'r gofynion yn y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig.*

3.336 Cyfeiriodd tri ymatebydd yn benodol at y cynnig hwn fel rhywbeth yr oeddent yn ei gefnogi. Nododd un ymatebydd yr angen am ganllawiau clir ynghylch pryd y byddai Gweinidogion Cymru yn ymyrryd; mynegodd un arall obaith na fyddai'r pwerau ychwanegol hyn yn cael eu defnyddio'n aml.

*Cynnig 5: Byddwn hefyd yn ystyried sut gallwn ni sicrhau bod safbwyntiau pobl sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd yn gallu parhau i gyfrannu at ein dealltwriaeth o sut mae systemau digartrefedd yn gweithio a sicrhau bod yr adborth hwn yn*

*dylanwadu ar ddatblygiad parhaus gwasanaethau ac yn ysgogi camau gweithredu gan Weinidogion Cymru lle bo hynny'n briodol.*

3.337 Roedd saith ymateb i'r cwestiwn hwn yn cyfeirio'n benodol at y cynnig hwn fel rhywbeth roedden nhw'n ei gefnogi. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd ystyried barn pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o ddigartrefedd wrth ddatblygu gwasanaethau newydd a gwerthuso effeithiolrwydd y gwasanaethau presennol. Nododd un ymatebydd fod y cynnig hwn yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r angen i gynnwys plant a phobl ifanc sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

*Cynnig 6: Yn unol ag argymhellion y Grŵp Cynghori ar Ddigartrefedd ac Adroddiad Blynyddol diweddar y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella'r gwaith o gasglu data'n barhaus ar draws y sector tai a digartrefedd.*

3.338 Mynegodd deuddeg o ymatebwyr gefnogaeth i'r cynnig penodol hwn, a oedd yn fwy na'r hyn a gafwyd ar gyfer unrhyw un o'r 6 chynnig arall. Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am ddata da i ddal unigolion, awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gyfrif ac i fonitro cydymffurfiad â gofynion statudol. Awgrymwyd hefyd y gallai gwell prosesau casglu a monitro data gynyddu dealltwriaeth o'r ffactorau achosol y tu ôl i ddigartrefedd, helpu i nodi grwpiau sy'n fwy agored i ddigartrefedd a chefnogi dulliau ataliol a thorri cylch digartrefedd.

3.339 Yn olaf, awgrymwyd, heb gasglu data'n gyson, y byddai'n amhosibl monitro effeithiolrwydd y cynigion yn y Papur Gwyn a chymharu cynnydd ar draws gwahanol awdurdodau lleol.

*Cynnig 7: Rydym hefyd yn cynnig creu pŵer y gallai Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i 'alw i mewn' data a gesglir gan awdurdod tai lleol wrth gyflawni ei swyddogaethau digartrefedd.*

3.340 Roedd tri ymateb yn cynnwys cefnogaeth benodol i'r cynnig hwn i ganiatáu i Lywodraeth Cymru 'alw i mewn' data gan awdurdodau lleol. Dywedodd pedwerydd ymatebydd eu bod yn "croesawu craffu ar ddata gan Lywodraeth Cymru er mwyn goruchwylio gweithredu'r cynlluniau", gan fynegi cefnogaeth ymhlyg i'r cynnig

terfynol ym Mhennod 5. Ychwanegodd ymatebwyr gafeat i'r gefnogaeth hon drwy bwysleisio'r angen i roi digon o amser i awdurdodau lleol gasglu'r data angenrheidiol ac i egluro'r rhesymeg dros 'alw i mewn' data yn y modd hwn.

*Sylwadau sy'n cytuno mewn egwyddor ond gyda chafeatau*

3.341 Roedd saith ymateb i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynigion mewn egwyddor ond gyda'r cafeatau canlynol:

- yr angen am lywodraethu a chyllid digonol
- yr angen i gydnabod maint yr argyfwng tai a'r gofynion presennol ar dimau tai awdurdodau lleol yn wyneb capasiti ac adnoddau cyfyngedig
- yr angen i osgoi gwneud awdurdodau lleol yn gwbl atebol am atal digartrefedd
- yr angen am fwy o eglurder ynghylch manylion y craffu ychwanegol arfaethedig ar ddarpariaeth digartrefedd awdurdodau lleol

*Sylwadau cyffredinol a oedd yn anghytuno*

3.342 Roedd y prif bryderon neu feirniadaeth ynghylch cynigion Pennod 5 yn ymwneud â chyllid ac adnoddau. Mynegodd llawer o ymatebwyr bryderon am y diffyg cyllidebol a'r ddarpariaeth gwasanaeth sydd dan bwysau ar hyn o bryd, gan dynnu sylw at y ffaith y gallai rhai o'r cynigion fod yn heriol i'w rhoi ar waith heb adnoddau ariannol ychwanegol i dalu am gostau staffio a TG.

3.343 Roedd diffyg tai fforddiadwy yn cael ei weld fel rhwystr mawr i weithredu'r cynigion. Pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen am gynnydd dramatig a pharhaus yn y cyflenwad o dai fforddiadwy, yn ogystal â llety addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymhleth.

3.344 Soniwyd am adolygu neu amnewid systemau a meddalwedd TG, yn ogystal â chostau parhaus TG, fel materion caffael posibl ar gyfer cyllid llywodraeth leol. Nododd un ymatebydd y byddai angen i'r Cyfrif Refeniw Tai (HRA) dalu'r costau hyn, sydd eisoes dan straen oherwydd yr angen i gapio cynnydd mewn rhent er mwyn helpu teuluoedd yn ariannol.

3.345 Y ddau brif faes arall sy'n peri pryder ynghylch y cynigion yn y bennod hon oedd ymarferoldeb gweithredu (yn enwedig y risg o roi pwysau ychwanegol ar

awdurdodau lleol sydd eisoes yn wynebu nifer o flaenoriaethau a'r angen i gynnwys awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wrth ddatblygu cynllun gweithredu fesul cam) a diffyg manylion yn y cynigion (yn benodol ynghylch amserlenni a disgwyliadau ar awdurdodau lleol o ran casglu data).

3.346 Roedd beirniadaeth arall neu ddiffygion a nodwyd (pob un wedi'i grybwyll mewn un ymateb) yn cynnwys:

- dibyniaeth ar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer craffu, nad yw'n arbennig o hygyrch i bobl sydd eisiau cwyno am wasanaethau digartrefedd
- pryder nad yw'r data i gefnogi rhai o'r cynigion yn cael ei ddeall yn iawn, neu nad ydyw ar gael hyd yn oed
- ffafrio cyflwyno cynigion fel "deddfwriaeth gwasanaeth cyhoeddus sy'n ymwneud â thai" yn hytrach na "deddfwriaeth tai" i gydnabod rôl gwasanaethau cyhoeddus eraill
- pryder y gallai cyflwyno safonau sylfaenol ar gyfer llety dros dro (Pennod 4) gyfyngu ar argaeledd llety
- pryder bod yr iaith a ddefnyddir yn y Bennod i ddisgrifio'r berthynas rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn wrthwynebus yn ddiangen ac y gallai danseilio gwaith partneriaeth presennol yn anfwriadol "drwy greu rhwystrau ac erydu ewyllys da ac ymddiriedaeth" y mae llawer o awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi'u datblygu.

*Gwrthwynebu un neu fwy o'r cynigion penodol ym Mhennod 5*

3.347 Mynegwyd pryderon ynghylch tri chynnig penodol, fel a ganlyn:

- cynnig 29: pryder y gallai hyn greu anghydbwysedd pŵer rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a thanseilio'r gwaith partneriaeth presennol

[9] Byddwn yn ystyried a yw'n briodol gwneud newidiadau i'r Safonau Rheoleiddio sy'n berthnasol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn annog hyd yn oed mwy o ymrwymiad i roi diwedd ar ddigartrefedd a monitro perfformiad a darpariaeth.

- cynnig 410: pryder bod unrhyw ymyriad gan Lywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r pwerau ychwanegol hyn yn cael ei wneud gyda dealltwriaeth lawn o gyd-destun yr awdurdod lleol
- cynnig 611: Pryder y gallai hyn fod yn fiwrocrataidd ac y gallai arwain at gymharu awdurdodau lleol â'i gilydd, er eu bod yn gweithredu mewn cyd-destunau gwahanol iawn: "Yr hyn sy'n bwysig i ni yw ein bod yn gwella o fewn ein hawdurdod ein hunain."

*Ceisiadau am ragor o fanylion neu eglurhad*

3.348 Roedd tri ymateb yn cynnwys cais am eglurhad ynghylch y cynigion, gan gynnwys:

- eglurder ynghylch amserlenni a chyllid ar gyfer gweithredu
- manylion canlyniad yr adolygiad (Cynnig 4 ym Mhennod 5) a beth fyddai'r pwerau ychwanegol arfaethedig i Lywodraeth Cymru yn ei olygu i awdurdod lleol nad oedd yn bodloni'r gofyniad
- manylion neu ganllawiau ychwanegol ar yr hyn a fyddai'n gyfystyr â 'gwrthodiad afresymol'[12] ac 'amgylchiadau penodol' (y naill a'r llall ym Mhennod 4)
- egluro a fydd RSLs felly'n gallu 'mynnu' cymorth gan awdurdod lleol o dan y ddyletswydd i gydweithredu (Pennod 3)

*Ymatebion a oedd yn cyfeirio at benodau eraill yn y Papur Gwyn*

3.349 Roedd rhai ymatebion yn cynnwys cyfeiriad at benodau eraill yn y Papur Gwyn. Roedd cyfeiriadau at gynigion mewn penodau eraill lle'r oedd yr ymatebydd yn cefnogi'r cynnig yn cynnwys:

- cynnig cynnwys, neu hawl ychwanegol i ofyn am adolygiad (Pennod 1) a sicrhau bod yna wybodaeth gliriach i ymgeiswyr am eu hawliau i ofyn am adolygiad

[10] Byddwn yn adolygu ac yn ystyried a oes angen pwerau ychwanegol i Weinidogion Cymru er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cyflawni ei nodau, gan gynnwys pwerau rhoi cyfarwyddyd posibl i orfodi awdurdod lleol i fodloni'r gofynion yn y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig.
[11] Yn unol ag argymhellion y Grŵp Cynghori ar Ddigartrefedd ac Adroddiad Blynyddol diweddar y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella'r gwaith o gasglu data'n barhaus ar draws y sector tai a digartrefedd.
[12] h.y.: ymgeiswyr sydd wedi gwrthod cydweithredu â'r awdurdod tai lleol yn fwriadol ac yn afresymol

- credwyd bod y gofyniad i awdurdodau lleol gadw mewn cysylltiad ag ymgeiswyr chwe mis ar ôl derbyn cynnig (Pennod 4) yn cefnogi addasrwydd parhaus llety a nodi materion posibl yn gynnar
- darparu gwasanaethau cyfryngu a chymorth cyfreithiol (Pennod 4), a allai fynd i'r afael â materion sylfaenol sy'n cyfrannu at ddigartrefedd a meithrin dull mwy cynhwysfawr o atal digartrefedd
- cynnwys prawf trin bwriadol (Pennod 4), sy'n "atal camdriniaeth bosibl" ac yn atgyfnerthu'r ymrwymiad i gynorthwyo'r rhai sydd mewn gwir angen

3.350 Fodd bynnag, beirniadwyd y cynnig ym Mhennod 4 i roi'r pŵer i awdurdodau lleol dynnu pobl heb anghenion tai oddi ar y rhestr aros yn eu hardaloedd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, am ddau reswm:

- gallai stigmateiddio tai cymdeithasol (h.y.: os caiff ei ddyrannu i ymgeiswyr digartref yn unig)
- byddai'n cosbi grwpiau eraill sy'n agored i niwed, gan gynnwys pobl hŷn, pobl ifanc, teuluoedd sy'n profi gorlenwi, pobl anabl a phobl sy'n symud ymlaen o loches

*Argymhellion ar gyfer ffyrdd o gefnogi neu wella'r newidiadau arfaethedig*

3.351 Defnyddiodd ymatebwyr y cwestiwn hwn i wneud argymhellion ar gyfer ffyrdd o wella'r newidiadau arfaethedig ym Mhennod 5 a/neu'r cynigion ehangach yn y Papur Gwyn. Y thema fwyaf cyffredin yn yr argymhellion (a nodwyd mewn wyth ymateb i'r cwestiwn hwn) oedd rheoleiddio a chraffu, gan gynnwys:

- yr angen am reoleiddiwr cryf ac annibynnol gyda'r pŵer i ddal awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn atebol am eu penderfyniadau, ac (ar wahân) i Lywodraeth Cymru gydweithio â'r Ombwdsmon i drafod y newidiadau arfaethedig
- yr awgrym i gyflwyno prosesau craffu a goruchwylio ychwanegol ar gyfer darparwyr trydydd sector
- yr angen am dargedau clir a chyraeddadwy, yn ogystal â mecanweithiau cadarn ar gyfer monitro a gorfodi'r diwygiadau arfaethedig

- y cynnig i ddefnyddio ymweliadau anffurfiol gan Lywodraeth Cymru fel fframwaith adrodd i annog cydberchnogaeth ar ddiwygio deddfwriaethol
- y syniad o gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth graffu ar weithrediad deddfwriaeth i atal awdurdodau lleol rhag cael eu dal yn gyfan gwbl atebol am atal digartrefedd

3.352 Roedd tri ymateb yn cynnwys argymhelliad ar gyfer un system ddata i bob awdurdod lleol ei defnyddio i sicrhau data cyson a chymaradwy ledled Cymru.

3.353 Argymhellwyd yr angen i ddiffinio amserlenni mewn tri ymateb, ac yn benodol, yr argymhelliad i weithredu'r cynigion yn 'raddol' neu 'fesul cam'. Awgrymodd dau ymatebydd y byddai dogfennau canllaw manwl (gan gynnwys diffiniadau cliriach) yn fanteisiol.

**Cwestiwn 25 – Pa liferi/swyddogaethau/mecanweithiau eraill y gellid eu defnyddio i ddal awdurdodau tai lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn atebol am eu rôl o ran atal digartrefedd?**

3.354 Cafwyd amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn hwn; fodd bynnag, roeddent yn perthyn yn fras i un neu fwy o'r themâu canlynol:

- rheoleiddio, atebolrwydd, archwilio a monitro
- casglu data
- gweithio mewn partneriaeth
- cyd-gynhyrchu a chynnwys pobl sydd â phrofiad bywyd
- mecanweithiau hyfforddi

*Rheoleiddio, atebolrwydd ac archwilio*

3.355 O'r 44 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, awgrymodd 18 fod mecanweithiau ynghylch rheoleiddio, atebolrwydd ac archwilio yn ffordd o ddal awdurdodau tai lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn atebol am eu rôl o ran atal digartrefedd.

3.356 Roedd rhai ymatebion yn cynnwys galw am ombwdsmon neu reoleiddiwr penodol ar gyfer digartrefedd, gyda phwerau ac adnoddau cryfach i graffu mwy ar wasanaethau digartrefedd, er mwyn sicrhau goruchwyliaeth ac atal arferion gwael neu berfformiad diffygiol. Awgrymodd un ymatebydd y gellid mabwysiadu model yr Alban o reoleiddio gwasanaethau digartrefedd (drwy Reoleiddiwr Tai'r Alban) o

ystyried nad oes gan awdurdodau lleol y capasiti na'r adnoddau i reoleiddio'n effeithiol drwy swyddogaethau craffu gan aelodau. Awgrymodd ymatebydd arall y gallai'r rheoleiddiwr hwn gynnwys pob landlord yng Nghymru (hy: landlordiaid preifat yn ogystal â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig).

3.357 Roedd dau ymatebydd yn galw am fwy o atebolrwydd i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn benodol, drwy gynnwys digartrefedd yn yr hunanasesiad LCC neu gynnwys digartrefedd yn y Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru.

3.358 Roedd eraill yn galw am adolygiadau neu archwiliadau rheolaidd o wasanaethau digartrefedd, i'w cynnal gan Lywodraeth Cymru, Archwilio Cymru neu drwy adolygiad gan gymheiriaid i ganiatáu mwy o dryloywder wrth ddal darparwyr gwasanaethau i gyfrif. Awgrymwyd bod yn rhaid i awdurdodau ymateb i ganfyddiadau archwiliadau, gan feithrin diwylliant o welliant parhaus. Tynnodd un ymatebydd sylw at y cyfle i ddysgu o fecanweithiau eraill (er enghraifft Diogelu) sydd â "dull dysgu Cymru gyfan ac sy'n rhoi cyfleoedd i awdurdodau lleol graffu a dysgu oddi wrth ei gilydd." Roedd un arall yn galw am fwy o graffu cyhoeddus ar wasanaethau drwy adroddiadau a gyhoeddir yn flynyddol gan bob awdurdod lleol sy'n dangos sut maent yn rhoi'r cynigion hyn ar waith ac yn sicrhau canlyniadau.

3.359 Roedd ymatebion eraill yn tynnu sylw at wahanol ddulliau o gynyddu atebolrwydd ac ad-daledigaeth am fethu â chyflawni dyletswydd, gan ddarparu strategaethau posibl i ddal awdurdodau tai lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn atebol am eu rôl mewn atal digartrefedd. Mae hyn yn cynnwys yr angen am ryw fath o weithredu canlyniadol ar gyfer cyrff nad ydynt yn cadw at y ddyletswydd i atgyfeirio a dyletswydd i gydweithredu. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r baich cost llawn ar gyfer mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio fod ar yr awdurdod lleol neu gorff cyhoeddus arall.

3.360 Roedd tri ymateb yn awgrymu mwy o atebolrwydd ar iechyd a gofal cymdeithasol, gan osod dyletswydd gyfreithiol ar y sefydliadau hyn i weithio gydag adrannau tai awdurdodau lleol a gweithredu'n briodol pan na ellir diwallu anghenion drwy wasanaethau tai neu gymorth a ariennir gan y Grant Cymorth Tai, yn enwedig ar gyfer pobl ag anghenion iechyd a gofal cymhleth.

3.361 Nododd 3 ymatebydd yr angen i osod targedau a meincnodau perfformiad clir a mesuradwy ar gyfer awdurdodau tai lleol fel ffordd o feithrin dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a dal awdurdodau tai lleol a chyrff cyhoeddus yn atebol am eu rôl mewn atal digartrefedd.

3.362 Awgrymodd 3 ymatebydd arall (ar wahân) y gellid defnyddio'r Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd fel adnodd i sicrhau atebolrwydd ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Roedd dau o'r ymatebwyr hyn yn cynnig cysylltu'r Fframwaith â fframweithiau presennol fel y Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus a fyddai'n gwella atebolrwydd.

3.363 Yn olaf, awgrymwyd y dylai Gweinidogion Cymru weithredu fel y *backstop* terfynol, gyda'r pŵer i alw penderfyniadau i mewn a mynnu gwelliannau i sicrhau bod yr holl bartneriaid yn gweithio yn unol â llythyren ac ysbryd deddfwriaeth a strategaeth genedlaethol.

*Gweithio Mewn Partneriaeth*

3.364 Roedd deg ymateb yn cyfeirio at y rôl y gall gweithio mewn partneriaeth ei chwarae o ran cefnogi atebolrwydd. Awgrymwyd bod awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, byrddau iechyd a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd ac yn cael eu dal yn atebol ar 'lefel gyfun ac ar lefel unigol' ac y dylai atebolrwydd ymestyn y tu hwnt i bob partner i'r bartneriaeth gyfan. Roedd un ymatebydd yn cynnig gofyniad statudol i gyrff cyhoeddus eraill gydweithio â gwasanaethau digartrefedd. Argymhellodd un arall ddyletswydd i feddygfeydd, addysg a gwasanaethau ieuenctid atgyfeirio at wasanaethau tai os ydynt yn ymwybodol bod amgylchiadau tai yn effeithio ar iechyd neu les rhywun – gan gynnwys risg o ddigartrefedd.

3.365 Roedd annog sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ymrwymo i flaenoriaethau ar y cyd, fel tai, addysg a chyflogaeth, yn cael ei ystyried yn hanfodol. Awgrymodd un ymatebydd y byddai creu cyfrifoldebau ar y cyd ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau hyn yn gwella gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â digartrefedd ochr yn ochr â phenderfynyddion ehangach eraill iechyd.

3.366 Yn olaf, tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen i uwchsgilio ar draws yr holl wasanaethau sy'n ymwneud ag atal digartrefedd, gan ganiatáu ar gyfer mabwysiadu dull gweithredu cyson, fel dull gweithredu PIE (Amgylchedd sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol), pan fydd pobl yn symud o un gwasanaeth i'r llall. Amlygwyd hefyd fod gwerthuso a chasglu tystiolaeth drwy ddull gweithredu cydgysylltiedig yn bwysig

*Casglu Data*

3.367 Roedd wyth ymateb yn cynnwys cyfeiriad at y rôl y gall casglu data'n drylwyr ei chwarae o ran dal cyrff cyhoeddus i gyfrif. Cyfeiriodd un ymatebydd at yr angen am gronfa ddata ganolog lle mae achosion digartrefedd yn cael eu cofnodi, gan alluogi mynediad hawdd at ddata 'yn ôl yr angen'. Awgrymwyd y byddai angen i hyn gyd-fynd â'r EHOF.

3.368 Tynnodd ymatebydd arall sylw at yr angen i gynnwys nifer y cyflwyniadau digartrefedd wrth dderbyn i ysbyty a/neu ryddhau o ysbyty. Soniodd un arall am yr angen am ystadegau mwy cadarn a chywir ar ddigartrefedd ymhlith cyn-filwyr.

3.369 Yn gyffredinol, awgrymwyd, drwy ddefnyddio data'n effeithiol, ei bod yn bosibl gwerthuso perfformiad, nodi meysydd i'w gwella, a dyrannu adnoddau'n fwy effeithlon.

*Mecanweithiau hyfforddi*

3.370 Roedd tri ymateb yn cynnwys cyfeiriad at y rôl y gall hyfforddiant ei chwarae o ran cefnogi atebolrwydd, roedd hyn yn cynnwys:

- hyfforddiant i swyddogion tai ar ddarparu cefnogaeth gyson i oroeswyr cam-drin domestig
- hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ar beth yw'r risg o ddigartrefedd a llwybrau atgyfeirio priodol at gymorth tai
- hyfforddiant i weithwyr tai proffesiynol ar hawliau cyfreithiol unigolion o fewn y system ddigartrefedd a sut i'w cefnogi

*Cyd-gynhyrchu a chynnwys pobl sydd â phrofiad bywyd*

3.371 Roedd tri ymateb yn awgrymu y gall cydgynhyrchu a chynnwys pobl â phrofiadau bywyd helpu i ddal awdurdodau tai lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn atebol a helpu i ddeall pa mor effeithiol mae gwasanaeth yn gweithredu a sut y gellid gwella gwasanaeth.

3.372 Roedd galw am atebolrwydd gan gyrff penodol a oedd yn gyfrifol am ddigartrefedd, gan eu hannog i flaenoriaethu gweithredu polisïau ac arferion yn gywir. Ystyriwyd bod cydweithio rhwng cleientiaid a gwasanaethau yn hanfodol er mwyn sicrhau cynnydd a chyfuno ymdrechion a syniadau.

3.373 Awgrymodd un ymatebydd y gellid sefydlu mecanweithiau adborth dienw i ganiatáu mewnbwn gan unigolion sy’n defnyddio gwasanaethau opsiynau tai ac adolygiad rheolaidd o’r adborth hwn i sicrhau gwelliant parhaus.

3.374 Cynigiodd un arall y dylai unrhyw newidiadau sylweddol i wasanaethau digartrefedd gynnwys ymgynghori â phobl sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd, yn enwedig yr angen am lais cryf i bobl ifanc wrth oruchwylio a chyd-gynhyrchu gwasanaethau sy’n canolbwyntio ar bobl ifanc.

*Nid oes angen unrhyw fecanweithiau ychwanegol*

3.375 Yn olaf, awgrymodd 2 ymatebydd fod mesurau atebolrwydd digonol eisoes ar waith.

**Cwestiwn 26 – Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein hystyriaeth gynnar o gostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a buddion nad ydym wedi rhoi cyfrif amdanynt?**

3.376 Dim ond 25 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn (gan gynnwys 3 a oedd yn teimlo bod yr holl gostau a buddion eisoes wedi cael eu hystyried a 2 a oedd yn teimlo nad oedd digon o fanylion am y cynigion i ateb y cwestiwn).

*Buddion*

3.377 Roedd y buddion ychwanegol a nodwyd gan ymatebwyr yn cynnwys:

- buddion iechyd a chymdeithasol: gall rhoi sylw i benderfynyddion ehangach iechyd a mabwysiadu ffocws ataliol arwain at welliannau mewn iechyd meddwl a chorfforol ar gyfer unigolion yr effeithir arnynt. Gall lleihau digartrefedd hefyd arwain at fanteision cymdeithasol ac iechyd ehangach

- buddion economaidd: gallai'r diwygiad arfaethedig arwain at fanteision economaidd fel cynnydd mewn cynhyrchiant, creu swyddi, ac ysgogi economïau lleol oherwydd sefydlogrwydd tai
- buddion amgylcheddol: gall lleihau digartrefedd arwain at fanteision amgylcheddol drwy leihau'r angen am lochesi brys, trafnidiaeth, a'r defnydd cysylltiedig o ynni
- tegwch a chynhwysiant cymdeithasol, yn enwedig ar gyfer grwpiau agored i niwed neu grwpiau ar y cyrion
- cyfleoedd dysgu ac arloesi
- gwelliannau cyffredinol mewn ansawdd bywyd

*Costau*

3.378 Nododd saith ymatebydd gostau ychwanegol y dylid eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig. Roedd y rhain yn cynnwys:

- goblygiadau cost i Lywodraeth Cymru, o ystyried y gallai baich ariannol posibl y cynigion fod yn fwy na'r disgwyl ac na ddylai awdurdodau lleol orfod ysgwyddo'r gost o gyllidebau sydd eisoes dan bwysau
- cost darparu cefnogaeth i unigolion ag anghenion cymhleth
- costau sy'n gysylltiedig â staff casglu data sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynigion
- costau ychwanegol uwchraddio systemau TG
- effeithiau canlyniadol ar wasanaethau eraill: bydd unrhyw gyllid ychwanegol y mae angen i awdurdodau lleol ei gael o'u cyllidebau presennol yn cael effeithiau ehangach ar y gymuned. Er enghraifft, gall arwain at yr angen i godi'r Dreth Gyngor, lleihau gwasanaethau anstatudol ac ataliol, ac effaith ar amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol.
- costau staffio: gallai ôl-lenwi mewn sefydliadau lle mae aelod o staff wedi cael ei secondio neu ei gyflogi i rôl newydd arwain at gostau
- costau hyfforddi a chydleoli: dylid hefyd ystyried costau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant a'r posibilrwydd o gydleoli adnoddau

- costau gweithredu, sy’n cynnwys agweddau fel hyfforddiant, datblygu seilwaith, a newidiadau gweithdrefnol sy’n rhan annatod o weithredu’r diwygiadau arfaethedig yn llwyddiannus
- goblygiadau ariannol hirdymor, gan gynnwys costau posibl yn y dyfodol a chynaliadwyedd y diwygiadau dros amser ochr yn ochr â chostau eilaidd ac anuniongyrchol, cofnodi treuliau a ysgwyddwyd gan randdeiliaid neu sectorau eraill, yn ogystal ag archwilio costau cyfle

## Pennod 6

**Cwestiwn 27 - Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y diwygiadau arfaethedig yn y Papur Gwyn hwn ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

3.379 Ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad, daeth sawl thema i'r amlwg ynghylch effeithiau tebygol y diwygiadau arfaethedig yn y Papur Gwyn ar y Gymraeg. Roedd y themâu hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3.380 **Diogelu'r Gymraeg**: mynegodd llawer o ymatebwyr bryderon ynghylch effeithiau niweidiol posibl diddymu'r prawf Cysylltiad Lleol ar y Gymraeg. Roeddent yn pwysleisio bod ystyried cysylltiad lleol o fewn polisïau dyrannu yn hanfodol er mwyn diogelu dyfodol yr iaith mewn ardaloedd lle mae'n dirywio. Er nad yw'r Papur Gwyn yn cyfeirio at gysylltiad lleol mewn polisïau dyrannu, awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai dileu Cysylltiad Lleol fod yn niweidiol i gymunedau Cymraeg eu hiaith ac y gallai arwain at wanhau'r cymeriad Cymraeg mewn rhai ardaloedd.

3.381 **Darparu Gwasanaethau**: tynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd darparu cefnogaeth a gwasanaethau yn y Gymraeg i atal digartrefedd ymysg siaradwyr Cymraeg. Roeddent yn pwysleisio bod sicrhau mynediad at wasanaethau yn yr iaith o'u dewis yn lleihau'r risg o asesu sefyllfaoedd yn anghywir ac yn caniatáu cymorth priodol. Nodwyd hefyd y gallai cynnydd yn y niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gyda gofynion cynyddol i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg.

3.382 **Recriwtio ac ymgynghori:** pwysleisiodd sawl ymatebydd yr angen i recriwtio siaradwyr Cymraeg a'u cynnwys mewn adolygiadau ac ymgynghoriadau aml-asiantaeth sy'n ymwneud â hyrwyddo defnydd cadarnhaol o'r Gymraeg. Roeddent hefyd yn galw am ryddhau dogfennau ymgynghori a chanllawiau ar ddeddfwriaeth sydd ar y gweill yn Gymraeg ac yn Saesneg i sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

3.383 **Cydraddoldeb a hygyrchedd:** tynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd trin y Gymraeg yn gyfartal i ieithoedd lleiafrifoedd ethnig ar gyfer pob cyfathrebiad – ac yn enwedig yng nghyd-destun PHP. Roeddent yn pwysleisio'r angen am gyfieithwyr a gwasanaethau cyfieithu fel opsiynau cyfartal ar gyfer recriwtio ar sail teilyngdod a phrofiad. Yn ogystal, cafwyd galwadau i wella hygyrchedd gwybodaeth a chyfathrebu, yn enwedig drwy ddefnyddio iaith lai ffurfiol a biwrocrataidd, i sicrhau bod pobl ifanc sy'n defnyddio'r system ddigartrefedd yn gallu cael gwybodaeth a chyfathrebiadau yn eu dewis iaith.

3.384 Yn gyffredinol, ystyriwyd bod gan y diwygiadau arfaethedig y potensial i gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig drwy welliannau o ran darparu gwasanaethau a chyfathrebu. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch yr effeithiau negyddol posibl ar gymunedau Cymraeg eu hiaith a'r angen am bolisïau ac arferion recriwtio cadarn i ddiogelu uniondeb yr iaith.

**Cwestiwn 27a - Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**

3.385 Nodwyd y 2 gyfle canlynol:

- darparu tai fforddiadwy i gefnogi pobl leol a lleihau'r angen i deuluoedd symud i ffwrdd
- byddai argaeledd gwasanaethau yn Gymraeg yn lleihau straen a phryder y rhai sydd angen cymorth.

**Cwestiwn 27b - Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol?**

3.386 Nododd un ymatebydd y gallai poblogaethau cynyddol o amgylch ysgolion Cymraeg gynyddu eu dalgylch ac annog unigolion di-Gymraeg i ddysgu Cymraeg a chael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cwestiwn 28. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod amdanynt.**

Tynnodd ymatebwyr i'r cwestiwn hwn sylw at nifer o themâu, gan gynnwys:

- yr angen am adnoddau digonol: pwysleisiodd ymatebwyr (yn enwedig awdurdodau lleol) bwysigrwydd cael adnoddau digonol i fynd i'r afael â digartrefedd yn effeithiol ac atal argyfwng pellach
- casglu ac adrodd ar ddata: nodwyd bod casglu data, atebolrwydd ac adrodd yn well yn hanfodol ar gyfer nodi a monitro canlyniadau sy'n gysylltiedig ag atal a chefnogi digartrefedd
- dull gweithredu cydgysylltiedig: roedd galw am ddull gweithredu cyfannol a chydlynol ar draws pob deiliadaeth tai, gan gynnwys y sector rhentu preifat, i roi diwedd ar ddigartrefedd a diwallu anghenion tai
- diffiniad o ddigartrefedd: roedd y diffiniad o ddigartrefedd yn bryder, gyda chais am ddiffiniad eang sy'n cwmpasu gwahanol fathau o anghenion tai
- amserlenni ar gyfer gweithredu: gofynnodd ymatebwyr am eglurder ynghylch yr amserlenni ar gyfer gweithredu'r newidiadau arfaethedig a darparu arweiniad a chymorth i awdurdodau lleol ac asiantaethau partner
- y cyflenwad o gartrefi: nodwyd bod argaeledd tai fforddiadwy a'r angen i gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol yn ffactorau hanfodol i atal digartrefedd
- cynhwysiant a chymorth iechyd: ystyriwyd bod integreiddio gwasanaethau iechyd, gan gynnwys cymorth iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, yn hanfodol i fynd i'r afael â digartrefedd a hyrwyddo adsefydlu
- safonau a rheoliadau: gwnaed galwadau am safonau mwy pendant, fel terfynau amser ar gyfer cysgu allan a sicrhau bod llety'n cael ei drefnu ar ôl gadael yr ysbyty neu'r carchar
- sector rhentu preifat: pwysleisiwyd rôl y sector rhentu preifat o ran darparu atebion tai i bobl sengl a theuluoedd, ynghyd â'r angen i gymell landlordiaid ac ehangu cynlluniau prydlesu
- diwygiadau i'r farchnad dai: gwnaed cynigion i ddiwygio'r farchnad dai, gan gynnwys cynnal lwfansau tai lleol ar lefel fforddiadwy ac ystyried mesurau i gyfyngu ar berchnogaeth eiddo gan landlordiaid preifat

- dyletswyddau a chyfrifoldebau: mynegwyd pryderon ynghylch dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol a roddir ar awdurdodau lleol, gwrthdaro posibl, a'r angen am ddull gweithredu ar y cyd i atal digartrefedd
- atal a chefnogi: amlygwyd pwysigrwydd gwasanaethau atal a chymorth, gan gynnwys cynnal tenantiaeth a thimau ymateb cymunedol, er mwyn osgoi troi allan a chynnal sefyllfaoedd sefydlog o ran tai
- rhannu a monitro data: pwysleisiwyd yr angen i rannu gwybodaeth yn ddiogel ac yn effeithlon rhwng adrannau iechyd a thai, yn ogystal â chasglu a monitro data'n barhaus
- y cymal methiant afresymol i gydweithredu: mynegwyd pryderon ynghylch dehongli a chymhwyso'r cymal methiant afresymol i gydweithredu, gan awgrymu bod angen diffiniadau cliriach a monitro ei ddefnydd

## 4. Digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid

4.1 Cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru amrywiaeth eang o weithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys pum digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid thematig ar-lein a oedd yn cynnwys y canlynol:

- 1. Diwygiadau craidd i ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014 (archwilio cyfnod atal, PHPau, y profion, ac eithriadau)
- 2. Mynediad at dai (archwilio addasrwydd, argaeledd a diogelwch cyflenwad tai lleol)
- 3. Digartrefedd a'r System Cyfiawnder Troseddol (edrych ar gynigion wedi'u targedu i atal digartrefedd i'r rhai yr effeithir arnynt yn anghymesur a goblygiadau'r profion i bobl yn y ddalfa)
- 4. Digartrefedd ac iechyd (archwilio rhyddhau o'r ysbyty ac anghenion cymhleth)
- 5. Rôl gwasanaethau cymdeithasol o ran atal digartrefedd.

4.2 Yn ogystal; cynhaliwyd tri digwyddiad pwrpasol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, cynhaliwyd sesiynau gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru, cynhaliwyd arolwg o denantiaid tai cymdeithasol mewn partneriaeth â TPAS, cynhaliwyd grwpiau ffocws gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru a hwyluswyd ymgysylltu â phlant a phobl ifanc gan End Youthlessness Cymru.

4.3 Mae crynodebau o rywfaint o'r ymgysylltu hwn wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad, ac mae modd eu gweld ar wahân yma.

4.4 Yn wahanol i'r ddogfen ymgynghori, nid oedd y trafodaethau hyn â rhanddeiliaid wedi'u cynllunio i ddilyn fformat cwestiynu safonol, sy'n golygu na allwn gymharu canfyddiadau fesul grŵp. Felly, cafodd y canfyddiadau eu cyfuno ar sail thematig, gyda gwahanol feysydd diddordeb yn cynnig lefelau amrywiol o adborth.

4.5 Felly, mae'r crynodeb byr hwn yn blaenoriaethu canfyddiadau sy'n rhoi cipolwg penodol i hysbysu canfyddiad grwpiau rhanddeiliaid craidd o'r cynigion.

**Adborth rhanddeiliaid ar y profion (angen blaenoriaethol, digartrefedd bwriadol, cysylltiad lleol)**

**Angen blaenoriaethol**

4.6 Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad ysgrifenedig; er bod y mwyafrif yn cytuno â’r cynnig i ddileu angen blaenoriaethol, mynegwyd pryderon ynghylch yr heriau posibl a allai godi yn y dyfodol pan fydd adnoddau’n cael eu hymestyn. Roedd rhai o randdeiliaid awdurdodau lleol yn teimlo y bydd cael gwared ar angen blaenoriaethol yn heriol yn y dyfodol pan fydd adnoddau’n cael eu hymestyn ymhellach. Fodd bynnag, dywedodd y rheini nad oeddent ond wedi ymuno â gwasanaethau tai awdurdodau lleol yn ystod y pandemig nad oedd ganddynt unrhyw brofiad blaenorol o weinyddu profion o’r fath.

4.7 Roedd rhai rhanddeiliaid yn credu y gallai dileu angen blaenoriaethol arwain at ddryswch a thanseilio’r negeseuon ynghylch grwpiau blaenoriaeth, oherwydd efallai na fydd yn glir pwy ddylai gael blaenoriaeth ychwanegol heb y prawf. Roedd pryder hefyd y gallai unigolion sydd â llai o anghenion cymhleth gael eu hystyried yn gleientiaid mwy ‘atyniadol’, a fyddai o bosibl yn gadael yr unigolion mwyaf agored i niwed heb gefnogaeth ddigonol.

4.8 Ar y llaw arall, roedd rhai rhanddeiliaid yn dadlau bod angen dileu angen blaenoriaethol er mwyn creu cymdeithas ofalgar. Roeddent yn pwysleisio pwysigrwydd bod yn uchelgeisiol yn hyn o beth, ond roeddent hefyd yn tynnu sylw at yr angen am ganllawiau clir sy’n cyd-fynd â’r ddeddfwriaeth. O ran grwpiau penodol y mae’r prawf angen blaenoriaethol yn effeithio arnynt, codwyd pryderon ynghylch pobl sy’n gadael gofal a phobl sydd yn y ddalfa. Tynnodd rhanddeiliaid â phrofiad o ofal sylw at y ffaith bod gan rai awdurdodau lleol ddiffyg llety cydnabyddedig yn barod, ac nad yw’r rhai sy’n gadael gofal ‘yn agos at frig y rhestr’. Rhybuddiodd rhai rhanddeiliaid y gallai dileu angen blaenoriaethol lesteirio prosesau presennol mewn rhai awdurdodau lleol sy’n gweithio’n dda i bobl sy’n gadael gofal, fel rhoi blaenoriaeth band aur iddynt.

4.9 Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid hefyd yn dadlau bod dileu angen blaenoriaethol eisoes wedi bod yn fuddiol mewn rhai awdurdodau lleol, lle mae dulliau eraill wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau llety i’r rheini sy’n gadael y ddalfa.

**Digartrefedd bwriadol**

4.10 Mynegodd rhai rhanddeiliaid gefnogaeth i'r cynnig i ddiddymu'r prawf, gan nodi rhesymau fel hyrwyddo dull gweithredu ar ddigartrefedd sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roeddent yn dadlau y byddai dileu'r prawf yn lleihau'r baich gwaith i staff ac yn creu amgylchedd lle mae unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu barnu'n llai ac yn fwy cyfforddus yn gofyn am gymorth.

4.11 Fodd bynnag, roedd yna safbwyntiau gan randdeiliaid o'r digwyddiadau ymgysylltu a oedd yn gwrthwynebu'n gryf dileu'r prawf digartrefedd bwriadol. Wrth archwilio'r heriau a'r manteision cymharol sy'n gysylltiedig â'r cynnig, gellir categoreiddio'r rhan fwyaf o'r ymatebion fel heriau. Pwysleisiodd rhanddeiliaid awdurdodau lleol y byddai cael gwared arnynt yn cael effaith anghymesur arnynt, o'i gymharu â gwasanaethau atal a chymorth ehangach. Roedd rhanddeiliaid yn credu y byddai dileu'r prawf yn arwain at ddiffyg canlyniadau a chyfrifoldeb personol dros ddinasyddion unigol ac felly'n dileu adnodd gwerthfawr sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i gefnogi gwaith atal. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn dadlau bod y prawf yn rhwystr ac yn helpu i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu i bwynt lle mae angen ymyrryd.

4.12 Ar ben hynny, tynnodd rhanddeiliaid sylw at y pwysau a'r craffu ariannol presennol a wynebir gan awdurdodau lleol, gan awgrymu y gallai dileu'r prawf arwain at gostau uwch iddynt. Yn benodol, roedd rhanddeiliaid yn poeni am y 'sgil effeithiau' posibl mewn perthynas â chyflenwad tai a'r opsiynau sydd ar gael. Gyda PRS llai hygyrch, pwysleisiodd awdurdodau lleol yr her bresennol o weithio gyda landlordiaid preifat i annog darparu llety pan fyddant wedi cael profiadau negyddol. Awgrymwyd felly y byddai dileu'r prawf yn arwain at bobl yn cael eu rhoi mewn llety dros dro am gyfnodau hwy o amser.

4.13 Roedd awgrymiadau hefyd i gadw'r prawf bwriad, ond ei ehangu, yn debyg i feini prawf y Cysylltiad Lleol. Nod y dull hwn yw taro cydbwysedd rhwng dal unigolion yn atebol am eu gweithredoedd wrth ystyried cymhlethdodau tenantiaethau ar y cyd a gorfodaeth bosibl.

4.14 Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad ysgrifenedig, er bod rhai rhanddeiliaid yn cefnogi ei ddileu er mwyn hyrwyddo dull mwy cynhwysol a chefnogol, pwysleisiodd eraill bwysigrwydd cynnal mesurau canlyniadau ac atal yn y system ehangach. Roedd y

canfyddiadau'n tynnu sylw at yr angen i ystyried yn ofalus ac ymchwilio ymhellach i'r goblygiadau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig i'r prawf digartrefedd bwriadol.

**Cysylltiad lleol**

4.15 Mynegodd rhanddeiliaid safbwyntiau cymysg ar y prawf cysylltiad lleol. Roedd rhai'n cytuno â'r cynnig i'w gadw gydag eithriadau, tra bod eraill yn mynegi pryderon ynghylch ei degwch ac yn awgrymu defnyddio'r prawf fesul achos. Holwyd hefyd a oedd y prawf yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd a oedd yn ystyriol o drawma.

4.16 Roedd rhai rhanddeiliaid yn cytuno ag esemptiad ar gyfer pobl ifanc â phrofiad o ofal ond pwysleisiwyd yr angen i gryfhau ymdrechion ar y cyd. Roedd eraill yn cwestiynu a ddylid diddymu'r cysylltiad lleol yn llwyr, gan ystyried bod y rheolau presennol yn annheg.

4.17 Trafododd rhanddeiliaid hefyd fwy o heriau na manteision mewn perthynas â'r cynnig. Teimlai rhai fod y rhestr yn rhy eang ac y gellid ei chamddefnyddio, tra bod eraill yn credu ei bod yn rhoi'r rheini sydd ag achosion llai cymhleth dan anfantais. Pwysleisiwyd pwysigrwydd fframwaith cyfatebol a reolir yn ganolog ar gyfer symud effeithiol o amgylch Cymru.

4.18 Tynnodd rhanddeiliaid sylw at effeithiau negyddol posibl ar wasanaethau fel iechyd a chyfiawnder troseddol mewn ardaloedd awdurdodau lleol sydd ag anghenion lleoli uwch. Roeddent hefyd yn tynnu sylw at y baich adnoddau ar awdurdodau lleol oherwydd gohebiaeth ac ymholiadau gan gynrychiolwyr etholedig ynghylch lleoliadau y tu allan i'r sir. Soniwyd am yr effaith ar y Gymraeg a'r angen am ganllawiau cryf a chyson.

4.19 Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y rhai sy'n gadael y carchar a diogelu'r cyhoedd. Pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen am gysylltiad lleol i garcharorion er mwyn creu system farchnad dai deg. Ystyriwyd bod asesiadau risg, diogelu'r cyhoedd, a chanllawiau clir i atal camddefnyddio systemau yn bwysig. Ystyriwyd bod rhannu gwybodaeth ymlaen llaw am anghenion iechyd unigolion a'r defnydd o sylweddau yn hanfodol ar gyfer ailintegreiddio'n llwyddiannus a chydlyniant cymunedol.

4.20 Yn olaf, awgrymodd rhanddeiliaid ddulliau eraill fel rhoi cymorth ar waith i feithrin perthnasoedd iachach fel dewis arall yn lle adleoli. Roeddent hefyd yn pwysleisio'r rhan y mae gwasanaethau prawf yn ei chwarae wrth benderfynu pryd y mae ar bobl angen llechen lân i reoli risgiau'n effeithiol.

**Safbwyntiau ar PHPau**

4.21 Yn gyffredinol, roedd cydnabyddiaeth bod PHPau yn gam cadarnhaol tuag at gofnodi anghenion lleoliad a chefnogaeth i ymgeiswyr. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd cynnwys dewis yn y system, gan alluogi unigolion i fyw lle maent yn dymuno bod, yn agos at gyflogaeth a gwasanaethau. Fodd bynnag, mynegodd rhai rhanddeiliaid amheuon ynghylch ymarferoldeb cyflawni'r nod hwn yn yr hinsawdd gyllido bresennol.

4.22 Roedd gwahaniaeth barn ynghylch ai PHP yw'r cyfrwng priodol ar gyfer cofnodi a dogfennu'r wybodaeth hon. Er bod rhai rhanddeiliaid o'r farn mai PHP yw'r lle cywir i gofnodi sgyrsiau ffurfiol ac anffurfiol, roedd eraill yn anghytuno, gan ddweud nad yw unigolion sy'n gweithio mewn meysydd eraill yn deall PHP yn iawn ac nad ydynt yn derbyn cefnogaeth gan wasanaethau eraill.

4.23 Roedd mater addasrwydd a dewis o ran dyrannu tai hefyd yn bwynt dadleuol ymysg rhanddeiliaid. Mynegodd rhai bryderon ynghylch y diffiniad o addasrwydd ac argaeledd cyfyngedig y stoc dai mewn rhai ardaloedd. Roeddent yn pwysleisio'r angen am drafodaethau rhesymol gydag ymgeiswyr, gan ystyried eu hamgylchiadau newidiol wrth geisio dod o hyd i lety parhaol. Ar y llaw arall, adroddwyd bod rhai awdurdodau lleol yn annog ymgeiswyr i ystyried ystod ehangach o feysydd oherwydd yr argyfwng tai presennol, ac y gallai adolygu'n rheolaidd arwain at faich adnoddau ychwanegol.

4.24 Yn gyffredinol, er bod rhanddeiliaid yn cydnabod yn gyffredinol fanteision posibl PHPau o ran cofnodi anghenion lleoliad a chymorth, roedd gwahaniaeth barn ynghylch eu heffeithiolrwydd, dealltwriaeth a'u hymarferoldeb.

4.25 Roedd y mater o addasrwydd a dewis o ran dyrannu tai hefyd yn creu safbwyntiau amrywiol.

**Goblygiadau'r dyletswyddau arfaethedig ar y sector iechyd**

4.26 Roedd cytundeb cyffredinol mewn egwyddor ymysg rhanddeiliaid y sector iechyd ynghylch rôl gwasanaethau iechyd a'r dyletswyddau arfaethedig i nodi, atgyfeirio a chydweithredu. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod y dyletswyddau hyn yn hirddisgwyliedig ac yn angenrheidiol ar gyfer mabwysiadu dull system gyfan o fynd i'r afael â digartrefedd. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch gweithredu'r dyletswyddau hyn yn ymarferol.

4.27 Mynegodd rhanddeiliaid yr angen am ganllawiau a phrosesau cliriach i sicrhau cydweithio effeithiol rhwng awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd meddwl. Roeddent yn tynnu sylw at bwysigrwydd swyddogion cyswllt rhyddhau sy'n meddu ar wasanaethau penodol a medrus iawn i hwyluso pontio didrafferth i unigolion sy'n ddigartref. Ar ben hynny, pwysleisiodd rhanddeiliaid y gofyniad am wasanaethau y tu hwnt i gymorth tenantiaeth cyffredinol, gan fod angen gwaith arbenigol iawn i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth y boblogaeth hon.

4.28 Er bod rhanddeiliaid yn cytuno ar bwysigrwydd cyffredinol y dyletswyddau arfaethedig, roeddent yn cyfeirio at nifer o heriau ac ystyriaethau. Roedd y rhain yn cynnwys diffyg llety priodol mewn lleoliadau gofal diwedd oes, y dybiaeth nad oes gan unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl broblemau iechyd corfforol, ac anghenion heb eu diwallu'r rheini sy'n ddigartref sydd â namau gwybyddol neu anableddau dysgu.

4.29 Nodwyd cyfyngiadau cyllido ac ailddyrannu adnoddau o iechyd i dai fel rhwystrau i weithredu'r dyletswyddau'n effeithiol. Galwodd rhanddeiliaid am fwy o gefnogaeth a chyllid i sicrhau ymdrechion ymyrryd ac atal llwyddiannus. Roeddent hefyd yn cydnabod yr angen am hyfforddiant a chefnogaeth gan y sector iechyd cyfan, oherwydd gallai unrhyw un sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd fod mewn perygl o fod angen cymorth digartrefedd a thai.

**Barn rhanddeiliaid ar gynigion i atal digartrefedd i rai sy'n gadael y carchar**

4.30 Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn y sector cyfiawnder troseddol yn cydnabod bod gan y cynigion y potensial i gael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n gadael carchar, ond mynegwyd nifer o bryderon ac awgrymiadau.

4.31 Nodwyd bod diffyg rhyddhau o'r carchar wedi'i gynllunio'n dda yn broblem sylweddol. Nodwyd y gellir gadael atgyfeiriadau prawf tan y funud olaf, ac nad yw awdurdodau lleol bob amser yn cael gwybod ymlaen llaw. Mae'r diffyg cydgysylltu hwn a gwybodaeth amserol yn llesteirio gallu awdurdodau lleol i gynnal archwiliadau priodol a sicrhau llety addas. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at yr angen am ffigurau rhyddhau cywir ac amserol a mynegwyd pryderon am y wybodaeth annigonol a roddwyd i wasanaethau tai am unigolion.

4.32 Roedd anghenion cymhleth pobl sy'n gadael carchar, fel camddefnyddio sylweddau a materion iechyd meddwl, yn cael eu cydnabod fel her. Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd ymarfer sy'n ystyriol o drawma, yn enwedig i fenywod sy'n garcharorion, a'r angen am well dealltwriaeth o faterion iechyd meddwl ymysg darparwyr gwasanaethau. Pryderon eraill y cyfeiriwyd atynt hefyd oedd diffyg llety symud ymlaen neu lety un person, materion fforddiadwyedd, a'r ddarpariaeth gyffredinol o lety dros dro i bob unigolyn digartref heb ystyried anghenion cymorth unigol.

4.33 Cyfeiriodd rhanddeiliaid at heriau hefyd yn ymwneud ag argaeledd llety addas. Soniodd rhanddeiliaid am anawsterau wrth ddod o hyd i opsiynau yn y sector rhentu preifat oherwydd amharodrwydd rhai landlordiaid i dderbyn achosion risg uchel, ac effaith negyddol chwiliadau ar-lein sy'n datgelu hanes troseddu. Nodwyd bod parthau gwahardd ar gyfer achosion Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) yn rhwystr rhag cael mynediad at letyau penodol. Yn ogystal, tynnwyd sylw at gostau diogelwch a diffyg cefnogaeth i gynnal llety mewn llety gwely a brecwast.

4.34 Daeth cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth i'r amlwg fel thema allweddol. Cyfeiriwyd at enghreifftiau cadarnhaol, fel dulliau cydweithredol rhwng awdurdodau lleol a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, yn ogystal â phartneriaethau â sefydliadau'r trydydd sector. Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid yn cydnabod bod dulliau gweithredu gwahanol yn bodoli ar draws awdurdodau, ac mae angen canllawiau a chyfrifoldebau cliriach i sicrhau cefnogaeth gyson a theg i bobl sy'n gadael carchar, yn enwedig wrth lywio rhwng gwasanaethau datganoledig a gwasanaethau a gedwir yn ôl.

**Barn rhanddeiliaid am rôl gwasanaethau cymdeithasol a thai i roi diwedd ar ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc**

4.35 Rhannodd rhanddeiliaid gwasanaethau cymdeithasol nifer o awgrymiadau mewn digwyddiadau ymgysylltu i gryfhau'r cynigion i gefnogi pobl ifanc, gan gynnwys:

- egluro a chysoni dyletswyddau statudol â Deddfau SSWB a HWA
- gwella llwybrau ac opsiynau, yn uniongyrchol ar gyfer pobl ifanc, ac yn nhermau ymwybyddiaeth ar gyfer cefnogi aelodau staff
- cynnwys y trydydd sector drwy integreiddio yn y ddeddfwriaeth
- cryfhau rhianta corfforaethol
- meithrin cydweithio rhwng tai a gwasanaethau cymdeithasol (drwy ddatblygu asesiadau ar y cyd a dulliau cynaliadwy)
- mynd i'r afael â phwysau ariannol

4.36 Roedd rhanddeiliaid gwasanaethau cymdeithasol hefyd wedi rhoi adborth ar broffiliau demograffig penodol pobl ifanc sydd mewn perygl o adael gofal a chyflwyno'n uniongyrchol i wasanaethau digartrefedd, gan gynnwys:

- dynion ifanc â phroblemau iechyd meddwl o blentyndod cynnar sydd wedi bod yn gysylltiedig â throseddu treisgar, dywedir bod y grŵp hwn wedi cael cam systematig
- pobl ifanc niwroamrywiol sy'n cael trafferth byw'n annibynnol
- pobl ifanc sydd wedi cael eu hecsbloetio'n rhywiol
- mamau ifanc sydd â phrofiad o ofal (yn enwedig lle gall llety anaddas arwain at denantiaeth yn methu, a lle mae perygl hefyd y bydd y plentyn yn cael ei roi mewn gofal)
- plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches
- unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol ond nad ydynt yn bodloni lefel yr angen i aros yn yr ysbyty yn y tymor hir
- Pobl ifanc LHDTC+

**Barn rhanddeiliaid am alluogi pobl ifanc 16 ac 17 oed i fod yn ddeiliaid contract meddiannaeth**

4.37 Mynegodd rhanddeiliaid gwasanaethau cymdeithasol safbwyntiau cymysg mewn perthynas â'r cynnig hwn. Roedd y manteision a nodwyd yn cynnwys y cynnydd yn yr opsiynau llety y byddai hyn yn eu galluogi, y ffaith y gallai hyn fod yn arbennig o fuddiol i rieni ifanc, a'r annibyniaeth ddilynol y byddai hyn yn ei chynnig.

4.38 Roedd yr anfanteision a nodwyd mewn ymateb i'r cynnig yn canolbwyntio ar realiti ymarferol pobl ifanc yn rheoli cyfrifoldebau cytundebol, yn ogystal â phryderon y gallai'r symud osod disgwyliadau na ellir eu rheoli ar ysgwyddau pobl ifanc, gan roi staff cymorth mewn sefyllfaoedd anodd ar yr un pryd.

4.39 Roedd rhanddeiliaid â phrofiad o ofal hefyd yn betrusgar ynghylch y cynnig, gyda rhanddeiliaid yn cyfeirio at y risg gynyddol bosibl o gamfanteisio rhwng landlordiaid a thenantiaid ifanc.

4.40 Ar ben hynny, nid oedd y rhanddeiliaid hyn yn argyhoeddedig y byddai landlordiaid yn fodlon derbyn tenantiaid yr oedran hwn. Pwysleisiodd y grŵp hwn y dylai deddfwriaeth a pholisi ganolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc i gael llety â chymorth mwy addas, yn hytrach nag agor mynediad i'r sector rhentu preifat.

## 5. Crynodeb o'r Ymateb Ansafonol

5.1 Cyflwynwyd ymatebion 'ansafonol' gan 19 o ymatebwyr. Defnyddir y term hwn i gyfeirio at ymatebwyr a ddewisodd beidio â defnyddio'r templed dogfen ymgynghori 'safonol' i lunio ymateb. Yn hytrach, dewisodd yr ymatebwyr hyn fynd i'r afael â chwestiynau penodol ar eu pen eu hunain, penodau penodol yn eu cyfanrwydd, y Papur Gwyn yn ei gyfanrwydd, neu bwnc atal digartrefedd yn fwy cyffredinol.

5.2 Lle maent wedi mynd i'r afael â themâu penodol, sy'n cyd-fynd yn glir â chwestiynau'r ymgynghoriad, mae'r adborth hwn wedi cael ei integreiddio i'r dadansoddiad fesul cwestiwn. Fodd bynnag, lle mae ymatebion wedi mynd i'r afael â'r materion yn ehangach, mae'r broses ddadansoddi'n mynd yn rhy ddibynnol ar ddehongli gan ymchwilwyr. Pan fydd y dull hwn yn dod yn rhy oddrychol ar gyfer dadansoddiad priodol, gall fod yn well trin y cynnwys ansafonol ar wahân. Felly, mae'r adran fer hon yn cyflwyno crynodeb thematig o'r ymatebion ansafonol, a gafodd eu dadansoddi ar eu pen eu hunain – yn hytrach na'u cyfuno ag adborth yr ymgynghoriad ehangach.

5.3 Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yr ymatebion ansafonol yn cyd-fynd â theimladau a themâu'r ymatebion safonol. Fodd bynnag, roedd nifer a oedd yn sefyll allan yn wahanol neu'n gynrychioliadol ar draws yr ymatebion.

*Cyflenwedd Gwasanaethau Tai*

5.4 Mae gwasanaethau tai yng Nghymru yn wynebu heriau amlochrog, yn ymwneud yn bennaf â chyflenwedd cynigion y Papur Gwyn. Un pryder allweddol oedd y cyflenwad annigonol o dai, sy'n gwaethygu'r pwysau ar wasanaethau cymorth wrth i'r galw fod yn drech na'r hyn sydd ar gael. Awgrymodd ymatebwyr fod data diweddar yn dangos tuedd o gynnydd sy'n peri pryder yn y baich achosion.

5.5 Awgrymodd ymatebwyr awdurdodau lleol fod cyfyngiadau cyllidebol yn gwaethygu'r heriau hyn, sy'n amlwg yn y dyraniad dros gyllideb mewn rhai awdurdodau[13]. Mae cwestiynau'n bodoli ynghylch cynaliadwyedd lefelau'r gwasanaeth presennol, sy'n

[13] Darparwyd tystiolaeth ac mae ar gael yn nogfen yr atodiad ategol

sbarduno trafodaethau brys ar sut i sicrhau ffrydiau cyllido digonol a rhoi'r cynigion ar waith.

*Cefnogaeth i'r Cynigion*

5.6 Roedd y gefnogaeth i'r cynigion yn gymharol eang, fodd bynnag, yn benodol, awgrymodd ymatebwyr y byddai'r mesurau'n hwyluso symud haws i denantiaid presennol, sy'n hanfodol ar gyfer meithrin sefydlogrwydd a hyblygrwydd tai.

5.7 Yn yr un modd, croesawyd cynigion a oedd wedi'u hanelu at wella eglurder ac arweiniad o fewn polisïau tai. Cafodd y posibilrwydd o weithdrefnau cyson, yn enwedig mewn perthynas â chysylltiad lleol a meini prawf ymddygiad annerbyniol, ei groesawu gyda brwdfrydedd.

5.8 Gwelwyd rhywfaint o anghytuno ymysg sefydliadau mewn ymateb i'r prawf trin bwriadol, a nodwyd angen am adolygiad pellach yma.

5.9 Ymatebodd nifer fach o awdurdodau lleol hefyd yn y fformat ansafonol, gan nodi goblygiadau ynghylch gweithredu cynigion yn ymarferol 'ar lawr gwlad', a rhoi tystiolaeth o'r graddau yr ystyrir bod cynigion yn cyd-fynd â'r ffyrdd presennol o weithio, neu'n herio'r ffyrdd hynny.

*Cynigion Ychwanegol*

5.10 Awgrymodd nifer o'r ymatebion ansafonol gynigion neu welliannau ychwanegol ar gyfer cynigion y Papur Gwyn presennol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cynlluniau prynu eiddo yn ôl i ailgyflenwi'r stoc dai
- creu partneriaethau strategol gydag asiantau gosod er mwyn symleiddio cysylltiadau landlord-tenant-awdurdod lleol
- cydnabod natur gydgysylltiedig materion cymdeithasol
- gweithredu i roi terfyn ar bolisïau 'dim DSS' ymysg y lleiafrif o landlordiaid ac asiantau sy'n parhau i'w gweithredu (fel rhan o gynigion wedi'u targedu i atal digartrefedd i'r rhai yr effeithir arnynt yn anghymesur)
- ymgysylltu'n effeithiol ag amrywiol gyrff cyhoeddus yn San Steffan, gan gynnwys yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Adran Gwaith a Phensiynau

*Llety arbenigol a chymorth ar gyfer pobl LHDTC+*

5.11 Er mwyn mynd i'r afael ag anghenion unigryw cymunedau ar y cyrion, mae darparu llety arbenigol yn dod i'r amlwg fel blaenoriaeth allweddol. Mynegodd unigolion LDHTC+, yn benodol, angen dybryd am wasanaethau cymorth a thai pwrpasol, gan nodi diffyg darpariaethau cynhwysol ac effeithiau niweidiol straen ymysg lleiafrifoedd ar gyfraddau digartrefedd.

5.12 Yn ganolog i'r trafodaethau hyn mae'r rheidrwydd i gyflwyno mesurau diogelu i atal rhagor o niwed, yn enwedig mewn perthynas â phrosesau cyfryngu ar gyfer pobl ifanc LHDTC+. Nodwyd bod hyfforddiant staff rheng flaen ar faterion fel cam-drin domestig mewn cymunedau LHDTC+ yn gam hollbwysig tuag at feithrin cynhwysiant ac effeithiolrwydd o fewn fframweithiau cymorth.

*Mynd i'r afael ag iechyd meddwl a digartrefedd*

5.13 Nodwyd bod croestoriadedd iechyd meddwl a digartrefedd yn arbennig o bwysig. Roedd ymatebwyr yn eiriol dros gynnwys ystyriaethau iechyd meddwl mewn polisïau tai, gan gydnabod bod salwch meddwl yn cyfrannu'n sylweddol at ddigartrefedd.

5.14 Roedd yna alw am strategaethau ymyrraeth gynnar, fel asesiadau cyn-triniaeth, i nodi gwendidau tai a darparu cymorth amserol. Cafodd gwasanaethau argyfwng iechyd meddwl yn y gymuned eu hyrwyddo hefyd, sy'n cynnig ymyriadau wedi'u teilwra sy'n mynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl ac ansefydlogrwydd tai ar y cyd.

*Dull sy'n seiliedig ar Dystiolaeth*

5.15 Rhoddodd ymatebwyr bwyslais clir ar bwysigrwydd dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys defnyddio gwybodaeth fyd-eang a lleol. Roedd rhanddeiliaid yn eiriol dros ddealltwriaeth eang o ddeinameg digartrefedd, gan ddysgu o fentrau llwyddiannus mewn mannau eraill, yn enwedig yn yr Alban. Yn ganolog i'r dull hwn mae'r rheidrwydd am asesiadau effaith cadarn, cynllunio gweithredu cynhwysfawr, a gwerthuso a monitro parhaus.

*Trosolwg o'r dystiolaeth a gyflwynwyd*

5.16 Er mwyn hyrwyddo cysondeb, mae’r darnau penodol o dystiolaeth a rannwyd mewn ymatebion ansafonol hefyd wedi cael eu cynnwys yn y ddogfen atodiad ar wahân, a rannwyd â Llywodraeth Cymru. I grynhoi, roedd ymatebion ansafonol yn rhannu cyfoeth o dystiolaeth wedi’i thargedu ar draws y meysydd canlynol:

- camau a gymerwyd gan HMPSS i gefnogi atal digartrefedd ar gyfer y rheini yn y system cyfiawnder troseddol
- heriau o ran cael gafael ar dai i’r rheini sy’n ffoi rhag cam-drin domestig
- tystiolaeth o brofiadau ymgeiswyr o PHP
- tystiolaeth o rwystrau gweithredu’r polisi i ddiwygio’r prawf Cysylltiad Lleol yng Nghymru
- tystiolaeth o’r heriau y mae staff sy’n gweithio ym maes atal digartrefedd yn eu hwynebu (tandaliad, recriwtio a chadw staff)
- tystiolaeth mewn gwrthwynebiad i’r prawf trin bwriadol
- tystiolaeth o’r ffyrdd y mae’r newidiadau arfaethedig i’r tri phrawf craidd yn debygol o effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau ar lefel awdurdod lleol
- angen parhaus i herio gwahaniaethu amhriodol yn erbyn pobl sy’n derbyn budd-daliadau lles

### Ymateb Pobl Ifanc

## Pobl Ifanc / Hawdd ei Ddeall

Cafwyd cyfanswm o 6 ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad ieuenctid, ac roedd yr ymatebwyr yn fodlon ar y cyfan ar y cynigion a restrwyd ar draws pob adran.  Pan ofynnwyd a oedd unrhyw beth yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i hepgor yn ei chynigion, dim ond un ymatebydd a ddewisodd ateb ym mhob adran.

### Adran 1: Helpu pobl yn y ffyrdd iawn

**Cwestiwn – Beth yw eich barn chi am y cynigion yn yr adran hon?**

**Tabl 2.1: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i Adran 1.**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Hapus | 5 |
| Derbyniol | 1 |
| Anhapus | 0 |
| Ddim yn gwybod | 0 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

6.1 Dim ond y rhai a atebodd eu bod yn 'hapus' gyda'r cynigion a ddewisodd ymhelaethu ar pam eu bod wedi dewis eu hateb yn yr adran hon. Nododd tri ymatebydd:

- mae'r cynigion yn helpu'r rhai mwyaf anghenus
- mae yna gyfrifoldeb i ddod o hyd i loches i bobl ifanc sy'n ddigartref
- bydd gan y rhai sy'n wynebu digartrefedd lefel o sicrwydd y bydd ganddynt rywle diogel am o leiaf chwe mis

**Cwestiwn – Oes unrhyw beth rydyn ni wedi'i hepgor?**

6.2 Dywedodd un ymatebydd y byddai'n hoffi gweld y rheini sy'n ddigartref yn cael therapi neu gwnsela.

**Adran 2: Sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio'n well gyda'i gilydd**

**Cwestiwn – Beth yw eich barn chi am y cynigion yn yr adran hon?**

**Tabl 3.1: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i Adran 2.**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Hapus | 5 |
| Derbyniol | 1 |
| Anhapus | 0 |
| Ddim yn gwybod | 0 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

6.3 Dywedodd y rhai a atebodd eu bod yn 'hapus' gyda'r cynigion ac a ddewisodd ymhelaethu ar y rhesymau dros hynny:

- yr oeddent yn falch o weld datrysiad ar gyfer y rhai sy'n ddigartref
- yr oeddent yn falch y gall y rhai sy'n ddigartref gael y cymorth sydd ei angen arnynt

6.4 Atebodd un ymatebydd fod y cynigion yn 'Dderbyniol', a'r rhesymau dros hyn oedd:

- dylai fod yna rif y mae pawb yn ei ddysgu yn yr ysgol i'r rhai sy'n ddigartref, gan nad oes modd ei weld ar brydiau, neu mae'n digwydd yn gyflym

**Cwestiwn – Oes unrhyw beth rydyn ni wedi'i hepgor?**

6.5 Dywedodd un ymatebydd y byddai'n hoffi gweld opsiwn ar gyfer anfon negeseuon testun.

**Adran 3: Rhoi cymorth lle mae ei angen fwyaf**

**Cwestiwn – Beth yw eich barn chi am y cynigion yn yr adran hon?**

**Tabl 4.1: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i Adran 3**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Hapus | 5 |
| Derbyniol | 1 |
| Anhapus | 0 |
| Ddim yn gwybod | 0 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o’r ymatebion i'r ymgynghoriad

6.6 Dim ond y rhai a atebodd eu bod yn ‘hapus’ gyda’r cynigion a ddewisodd ymhelaethu ar y rhesymau, gan grybwyll:

- mae angen i fwy o unigolion helpu’r rhai sy’n wynebu digartrefedd
- dylai’r rhai sy’n dod allan o’r carchar gael cymorth i liniaru eu trafferthion

**Cwestiwn – Oes unrhyw beth rydyn ni wedi’i hepgor?**

6.7 Atebodd un ymatebydd y dylai pawb gael cyfle i fynegi sut maen nhw’n teimlo ac egluro eu hamgylchiadau.

**Adran 4: Cyfateb pobl i’r cartrefi iawn**

**Cwestiwn – Beth yw eich barn chi am y cynigion yn yr adran hon?**

**Tabl 5.1: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i Adran 4**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Hapus | 4 |
| Derbyniol | 2 |
| Anhapus | 0 |
| Ddim yn gwybod | 0 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o’r ymatebion i'r ymgynghoriad

6.8 I’r rheini a oedd yn fodlon â’r cynigion yn yr adran hon, dywedasant ei bod yn deg datrys problem drwy symud rhywun neu gywiro gwall.

6.9 Dywedodd un ymatebydd a nododd bod y cynigion yn dderbyniol mai’r rheswm am hyn oedd bod gan bawb brofiadau unigryw, sy’n golygu y dylai pawb hefyd gael cyfle i brofi eu hunain.

**Cwestiwn – Oes unrhyw beth rydyn ni wedi’i hepgor?**

6.10 Ni ddewisodd neb ateb y cwestiwn hwn.

**Adran 5: Rhoi newidiadau ar waith a gwirio gwaith**

**Cwestiwn – Beth yw eich barn chi am y cynigion yn yr adran hon?**

**Tabl 6.1: Dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion i Adran 5**

| Ateb | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Hapus | 5 |
| Derbyniol | 1 |
| Anhapus | 0 |
| Ddim yn gwybod | 0 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o’r ymatebion i'r ymgynghoriad

6.11 Dywedodd y rhai a ymatebodd eu bod yn fodlon â’r cynigion yn adran 5 oherwydd

- mae pobl yn cael cymorth
- byddai'n dda gweld newidiadau

**Cwestiwn – Oes unrhyw beth rydyn ni wedi’i hepgor?**

6.12 Dywedodd un ymatebydd ei fod yn teimlo y dylai fod mwy o lefydd i’r rheini sy’n ddigartref aros a chael rhyw fath o breifatrwydd.

## Y camau nesaf

7.1 Bydd yr ymatebion i’r ymarfer ymgynghori hwn a’r dadansoddiad canlyniadol yn hysbysu’r gwaith o ddatblygu ein polisi a’n deddfwriaeth ymhellach, wrth i ni fwrw ymlaen â’r ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu 2021 – 2026 a’r Cytundeb Cydweithredu i “Diwygio cyfraith tai a gweithredu argymhelliad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu cyflym”.

7.2 Bydd yr ymatebion i’r ymgynghoriad yn hysbysu’r gwaith parhaus o ddatblygu polisïau i gefnogi diwygiadau deddfwriaethol yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i weithio’n agos gyda’r holl randdeiliaid, gan gynnwys y Panel Adolygu Arbenigol i ddatblygu ein dull gweithredu ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.